# RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

England & Wales · Charity number 1153403

## Details

| | |
|---|---|
| Other names | RHAG |
| Status | Registered |
| Legal form | CIO |
| Registered | 2013-08-14 |
| Register | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| Address | Rhag<br>Mudiad Ysgolion Meithrin<br>11 Ty Nant Court<br>Treforgan<br>Caerdydd<br>CF15 8LW |
| Phone | 07970304219 |
| Email | elin@rhag.cymru |
| Website | www.rhag.cymru |

## Activities

**Objects:** TO FURTHER WELSH MEDIUM EDUCATION IN WALES ENSURING I IS AVAILABLE TO EVERYONE WHO WISHES TO ACCESS ITHYRWYDDO ADDYSG GYMRAEG YNG NGHYMRU FEL EI BOD YN HYGYRCH I BAWB A'I MYNNO

**Activities:** Amcan y mudiad yw hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb ?'i mynno.Yr ydym yn cyflawni'r amcan hwn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol; cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg; cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau; cynghori rhieni gwahanol ardaloedd Cymru; cynnig gwybodaeth ar faterion yn ymwneud ag addysg Gymraeg.

## Classification

- **How:** Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Sponsors Or Undertakes Research
- **What:** Education/training
- **Who:** Children/young People, People With Disabilities, The General Public/mankind

Downloaded from opencharities.uk/ew/1153403

## Geography

- **Area of benefit:** WALESCYMRU
- Throughout Wales

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-03-31 | £146,889 | £112,850 | - | - |
| 2024-03-31 | £100,000 | £117,987 | - | - |
| 2023-03-31 | £105,173 | £96,984 | - | - |
| 2022-03-31 | £95,300 | £79,813 | - | - |
| 2021-03-31 | £184,952 | £130,913 | - | - |

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **Councillor David Wyn Williams** | Chair | 2018-01-15 |
| Elin Mannion | | 2022-06-05 |
| Owain Rhys | | 2022-06-13 |
| TOMOS OWEN RODRIGES | | 2023-07-01 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1153403

RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

England & Wales - Charity number 1153403

# Accounts

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

YSGOL GYMRAEG TREFYNWY

Ysgol Bro Penfro

Ysgol Dyffryn Aeron

YSGOL GYNRADD GYMRAEG AWEL TAF

## CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID

# Adroddiad Blynyddol 2024 – 2025
# RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

Dan nawdd:

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clawr: Logos Ysgolion Cymraeg newydd agorodd yn 2023<br>Ysgol Gymraeg Trefynwy, Sir Fynwy<br>Ysgol Bro Penfro, Sir Penfro<br>Ysgol Bro Aeron, Felinfach, Ceredigion<br>Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf, Rhondda Cynon Taf | 1 |
| 2. | Cynnwys | 2 |
| 3. | Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol | 3 |
| 4. | Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg | 4 |
| 5. | Pwy ydym ni? | 4 |
| 6. | Rhwydweithio | 5 |
| 7. | Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus | 6 |
| 8. | Rhagair a Gair gan y Cadeirydd | 6 |
| 9. | Gwaith y flwyddyn | 7 |
| 10. | Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol | 13 |
| 11. | Cyfarfodydd a chynrychiolaeth | 13 |
| 12. | Cysylltiadau Lleol | 15 |
| 13. | Cysylltu | 16 |
| 14. | Adolygiad ac Adroddiad Ariannol | 16 |

## Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)**

| | |
|---|---|
| **Rhif Elusen:** | 1153403 |
| **Swyddfa Gofrestredig:**<br>Mudiad Meithrin,<br>11 Tŷ Nant Court,<br>Treforgan,<br>Caerdydd,<br>CF15 8LW | Rhieni Dros Addysg Gymraeg |

**Bwrdd Cyfarwyddwyr**
Y Bwrdd Cyfarwyddwyr yw corff llywodraethol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a'i aelodau yw ymddiriedolwyr yr elusen.

Etholir yr ymddiriedolwyr am dymor o 3 mlynedd am uchafswm o 3 chyfnod yn ôl y cyfansoddiad.

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr: | David Wyn Williams | (Cychwyn 15.1. 2018) |
| | Elin Mair Mannion | (Cychwyn 5.6. 2022) |
| | Owain Rhys | (Cychwyn 13.6.2022) |
| | Tomos Rodrigues | (Cychwyn 1.7. 2023) |

Apwyntir y Cyfarwyddwr Cenedlaethol gan y Bwrdd a nhw sydd yn gofalu am waith dydd i ddydd Rhieni Dros Addysg Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cenedlaethol a chyswllt elusen: | Elin Maher |
| Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru | Glesni Edwards |
| Banc: | Natwest |
| Archwilwyr: | RJ Finance, Casnewydd. |

Gosodir dargedau blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn unol â blaenoriaethau RhAG a'r gyllideb sydd ar gael. Cânt eu monitro a'u craffu gan y bwrdd yn eu cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd cyson gyda'r cyrff ariannu.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn yn unol â'u dyletswyddau statudol fel ymddiriedolwyr Sefydliad Corfforedig Elusennol o dan Ddeddf Elusennau 2011 ac wedi sicrhau llywodraethiant cadarn, rheolaeth ariannol briodol, a chydymffurfiaeth â'r ddogfen lywodraethu. Maent wedi goruchwylio gwaith y mudiad, gosod amcanion strategol, monitro perfformiad a risgiau, adolygu trefniadau ariannol, a sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud er budd y cyhoedd ac er mwyn hyrwyddo amcanion elusennol RhAG.

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Dymuna'r ymddiriedolwyr, sef aelodau Bwrdd Rhieni Dros Addysg Gymraeg, gyflwyno eu hadroddiad ar waith a'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2025.

**Llywodraethiant a rheolaeth**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu sef Cyfansoddiad Sefydliad Cofrestredig Elusennol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a fabwysiadwyd ar 14 Awst 2013. Yr ydym yn sefydliad corfforedig elusennol (SCE).

Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn fudiad nid-er-elw ac yn cael ei arwain gan bwyllgor cenedlaethol o wirfoddolwyr a adnabyddir fel Y Pwyllgor Cenedlaethol. Bwrdd Cyfarwyddwyr mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg yw aelodau craidd y Pwyllgor Cenedlaethol. Yn ychwanegol i'r Bwrdd daw ymgynghorwyr eraill i gynghori'r Bwrdd ar amrywiaeth o faterion yn ôl y gofyn.

## Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg

Amcan y mudiad yw hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflawnwn hyn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol, cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg, cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau, cynghorwn rieni gwahanol ardaloedd Cymru gan gynnig iddynt wybodaeth, cefnogaeth ac eiriolaeth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag Addysg Gymraeg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi sicrhau bod gweithgareddau'r flwyddyn yn parhau i gyflawni'n uniongyrchol amcanion elusennol RhAG, sef hyrwyddo addysg Gymraeg fel ei bod yn hygyrch i bawb sy'n dymuno ei dewis. Mae'r gwaith o roi cyngor i rieni, ymateb i ymgynghoriadau, cyfrannu at gynllunio strategol, cefnogi teuluoedd gyda phrosesau derbyn a chludiant, ac annog datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru, i gyd yn darparu budd cyhoeddus pendant drwy gynyddu mynediad, tegwch ac ymwybyddiaeth o addysg Gymraeg.

## Pwy ydym ni?

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg.  Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg a'u cefnogi ar hyd y daith addysg yn ogystal.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn cefnogi, datblygu a chyfrannu at gynllunio addysg Gymraeg. Gweithiwn ar ran rieni a gofalwyr gyda rhwydwaith o gefnogwyr ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu rhieni, awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth i ddatblygu a gwireddu cynlluniau i gynyddu darpariaethau addysg Gymraeg.  Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg.  Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt

werthfawr a hanfodol rhwng rhieni, mudiadau trydydd sector gofal plant, ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol fel ei gilydd.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg ddod yn fwy hygyrch i rieni fel cyfrwng addysg. Yr hyn sydd wedi newid yn arwyddocaol yw sefydlu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y 22 sir a chyfraniad RhAG i'r fforymau addysg Gymraeg sydd wedi eu sefydlu ar draws Cymru mewn ymateb i flaenoriaeth strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr.

Gweithredir erbyn hyn un o egwyddorion sylfaenol y mae RhAG wedi bod yn gofyn amdano ar lefel sirol sef yr angen am strategaeth addysg Gymraeg. Rydym wedi cyfrannu hefyd at lunio Deddf Addysg Gymraeg a ddaw i rym yng nghylch presennol y Senedd. Ymatebodd RhAG i'r papur gwyn ar Fil y Gymraeg ac Addysg yn 2023 ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ymhellach at gam nesaf hynt y ddeddfwriaeth a fydd yn digwydd yn nhymor yr Hydref 2024.

Ystyriwn fod pob rhiant neu ofalwr sydd am neu wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant yn gymwys i dderbyn cefnogaeth RhAG. Gweithiwn hefyd gyda chymunedau lle nad yw'r dewis hwnnw wedi ei wneud eto, gan ddylanwadu'n gadarnhaol drwy rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau yn ôl ein gallu.

## Datganiad Risg

Mae'r ymddiriedolwyr wedi adolygu'r prif risgiau sy'n wynebu'r elusen ac yn ystyried bod y systemau rheoli presennol yn gymesur â maint a natur y mudiad. Prif risgiau gweithredol RhAG yw dibyniaeth ar gyllid grant blynyddol, capasiti staffio cyfyngedig, a risgiau allanol sy'n effeithio ar gynllunio addysg Gymraeg gan awdurdodau lleol. Caiff y rhain eu lliniaru drwy fonitro ariannol rheolaidd, prosesau llywodraethu cadarn, chynllunio ymlaen llaw gyda phartneriaid cenedlaethol, a chydweithio agos gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y gwaith.

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd tua 6 gwaith y flwyddyn ac yn cynrychioli rhieni ar sail genedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrff eraill. Mae'r swyddogion gyda chefnogaeth y Pwyllgor, yn llunio polisïau ac ymatebion i ymgynghoriadau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a chryfhau systemau cynllunio addysg Gymraeg yn ogystal.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog cynrychiolaeth o bob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau neu gynrychiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd â swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol
- Aelodau o Fforymau Addysg Gymraeg Awdurdodau lleol
- Aelodau o Fforymau Iaith Awdurdodau Lleol

## Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus

Cytunir ar raglen waith ar ddechrau'r flwyddyn gyda thargedau penodol gyda'n cyllidwyr a'n cyfarwyddwyr. Ein targedau eleni oedd fel a ganlyn:

1. Cefnogi/cydweithio efo'r Siroedd parthed CSCA Gweithio'n agosach gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol gan sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn datblygu ledled Cymru gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynllunio eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd
2. Parhau i ehangu rhwydwaith y mudiad yn effeithiol ym mhob rhan o Gymru. Datblygu presenoldeb a chefnogaeth ar gyfer siroedd y Gogledd gyda'r swyddog newydd wedi llleoli yno. Sylw penodol ar siroedd lle nad oes Fforwm Addysg Gymraeg.
3. Parhau i fod â phresenoldeb hyrwyddo cyson ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y 2 wefan ac adeiladu'r wybodaeth sydd ar gael i rieni drwy weithio mewn partneriaeth gyda phob rhanddeiliad i wella ansawdd ac amlder y wybodaeth a rennir ganddynt.
4. Presenoldeb yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol digwyddiadau a gwyliau pan yn briodol.
5. Cefnogi ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
6. Darparu cymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth am ddim i rieni mewn achosion penodol yn ymwneud ag anawsterau mynediad i ysgolion Cymraeg.

Yn unol â'n cyfrifoldeb cyfreithiol fel cyfarwyddwyr, yr ydym wedi darllen canllawiau ar fudd cyhoeddus ac yn ystyried y canllawiau wrth i waith y flwyddyn gael ei bennu a'i ddatblygu. Os daw cyfarwyddwyr newydd i'r pwyllgor yna cyflwynir copi o'r canllaw iddynt i'w ddarllen yn ystod eu cyfnod anwytho.

Gall unrhyw riant/ofalwr gael cymorth uniongyrchol gan RhAG er mwyn eu cynorthwyo i gael gwybodaeth neu gefnogaeth ynghylch sicrhau mynediad at addysg Gymraeg yn eu hardal hwy drwy hunan-gyfeiriad neu eu cyfeirio gan fudiad partner.

## Rhagair

Wrth edrych yn ôl ar 2024-25, mae hi wedi bod yn flwyddyn o herio systemau a sefyll ysgwydd yn ysgwydd gyda theuluoedd ledled Cymru. Ein nod eleni oedd nid dim ond ymateb i anawsterau dysgwyr unigol, ond ysgogi newid parhaol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar sefyllfa nifer. O drafodaethau uniongyrchol gydag Ysgrifenyddion y Cabinet, i ddiogelu mynediad at addysg Gymraeg mewn cymunedau o Fôn i Fynwy, rydym wedi profi bod llais rhieni yn rymus. Mae'r adroddiad hwn yn dathlu ein llwyddiannau ond hefyd yn tynnu sylw at y gwaith sydd eto i'w wneud i sicrhau bod y daith i addysg Gymraeg yn decach ac yn hygyrch i bawb ym mhob cymuned yng Nghymru.

## Gair gan ein Cadeirydd - Wyn Williams

Dechreuodd blwyddyn ariannol 2024 gyda chrefftau a chanu yn Llyfrgell Llandudno, a oedd yn gyfle i siarad gyda rhieni yng Nghonwy am eu hopsiynau addysg.  Conwy oedd tref leol yr heriwr Dafydd ap Siencyn yn fy hoff gyfres o lyfrau Cymraeg pan oeddwn i'n blentyn yn derbyn addysg yng Nghymru, ac mewn rhai mannau mae cyflenwi targedau addysg Gymraeg yn heriol i'r Awdurdodau Lleol, ond mae'n rhaid iddynt gael eu cyflawni ar ran holl blant Cymru. Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn gwneud gwaith arbennig yn sicrhau bod Awdurdodau Lleol Cymru yn deall ac yn ceisio cyflawni eu dyletswyddau.

Yn ôl barn un o brif siaradwyr cynhadledd RhaG ym mis Ionawr y llynedd, mae angen treblu'r nifer o swyddogion RhAG er mwyn sicrhau bod y gwaith yma yn cael y buddsoddiad sydd angen.

Mae'n bleser gen i felly cyflwyno adroddiad am barhad ein gwaith mawr yn ystod 2024-25 gan obeithio bydd ein gwaith yn parhau i dderbyn y gefnogaeth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru wedi'r etholiadau sydd ar y gweill eleni.

## Gwaith y flwyddyn

**CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID**

---

Braf yw medru adrodd iddi fod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn arall i fudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg unwaith eto eleni. Gyda chynlluniau Strategol Cymraeg mewn addysg deng mlynedd yr Awdurdodau lleol erbyn hyn yn eu trydedd flwyddyn, a'r datblygiadau ar draws Cymru i gynyddu niferoedd mewn addysg Gymraeg yn mynd yn eu blaen yn raddol. Gwelwyd ôl gwaith amlwg ein dau swyddog cyflogedig, ar draws Cymru, gyda grwpiau lleol gwirfoddol newydd yn sefydlu a phresenoldeb RhAG unwaith eto yn amlwg ac yn ganolog wrth gynyddu'r niferoedd mewn addysg Gymraeg.

**BLAENORIAETH 1 – Cefnogi a Chydweithio â'r Siroedd (CSCA)**

Bu'r ddau swyddog yn cynnal presenoldeb cryf ar draws pob rhan o Gymru. Roedd cludiant yn thema a gododd yn aml yn ystod y flwyddyn, gyda phryderon ynghylch diffyg polisi ôl-16 mewn rhai siroedd yn parhau, anhegwch tâl cludiant rhwng siroedd a diffyg Asesiadau Effaith ar y Gymraeg mewn ymgynghoriadau. Parhau y mae'r gwaith i herio penderfyniadau i wrthod ceisiadau derbyn i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn o ganlyniad i ddiffyg cynllunio lleoedd digonol gan awdurdodau lleol. Roedd hefyd heriau o ran oedi gwariant cyfalaf, cynllunio annigonol a diffyg strwythurau is-grwpiau mewn rhai siroedd.

**BLAENORIAETH 2 – Ehangu Rhwydwaith RhAG ledled Cymru**

Cynyddodd RhAG ein presenoldeb mewn sawl sir, yn enwedig yn y Gogledd. Cryfhawyd partneriaethau gyda'r Mentrau Iaith ac ysgolion, a sefydlwyd grwpiau rhieni newydd. Roedd rhai siroedd yn dangos cynnydd clir, tra roedd eraill yn parhau'n heriol.

**BLAENORIAETH 3 – Rhieni, Cadernid Iaith a Grwpiau Lleol**

Cynhaliwyd nifer o sesiynau Cadernid Iaith i rieni. Crëwyd grwpiau rhieni newydd mewn sawl sir. Bu llawer o ddigwyddiadau cymunedol yn targedu rhieni newydd, teuluoedd di-Gymraeg a chefnogi ysgolion Cymraeg i ddarbwyllo rhieni i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a dylanwadu i wella ystod darpariaeth pynciau cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion uwchradd dwy ffrwd.

**BLAENORIAETH 4 – Cymunedau Ieithyddol Amrywiol**

Crëwyd taflenni amlieithog ac adeiladwyd perthynas waith gyda sefydliadau fel Oasis Caerdydd. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch trochi hwyr, cefnogaeth i geiswyr lloches ac amlieithrwydd.

**BLAENORIAETH 5 – Ymgysylltu, Hyrwyddo a'r Cyhoedd**

Roedd RhAG yn bresennol mewn digwyddiadau cenedlaethol gan gynnwys y Sioe Frenhinol a'r ddwy Eisteddfod genedlaethol, yn ogystal â degau o ddigwyddiadau lleol. Nodwyd bod

angen gwaith pellach ar drafod pynciau cyfrwng Cymraeg gyda rhieni a throsglwyddo rhwng cyfnodau addysg, o'r blynyddoedd cynnar i'r cynradd ac yna i'r uwchradd.

## Gwaith y Siroedd a CSCAau

Bu ein Swyddogion, Elin Maher a Glesni Edwards, yn parhau i weithredu fel 'beirniaid cyfeillgar' ar draws y 22 awdurdod lleol. Eleni, rydym wedi gweld mwy o ffocws ar sicrhau bod Cynlluniau Strategol y Siroedd (CSCAau) yn troi'n gamau gweithredu diriaethol.

Monitro a Dylanwadu: Rydym wedi mynychu fforymau addysg Gymraeg ym mhob cwr o Gymru, gan sicrhau bod llais y rhiant wrth y bwrdd penderfynu.

Heriau Trafnidiaeth: Mae RhAG wedi bod yn flaenllaw yn tynnu sylw at sut mae diffyg cludiant am ddim yn rhwystro twf addysg Gymraeg, gan gyflwyno papur tystiolaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2025.



## Ffocws ar hyrwyddo:

### Digwyddiad Cymerwch Ran / Take pART Venue Cymru, Llandudno yn Sir Conwy. Ionawr 2024

50 mlynedd yn ôl, rhyddhaodd Label Recordiau Sain un o'r recordiau cyntaf o hwiangerddi Cymraeg i blant, wedi'i ganu gan neb llai na Dafydd Iwan a'i ffrind Edward Morus Jones. Mae Cwm Rhyd-y-Rhosyn yn cael ei gydnabod fel un o'r recordiau pwysicaf yn yr iaith Gymraeg. Mae'r record yn plethu stori ffantasi drwy hwiangerddi clasurol Cymraeg, caneuon gwerin traddodiadol a chyfansoddiadau newydd, am ddyffryn hudolus Cwm Rhyd-y-Rhosyn. Dyffryn hudolus Cymreig sy'n gartref i'r holl gymeriadau rhyfedd a rhyfeddol a geir yn ein hwiangerddi. Hanner canrif yn ddiweddarach, mae'r record yn dal yn boblogaidd ymhlith teuluoedd ledled Cymru a thu hwnt.

I nodi'r pen-blwydd arbennig hwn, fe wnaeth RhAG a Mentrau Iaith Cymru gydweithio ar brosiect i ail-greu hud Cwm Rhyd-y-Rhosyn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym mis Mai/Mehefin ym Meifod, Sir Drefaldwyn ac yna yn Venue Cymru, Llandudno. Gweithiwyd gyda dylunydd setiau proffesiynol i greu profiad amlsynhwyraidd, lle bu i gannoedd o blant a'u teuluoedd ymgolli ym myd cyfrinachol Cwm Rhyd-y-Rhosyn.

Dychmygwch fynd i mewn i ogof Caradog y Cawr, neu fynd am dro drwy'r coed gyda'r "dau gi bach", neu ddringo toeau'r tai gyda Jac-y-do. Darparwyd clustffonau Disgo Tawel a gwrando ar drac sain Cwm Rhyd-y-Rhosyn gyda thywyswyr yn arwain ymwelwyr drwy'r gwahanol ardaloedd synhwyraidd. Roedd dawnswyr lleol wedi'u gwisgo fel cymeriadau o Gwm Rhyd-y-Rhosyn gan ddefnyddio arwyddion Makaton i wneud y caneuon yn hygyrch i bawb. Mae'n brosiect a oedd yn wir wedi cyfuno'r awydd gwirioneddol i sbarduno'r elfen o drosglwyddo a mwynhau'r Gymraeg ar draws y cenedlaethau mewn teuluoedd a phrofwyd hyn heb os nag oni bai gan gymaint o deuluoedd. Ein gobaith yw parhau gyda'r fenter hon flwyddyn nesaf er mwyn i fwy o deuluoedd Cymru fwynhau caneuon a straeon y Cwm.

## Cefnogi Teuluoedd gydag apelau

Yn 2024-25, bu RhAG yn eiriol i dros 50 o deuluoedd a fu'n gorfod llywio drwy brosesau cymhleth apelau ysgo a chludiantl. Ein nod yw sicrhau nad yw rhwystrau gweinyddol yn atal plentyn rhag cael addysg Gymraeg ac felly mae sicrhau nad yw newidiadau ym mholisïau awdurdodau lleol yn ei gwneud yn anoddach i rieni gyrchu addysg Gymraeg. Gyda nifer o

awdurdodau lleol yn adolygu eu polisïau cludiant eleni, gwelwyd bod dad-gysylltiad rhwng y polisi cludiant - a oedd yn cwtogi pellteroedd cludiant am ddim - â pholisi addysg sydd yn statudol i fod yn ehangu mynediad at addysg Gymraeg. Er efallai bod siroedd yn “cysoni” gyda pholisi cenedlaethol y Mesur Teithio, daeth hi’n amlwg i RhAG bod awdurdodau lleol yn araf gefnu ar fedru ymateb i anghenion lleol, fel y mae’r Mesur Teithio yn ei ganiatáu a bod yr awdurdodau lleol hyn yn gweld cyfle i gwtogi ar wariant ar gludiant yn hytrach nag ymateb i anghenion lleol.

Llwyddiannau: Rydym wedi gweld llwyddiant sylweddol ym Mhowys a Chaerdydd ond ni fuom yn llwyddiannus ym Mro Morgannwg eleni a collwyd y teulu hwnnw i addysg Gymraeg. Er hyn, parhau y mae ein hymgyrchu a’n llythyrru ac y mae wedi helpu nifer sylweddol o deuluoedd i sicrhau lleoedd mewn ysgolion.

Heriau Parhaus: Er gwaethaf y llwyddiannau, mae pryderon yn parhau mewn rhai siroedd. Rydym yn sicrhau ein bod yn cael sgyrsiau monitro cyson ac adeiladol gyda siroedd ar hyd y flwyddyn i osgoi argyfwng munud olaf ac ailadrodd heriau diangen i deuluoedd.

Mynediad Teg: Mae RhAG yn parhau i ddadlau bod angen proses apêl gliriach ar gyfer y cyfnod Meithrin, er mwyn sicrhau dilyniant o'r cychwyn cyntaf. Ar hyn o bryd nid oes proses apêl i gael i rieni meithrin. Mae hyn yn rhwystr yn enwedig pan nad yw’r cynllunio a’r cyfathrebu’n ddigon eglur rhwng y sector nas cynhelir a’r sector statudol ac yn anad dim os collir y plant i’r sector Saesneg yn gynnar, maent yn llai tebygol o ymuno â sector Gymraeg ar ôl ymgartrefu yn yr ysgol.

## Dechrau’n Deg: Yr Her Bontio

Bu un o heriau mwyaf y flwyddyn yn ymwneud â cheisio sicrhau bod ehangiad y rhaglen Dechrau’n Deg yn sicrhau tegwch ac ystod o ddarpariaethau cynnar Cymraeg newydd. Yn sir Wrecsam er enghraifft, roedd perygl o golli plant i ysgol cyfrwng Saesneg er eu bod wedi gwneud cais am ddarpariaeth Gymraeg mewn dosbarth derbyn ac wedi derbyn darpariaeth gynnar yn y Gymraeg drwy rhaglen Dechrau’n Deg.

Y Broblem: Cafwyd achosion lle roedd plant mewn gofal Dechrau’n Deg Cymraeg yn methu cael lle yn y dosbarth Meithrin yn yr un ysgol gan bod dalgylchoedd yn wahanol. Golygodd hyn bod teuluoedd yn colli hyder ac, yn anffodus, yn troi at addysg Saesneg.

Gweithredu RhAG: Cyflwynwyd cwynion swyddogol a phwyso ar yr Awdurdod Lleol i greu llwybrau cliriach i deuluoedd. Ers i ni godi’r mater gyda’r sir, cyhoeddwyd y bydd dosbarth Dechrau’n Deg newydd yn agor yn Ysgol Hooson o Fedi 2025 i ddatrys y broblem hon yn y dyfodol.

## Dylanwad ar Bolisi Cenedlaethol

Bu 2024-25 yn flwyddyn bwysig i drafodaethau lefel uchel unwaith eto, gan ddefnyddio tystiolaeth o lawr gwlad i lywio polisi cenedlaethol. Roedd cam nesaf y Bil Addysg Gymraeg yn datblygu o fewn amserlen y Senedd a bu RhAG yn gwneud gwaith hyrwyddo a chyflwyno tystiolaeth er mwyn sicrhau bod addysg gyflawn Gymraeg yn cael lle canolog yn y ddeddfwriaeth newydd.

Cyfarfod Gweinidogol: Ym mis Ionawr 2025, cafodd RhAG gyfarfod adeiladol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros drafnidiaeth, Ken Skates. Cyflwynwyd papur tystiolaeth yn nodi heriau dyddiol dysgwyr addysg Gymraeg, gyda gwahoddiad yn dilyn ganddo i ni fynychu uwchgynhadledd ar y Mesur Teithio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Argyfwng y Mesur Teithio: Mae costau trafnidiaeth a rheolau llym y siroedd yn parhau i fod yn "dreth ar yr iaith" yn ein tyb ni. Mae RhAG wedi bod yn pwyso am adolygiad trylwyr i sicrhau bod cludiant teg yn hawl, nid yn fraint, i bawb sy'n dewis addysg Gymraeg. Nid yw'r Mesur Teithio ar hyn o bryd yn cydnabod y gwahaniaeth yn niffyg ehangder y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r gymharu ag addysg cyfrwng Saesneg. Mae angen bod y Mesur Teithio yn gwneud yn iawn am y gwahaniaeth daearyddol o fewn ein cymunedau yn enwedig yn y siroedd lle y mae darpariaeth cyfrwng Saesneg yn sylweddol uwch. Parhawn i bwyso ar Lywodraeth Cymru i weld diwygio'r mesur hwn.

## Cydweithio gyda'n partnerniaid allweddol: Mentrau Iaith a Mudiad Meithrin

Mae'r cydweithio gyda'r Mentrau Iaith a Mudiad Meithrin i gryfhau negeseuon am ofal ac addysg Gymraeg yn parhau gyda rhannu stondinau gwybodaeth mewn sesiynau gyda'r cymeriad Magi Ann neu fod yn rhan o ddigwyddiadau diwrnod Chwarae cenedlaethol. Anelwn at dargedu rhieni a gofalwyr sydd heb wneud y penderfyniad am gyfrwng addysg eu plant eto, gan yn rhy aml clywn am rwystrau o hyd sydd yn dangos nad yw gwybodaeth rhieni a gofalwyr am addysg Gymraeg yn parhau'n gyflawn ac nid yw'r cynnig lleol o hyd yn un teg a chytbwys.

## Sesiynau Miri

Wrth drefnu digwyddiadau hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg Gymraeg i rieni yn ystod paratoadau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024, trefnwyd ar y cyd gyfres o weithgareddau hyrwyddo byr a syml oedd yn cwmpasu holl rhanddeiliad y Gymraeg mewn ardal benodol.

Nid yw'r digwyddiadau hyn yn wreiddiol o bell ffordd. Rydym yn sicr ein bod ni gyd wedi cynnal sesiynau o'r fath o'r blaen. Ond yr hyn sy'n wahanol efallai am sesiynau Miri yw eu bod yn 2 awr o hyd yn unig ac yn cael eu cynnal mewn ymateb i angen hyrwyddo meicro o fewn cymunedau yn hytrach nag ar draws awdurdod lleol.

Roedd hyn mewn ymateb i'r angen i hyrwyddo'r Eisteddfod ei hun ar draws sir Rhondda Cynon Taf yn bennaf ac mewn ardaloedd eraill lle roedd ysgolion neu ddarpariaethau newydd yn cael eu hagor yn Sir Fynwy, Blaenau Gwent a Chasnewydd.

Yr hyn a'n trawodd ni oedd sylwadau gan rieni oedd yn dweud nad oeddynt yn sywleddoli faint o gefnogaeth sydd i'w plant wrth gychwyn ar daith addysg Gymraeg, yn enwedig pan nad oes Cymraeg yn y cartref a bod y sesiwn wedi bod o fudd i nifer wneud y penderfyniad i barhau gan fod y gefnogaeth yn amlwg ac yn hawdd ei gyrraedd a'i gyrchu. Roedd y ffaith bod pawb gyda'i gilydd yn ffactor arall bwysig ac yn amlwg yn adnabod ei gilydd ac yr oedd gallu cyfeirio at waith ein gliydd hefyd yn cyfrannu at brofiad cadarnhaol y rhieni.

Ac felly, mae'r model wedi aros yn dynn at ddwy awr yn bwrpasol er mwyn peidio â chymlethu'n ormodol ac i greu model fyddai'n gynaliadwy i bawb gan ystyried cyfyngiadau staffio pob mudiad partner ac amserlen ddyddiol teuluoedd o ran dod i ddigwyddiadau yn yr wythnos. Mae yna erbyn hyn ganllaw cynhwysfawr sydd wedi ei rannu gan bob Menter Iaith er mwyn ei ddefnyddio'n sail i gynllunio Miri ar draws Cymru. Gellir gwel y canllaw hefyd ar ein gwefan o dan yr adran Adnoddau.

## Cynllunio, cynllunio, cynllunio

Y mae arwyddion pendant o gryfhau'r cynllunio mewn ambell i sir, yn enwedig o ganlyniad i asesiadau effaith ar y Gymraeg wrth gynnal ymgynghoriad ar agor neu newid amgylchiad ysgol. Gwelwyd newid mewn nifer bychan eto eleni o siroedd lle roedd yr asesiadau hyn yn cael eu paratoi ar yr adeg gynnar, sef yn ystod y cyfnod ffurfiannol o baratoi'r cynnig, a bod yr asesiad yn llywio'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n arferiad digon systemataidd o hyd, a hyd yn oed ar yr achlysuron lle cynhyrchir yr asesiad, nid yw ansawdd yr asesiadau hyn o reidrwydd yn rhai o safon. Y mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau hyfforddiant pellach ar yr agwedd hon o'r gwaith cynllunio. Elfen bwysig er mwyn mynd i'r afael â hyn fyddai newid y Cod Trefniadaeth ysgolion i alinio'r cod yn agosach at ddatblygiadau cynllunio addysg Gymraeg y CSCAau a safonau'r Gymraeg. Ymgynghorwyd ar ddiwygio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion eleni

a gobeithiwn y bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn yn cael effaith gadarnhaol ac yn sicrhau'r newid sydd ei angen i'r cod

Mae hygyrchedd at addysg Gymraeg yn parhau'n her i nifer o deuluoedd o hyd. Mae gweledd Addysg Gymraeg o fewn ein cymunedau yn fratiog a dibynnwn yn ormodol ar waith hyrwyddo yn hytrach na gwaith gosod delfryd gan Lywodraeth ganol ac Awdurdodau Lleol.

Agorodd dwy ysgol Gymraeg newydd - Ysgol Gymraeg Tredegar ac Ysgol Gymraeg Bro Penfro, a ffurfiwyd ysgol newydd Gymraeg, Ysgol Dyffryn Aeron, o ganlyniad i uno ysgolion yn ardal Felinfach, Ceredigion ac ysgol Gymraeg Awel Taf yn Rhondda Cynon Taf yn dilyn cau Ysgol Gymraeg Pont Siôn Norton ac aildrefnu darpariaeth de Rhondda Cynon Taf.

Ar un llaw mae agor ysgolion newydd sbon yn newyddion ardderchog wrth gwrs, ond y gwir yw ei bod yn parhau'n rhy anodd i deuluoedd gyrraedd Addysg Gymraeg mewn nifer o siroedd yng Nghymru ac y mae hynny o ganlyniad i'r ffaith nad oes digon o ysgolion Cymraeg ar gael mewn cymunedau ar draws Cymru. Y mae yna ddisgwyliad o hyd i blant sydd yn gofyn am addysg Gymraeg i deithio ymhellach. Yn anffodus, er bod Ysgol Gymraeg Awel Taf mewn ardal ddaearyddol newydd, mae presenoldeb addysg Gymraeg yn y sir wedi symud o ardal Cilfynydd a chanol y sir. Gwnaethpwyd ymdrech aruthrol i gynnal darpariaeth gynnar Gymraeg gyda chylch meithrin Cilfynydd yn ymdrechu'n aruthrol i bontio'r bwlch, ond nid oedd yna gefnogaeth ddigonol gan y sir o ran cynnig safle cynaliadwy i'r cylch.

Mae gan RhAG bresenoldeb ar bron bob fforwm Addysg neu Iaith Gymraeg ar draws Cymru - 19 allan o'r 22. Yr ydym yn aros yn eiddgar i gael llais rhieni ar fforwm addysg Gymraeg Sir Penfro, Abertawe a Sir Gâr, gan obeithio y bydd hynny'n digwydd yn y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'n holl rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws Cymru, sydd yn parhau i gysylltu gyda ni i gydweithio ar nifer o faterion. Parhau i dyfu y mae ein rhwydwaith ar draws Cymru gyda materion yn dod i'n sylw yn amrywio o gymorth ar gyfer ceisiadau i ysgolion a chludiant yn ogystal â hyrwyddo addysg Gymraeg ymysg rhieni a gofalwyr a darparwyr addysg.

Carwn nodi unwaith eto eleni ein gwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gynnal y grant sydd wedi caniatáu inni barhau i ehangu a chynyddu ein gweithgarwch fel mudiad ac i gryfhau ein cyfraniad yn yr ymdrech genedlaethol i wireddu targedau Cymraeg 2050. Mae'r cydweithio cadarnhaol gyda swyddogion y Llywodraeth wedi parhau i'n galluogi fel mudiad i herio a chefnogi awdurdodau lleol ymhellach gyda'r gwaith o gynyddu canran sydd yn derbyn addysg Gymraeg ar draws Cymru. Y mae hefyd wedi galluogi mwy o rieni i glywed am ein gwaith ac i ddod atom am gymorth penodol pan y mae'r galw yn codi.

# Cyfrannu at ysgogi newid

---

### Ymateb i ymgynghoriadau

Ymatebwyd i nifer o ymgynghoriadau eleni unwaith eto. Yn eu mysg roedd:

Pen-y-bont ar Ogwr – ymgynghoriad newid y polisi cludiant
Merthyr Tudful – ymgynghoriad i newid polisi cludiant ôl-16
Sir Fynwy – ymgynghoriad newid y polisi cludiant
Caerffili – ymgynghoriad newid y polisi cludiant
Rhondda Cynon Taf – ymgynghoriad i newid Ysgol Dolau i'r Saesneg ac agor Ysgol Gymraeg newydd ar safle Llanilid
Powys - Newid cyfrwng ieithyddol ysgol Bro Caereinion i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg
Ceredigion - newid dysgu sylfaen 5 ysgol cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg

## Cymraeg i Bawb

Parhaodd waith Pencampwr y Gymraeg yn siroedd y De Ddwyrain i hyrwyddo Addysg Gymraeg ar draws 10 sir. Y mae gan y cynllun wefan gynhwysfawr gyda nifer dda o adnoddau megis fideos o brofiadau teuluoedd am addysg Gymraeg a syniadau am daflenni i hyrwyddo digwyddiadau a darpariaethau yn ogystal. www.cymraegibawb.cymru

Mae RhAG wedi bod yn parhau i gefnogi gwaith bwrdd y pencampwr ac wedi bod yn cyfrannu at y gweithgarwch. Gwelwn fel mudiad bod y gwaith hwn wedi parhau i ychwanegu at ein gwaith ni fel mudiad ac yn cynyddu'r gefnogaeth sydd i gael o ran hyrwyddo addysg Gymraeg a gwella cymhwysedd Awdurdodau Lleol a phartneriaid cymunedol eraill i sicrhau bod addysg Gymraeg yn fwy gweladwy o fewn cymunedau ar draws a 10 sir. Mae ein cyfarwyddwr cenedlaethol wedi bod yn gweithredu fel aelod o'r bwrdd rheoli ac wedi bod yn ddiolchgar iawn o'r gwaith cydweithio sydd wedi digwydd ar hyd y flwyddyn. Gobeithiwn yn daer y bydd modd i'r cynllun hwn fod yn fodel i gynllun cenedlaethol.

## Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Ym Medi 2022 cychwynwyd ar y gwaith o weithredu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda chynllunio'r 5 mlynedd gyntaf yn dasg i bob sir. Erbyn hyn y mae'r cynlluniau wedi cwblhau tair blynedd o gynllunio gydag enillion amlwg mewn rhai siroedd, gydag ysgolion Cymraeg newydd wedi agor a'r cynnydd yn amlwg ond mewn nifer helaeth o siroedd araf yw'r cynnydd o hyd.

Yn y siroedd hynny lle mae Fforymau Addysg Gymraeg wedi eu sefydlu ac yn gweithredu'n gyson ac yn strategol, mae'r canlyniadau'n amlwg. Mae modd gweld holl gynlluniau Addysg Gymraeg y 22 sir ar eu gwefannau.

## Eisteddfodau yr Urdd a'r Genedlaethol

Roedd gyda ni bresenoldeb yn yr Eisteddfodau eleni fel arfer gyda'r Mentrau Iaith yn Eisteddfod yr Urdd a gyda mudiad Dyfodol i'r Iaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Meifod oedd ein cyrchfan gydag Eisteddfod yr Urdd a Phontypridd oedd lleoliad yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae pwyslais ein presenoldeb ychydig yn wahanol yn y ddwy Eisteddfod. Defnyddiwn y cyfle yn Eisteddfod yr Urdd i siarad gyda rhieni yn uniongyrchol ac i hyrwyddo addysg Gymraeg, addysg drochi cynnar a hwyr a'r dilyniant i addysg bellach ac uwch. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol mae'r cyfle yma i rannu gwybodaeth amdanom ni fel mudiad ac i rannu gwybodaeth a gweithgarwch i ddenu cefnogwyr i'r mudiad er mwyn gallu gweithredu ar draws Cymru yn y flwyddyn ganlynol. Trefnwyd rhaglen o weithgarwch ar y stondin fel arfer yn ystod yr wythnos er mwyn ychwanegu at fwrlwm y gwyliau.

## Welsh4parents

Mae gwefan Welsh4Parents.cymru a grewyd dros gyfnod y clo er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dolenni i adnoddau ar-lein yn parhau i gael ei defnyddio'n dda. Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru yn ôl ein gallu. Yn y flwyddyn ddiwethaf cyrchodd 2,400 o ddefnyddwyr y wefan.

## Edrych ymlaen at flwyddyn newydd…

Mae ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf wedi gosod sylfaen gref, ond mae heriau mawr o'n blaenau o hyd. Er mwyn cyrraedd targed Cymraeg 2050, mae angen cynyddu'r momentwm:

Monitro Medi 2025: Byddwn yn dechrau sgyrsiau cynnar gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod digon o leoedd ar gael ac nad oes yr un teulu'n cael eu gwrthod oherwydd diffyg cynllunio neu amwysedd rhwng polisi cludiant ac addysg.

Ymgyrch Cludiant: Rydym yn disgwyl ymgysylltu'n ddwys â'r uwchgynhadledd ar y Mesur Teithio i sicrhau bod polisi a chostau cludiant yn peidio â bod yn rhwystr i rieni.

Cryfhau llais rhieni: Byddwn yn parhau i rymuso rhieni i fod yn hyrwyddwyr dros addysg Gymraeg yn eu cymunedau eu hunain, gan ddarparu'r offer a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i herio a dylanwadu.

Mae RhAG wedi profi blwyddyn o gryfder, gweithredu ac ymyrraeth gadarnhaol. Er hynny, mae heriau sylweddol yn parhau o ran cludiant, cyfalaf, ADY, gweithredu is-grwpiau lleol er mwyn gyrru strategaeth awdurdodau lleol a chynllunio strategol ar draws portffolios awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y flwyddyn nesaf yn galw am fframwaith cenedlaethol ar gyfer trochi hwyr, sicrhau tegwchi addysg Gymraeg  mewn polisi cludiant, ac adnoddau hyrwyddo cyson lleol a chenedlaethol i sicrhau bod rhieni'n deall y deilliannau a dulliau dysgu ieithyddol sydd eu hangen i'w plant fod yn hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

15/4/24 15/7/24 4/11/25 25/1/25

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn ddeufisol fel arfer.




Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: 25 Ionawr 2025 yn Llety'r Parc, Aberystwyth.

Siaradwyr Gwadd: Eleri Vaughan Roberts, Yr Athro Gwennan Higham, Dr. Gwenllian Lansdowne Davies - Ein thema eleni oedd **Addysg Drochi Gyflawn: Seiliau Cadarn i System Addysg Cymru**

Mae fideos ein siaradwyr ar gael i'w gweld ar ein sianel YouTube.

## Cyfarfodydd a chynrychiolaeth

### Cyfarfodydd a gohebu gydag ASau a chynghorwyr lleol

Parhaodd y gwaith o gyfarfod a gohebu gyda gwleidyddion yn y Senedd ac yn ein hawdurdodau lleol, gyda nifer o gyfarfodydd amrywiol yn digwydd i drafod materion yn penodol megis cludiant a diffyg datblygiad addysg Gymraeg mewn ardaloedd penodol a materion polisi penodol. Cyflwynodd RhAG dystiolaeth unwaith eto i bwyllgorau'r Senedd hefyd gan gyfrannu at sesiynau ymchwilio yn ogystal â nifer o ymgynghoriadau.

### Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:

Cyfarfu'r swyddogion yn aml dros y flwyddyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyfarfodydd monitro'r grant blynyddol, trafodwyd materion penodol yn enwedig o ganlyniad i

waith y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn datblygu a pharatoi ar gyfer cam nesaf y Bil Addysg Gymraeg yn dilyn ymateb i'r papur gwyn.

## Cyfarfodydd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg:

Yr ydym wedi cyfarfod gyda swyddogion swyddfa'r Comisiynydd yn gyson dros y flwyddyn yn ogystal, yn rhannu gwybodaeth a chodi pryderon wrth i gynlluniau addysg Gymraeg gael eu llunio a'u gweithredu.

## Rhwydwaith Addysg a'r Gymraeg CGGC:

Mae RhAG yn parhau i eistedd ar rwydwaith Addysg a'r Gymraeg gyda'r CGGC. Mae'n gyfle da i ddod â materion at fwrdd rhwydwaith y trydydd sector ac yn ystod y flwyddyn hon yr oedd parhau i ymateb i heriau cyfnod ôl-cofid yn thema gyffredin. Roedd cyfarfodydd gweinidogol hefyd yn rhan o'r gwaith hwn oedd o fudd mawr i ni fel mudiad yn gallu dod â materion addysg Gymraeg o du'r trydydd sector.

## Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg

Mae cynrychiolaeth gan RhAG ar y fforymau addysg sirol canlynol:

Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerffili, Caerdydd, Casnewydd, Ceredigion, Conwy, Gwynedd,Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf,  Merthyr, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen, Powys, Sir Gâr, Sir Fynwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn.

### Dathlu'r Gymraeg

Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg. Y mae RhAG wedi bod yn curadu Diwrnod Shwmae Su'mae eleni sydd yn ddathliad o gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg. Hydref y 15fed yw'r diwrnod yn flynyddol.

## Cronfa Glyndŵr

Mae'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd yn gyson er mwyn rhannu gwybodaeth am gynlluniau a lleoliadau posibl all wneud ceisiadau am gymorth gan y gronfa.

## ELEN

Bu RhAG yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN) unwaith eto eleni. Ei nod yw hyrwyddo, diogelu a buddio ieithoedd Ewropeaidd llai defnyddiedig a gweithio tuag at gydraddoldeb ieithyddol i'r ieithoedd hyn, ac amlieithrwydd, o dan y fframwaith ehangach o hawliau dynol, a bod yn llais i siaradwyr yr ieithoedd hyn ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol . Sefydliad anllywodraethol yw ELEN.

Mynychodd swyddogion  RhAG y gynhadledd flynyddol ELEN eleni yn Bilbo yng ngwlad y Basgiaid.

Daeth gweithredwyr iaith o bob cwr o Ewrop ynghyd yn Bilbao ar gyfer Cynulliad Cyffredinol ELEN 2024, prif ddigwyddiad Ewrop ar gyfer sefydliadau sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn ieithoedd lleiafrifol. Cynhaliwyd y digwyddiad gan Kontseilua gyda chefnogaeth llywodraeth leol a rhanbarthol.

Cyflwynwyd nifer o benderfyniadau gan aelodau ELEN, gan gynnwys galwadau i weithredu o blaid y Fasgeg, Galiseg, Catalaneg, Astureg a Chymraeg, yn ogystal ag ar effaith ail gartrefi a gordwristiaeth. Cymeradwywyd yn unfrydol benderfyniad Kontseilua yn datgan argyfwng ieithyddol y Fasgeg.

Cafwyd cyfraniadau gan arweinwyr ELEN a chynrychiolwyr y llywodraeth Fasgeg, a darlledwyd y digwyddiad yn fyw ar EiTB. Amlygodd y Dirprwy Lehendakari yr angen i gynyddu defnydd cymdeithasol y Fasgeg fel cam allweddol mewn normaleiddio iaith.

Clywodd y gynhadledd gan siaradwyr arbenigol, gan gynnwys cyflwyniad am “Wyrth Tolosa” gan Kike Amonarriz yn olrhain y gwaith o adfywio’r Fasgeg yn yr ardal honno, trafodaeth ar ofodau byw neu arnasguneak oedd yn trafod creu mannau lle gall ieithoedd anadlu a thyfu’n organic, yn ogystal â chrynodeb o adroddiad Llywodraeth Cymru ar rymuso cymunedau i gryfhau’r Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithdai ar bolisïau cyhoeddus llwyddiannus, cyllid yr UE ar gyfer prosiectau iaith, gweithio gyda sefydliadau’r UE, effaith gordwristiaeth ar ieithoedd lleiafrifol, hawliau ieithyddol strategol, a datblygu ELEN Youth. Croesawyd aelodau ymgeisiol newydd o Cademia Siciliana, a rhannwyd gwybodaeth am brosiectau Ewropeaidd newydd fel Fosterlang.

Daeth y sesiynau i ben gydag adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf ar ysgolion trochi Diwan a rhwydwaith Eskolim yn Llydaw.




## Cysylltiadau Lleol

---

| **Sir** | **Cyswllt** |
|---|---|
| Abertawe | Heini Gruffudd |
| Blaenau Gwent | Meryl Darkins |
| Helen Greenwood | |
| Bro Morgannwg | Mark Bowen |
| Caerdydd | Owain Rhys |
| Nona Evans | |
| Ceri McEvoy | |
| Casnewydd | Elin Maher |
| Castell-nedd Port Talbot | Roger Williams |
| Caerffili | Ben Jones |
| | Phil Bevan |
| | Lowri Jones |
| Ceredigion | Owain Harpwood |
| Sir Ddinbych | Elfed Williams |
| | Ruth Williams |
| Sir Fflint | Nick Thomas |
| | Gill Stephens |
| Merthyr | Mark Ward |

| | |
|---|---|
| Mynwy | Lynne Davies<br>Natalie Eaton |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Elin Mannion |
| Powys | Lorraine Davies |
| Bethan Price | |
| Angharad Davies | |
| Lowri Roberts | |
| Rhondda Cynon Taf | Helen Prosser<br>Osian Rowlands |
| Torfaen | Helen Greenwood |
| Wrecsam | Rhodri Davies |

Gellir cysylltu gyda'r swyddfa ganolog i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r cysylltiadau lleol.

## Cysylltu

Elin Maher
Cyfarwyddwr Cenedlaethol
Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Mudiad Meithrin,
11 Tŷ Nant Court,
Treforgan,
Caerdydd,
CF15 8LW

07970 304219
post@rhag.cymru
www.rhag.cymru

Facebook: www.facebook.com/RhAGCymru
Trydar: @RhAG1 Instagram: rhag_pfwme rhag.cymru

## Adolygiad Ariannol

Derbyniodd RhAG grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru o £100,000 i'w ddefnyddio ar gyllido gwaith y mudiad. Cyllidir gwaith 2 swyddog o'r arian hwn sef swydd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru.

Mae gan RhAG bolisi cronfeydd wrth gefn sydd yn ymdrechu i gadw digon o arian ar gyfer 4 mis o wariant o gronfa anghyfyngedig. Gellir gwario yr arian hwn ar gynnal yr elusen am gyfnod petai rhaid dirwyn yr elusen i ben ac unrhyw wariant perthnasol.

## Gair gan y Trysorydd

Mae'n fraint i mi gael parhau fel Trysorydd ar Fwrdd Cenedlaethol RhAG dros y flwyddyn ddiwethaf – a hynny'n flwyddyn llawn gweithgareddau cyffrous wedi'u gyrru gan waith diflino ein staff gwych!

Mae'n bleser gennyf nodi bod sefyllfa ariannol RhAG yn parhau'n iach, gyda phrosesau a gweithdrefnau ariannol cadarn yn sail i'n holl weithredoedd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2024/25 derbyniom £146,889 (2023/24 £100,000) o ariannu. Roedd £100,000 a hynny yn deillio o Grant Lywodraeth Cymru, £44,800 o rodd garedig iawn gan Mr Okey, a'r gweddill o gyfraniadau a grantiau.

Roedd gwariant y cyfnod ychydig yn fwy na'r Grant Lywodraeth Cymru, gyda gwariant o £112,850 (2023/24 £117,987) am y flwyddyn ariannol 2024/25. Roedd y gwariant ychwanegol yma yn ein caniatáu i gyflawni llu o brosiectau hyrwyddo hollbwysig. Mae ein prif wariant yn parhau yn gostau cyflogau a chostau yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Cyfanswm cronfeydd RhAG ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2024/25 oedd £93,766 (2023/24 £59,728). Mae'r cynnydd sylweddol o 2023/24 oherwydd rhodd hael Mr Robert Okey.

Mae RhAG yn wynebu'r un heriau â sefydliadau tebyg yn yr hinsawdd chwyddiant uchel sydd wedi parhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae Bwrdd Cenedlaethol RhAG yn parhau i wneud penderfyniadau ariannol er mwyn sicrhau'r gwerth fwyaf am arian wrth hybu addysg Gymraeg i blant ledled Cymru. Mae'n ardderchog i nodi bod y cyfrifydd Rob Jones FCCA o gwmni Gwasanaethau Cyfrifyddu R J Financial wedi cyhoeddi Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol yn cadarnhau ei fod yn hapus gyda chyfrifon RhAG am 2024/25.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf, mae gennym gynlluniau cyffrous ar y gweill er mwyn gweithio tuag at gynyddu ein hincwm yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y rhain yn ein cefnogi i barhau i wneud cyfleodd addysg yng Nghymru yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

T O Rodrigues
Cyfarwyddwr a Thrysorydd, Bwrdd Cenedlaethol RhAG

# Adroddiad ariannol 2024 – 25

**Rhieni dros Addysg Gymraeg**
**Derbyniadau a Gwariant**
**Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025**

| | | 2025 | 2024 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Derbyniadau | Cyfraniadau | 89 | |
| | Grant Llywodraeth Cymru | 100,000 | 100,000 |
| | Grant Mentrau Iaith Cymru | 2,000 | |
| | Rhodd Mr Okey | 44,800 | |
| | Cyfanswm Derbyniadau | 146,889 | 100,000 |
| Gwariant | Costau arall (1) | 4,293 | 1,247 |
| | Costau cyflogau | 83,492 | 69,794 |
| | Costau llawrydd | - 0 | 6,976 |
| | Costau pensiwn (2) | - 0 | 5,562 |
| | Costau teithio a llety | 8,306 | 7,840 |
| | Ffioedd cyfrifyddu a bancio | 581 | 511 |
| | Costau prosiectau | 8,212 | 17,203 |
| | Ffioedd ymgynghorwyr allanol | 6,918 | 8,262 |
| | Yswiriant | 1,048 | 593 |
| | Cyfanswm Gwariant | 112,850 | 117,987 |
| Derbyniadau llai gwariant | | 34,039 | (17,987) |
| **Arian mewn llaw:** | | | |
| 1af Ebrill | | 59,728 | 77,715 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | 34,039 | (17,987) |
| 31 Mawrth | | 93,766 | 59,728 |
| Arian Mewn Llaw | | 93,766 | 59,728 |
| Credydwyr | | - 0 | - 0 |
| Cyfanswm Asedau @ 31/03/2025 | | 93,766 | 59,728 |

**Nodiadau:**

(1) Costau arall yn cynnwys costau hyfforddiant staff, costau swyddfa, costau cynnal y gwefan a chostau'r we a theleffon.
(2) Costau pensiwn wedi eu cynnwys yn y costau cyflogau ar gyfer cyfrifon 2024-25 yn hytrach nag ar wahan.

Archwiliwyd gan
R J Financial Accounting Services Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig 220a Stow Hill
Casnewydd
NP20 4HA
Llofnod y cadeirydd:



Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

TYFU GYDA'R GYMRAEG

GROW WITH WELSH

RhAG

Rhieni dros Addysg Gymraeg

Parents for Welsh Medium Education

CHARITY COMMISSION
FOR ENGLAND AND WALES

# Independent examiner's report on the accounts

**Section A** **Independent Examiner's Report**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Report to the trustees/ members of** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg | | |
| **On accounts for the year ended** | 31st March 2025 | **Charity no (if any)** | 1153403 |
| **Set out on pages** | 1-5 | | |

I report to the trustees on my examination of the accounts of the above charity ("the Trust") for the year ended 31st March 2025.

**Responsibilities and basis of report**

As the charity's trustees, you are responsible for the preparation of the accounts in accordance with the requirements of the Charities Act 2011 ("the Act").

I report in respect of my examination of the Trust's accounts carried out under section 145 of the 2011 Act and in carrying out my examination, I have followed all the applicable Directions given by the Charity Commission under section 145(5)(b) of the Act.

**Independent examiner's statement**

I have completed my examination. I confirm that no material matters have come to my attention in connection with the examination (other than that disclosed below *) which gives me cause to believe that in, any material respect:

- the accounting records were not kept in accordance with section 130 of the Charities Act; or
- the accounts did not accord with the accounting records; or
- the accounts did not comply with the applicable requirements concerning the form and content of accounts set out in the Charities (Accounts and Reports) Regulations 2008 other than any requirement that the accounts give a 'true and fair' view which is not a matter considered as part of an independent examination.

I have no concerns and have come across no other matters in connection with the examination to which attention should be drawn in this report in order to enable a proper understanding of the accounts to be reached.

** Please delete the words in the brackets if they do not apply.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Signed:** | [signature] | **Date:** | 16/12/2025 |
| **Name:** | Robert Jones | | |
| **Relevant professional qualification(s) or body (if any):** | FCCA | | |
| **Address:** | 220 Stow Hill, Newport, NP20 4HA | | |

| Section B | Disclosure |
|---|---|
| | Only complete if the examiner needs to highlight material matters of concern (see CC32, Independent examination of charity accounts: directions and guidance for examiners). |
| **Give here brief details of any items that the examiner wishes to disclose.** | Not applicable |

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

## Adran A — Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31 Mawrth 2025 |
| **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1153403 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | 1-5 |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm hymchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a
gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Rydw I'n gallu cadanhau nad yw unrhyw faterion
perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

**Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnodwyd:** | [signature] | **Dyddiad:** | 16/12/2025 |
| **Enw:** | Robert Jones | | |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | FCCA | | |

**Cyfeiriad:** 220 Stow Hill, Casnewydd, NP20 4HA

| Adran B | Datgeliad |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | Ddim yn berthnasol |

# Accounts

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

Teulu hapus a charedig
Ysgol Gymraeg Tregeles

YSGOL GYMRAEG TREDEGAR

GROES-WEN
Ysgol Gynradd Primary School

## CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID

# Adroddiad Blynyddol 2023 – 2024
# RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

Dan nawdd:

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clawr: Logos Ysgolion Cymraeg newydd agorodd yn 2023<br>Ysgol Gymraeg Tregeles Castell-nedd Port Talbot<br>Ysgol Gymraeg Tredegar, Blaenau Gwent<br>Ffrwd Gymraeg, Ysgol Gynradd Groes-wen, Caerdydd | 1 |
| 2. | Cynnwys | 2 |
| 3. | Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol | 3 |
| 4. | Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg | 4 |
| 5. | Pwy ydym ni? | 4 |
| 6. | Rhwydweithio | 5 |
| 7. | Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus | 5 |
| 8. | Gair gan y Cadeirydd | 6 |
| 9. | Gwaith y flwyddyn | 7 |
| 10. | Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol | 12 |
| 11. | Cyfarfodydd a chynrychiolaeth | 12 |
| 12. | Cysylltiadau Lleol | 14 |
| 13. | Cysylltu | 14 |
| 14. | Adolygiad ac Adroddiad Ariannol | 15 |

## Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)**

| | |
|---|---|
| **Rhif Elusen:** | 1153403 |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg<br>Mudiad Meithrin,<br>11 Tŷ Nant Court,<br>Treforgan,<br>Caerdydd,<br>CF15 8LW |

**Bwrdd Cyfarwyddwyr**
Y Bwrdd Cyfarwyddwyr yw corff llywodraethol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a'i aelodau yw ymddiriedolwyr yr elusen.

Etholir yr ymddiriedolwyr am dymor o 3 mlynedd am uchafswm o 3 chyfnod yn ôl y cyfansoddiad.

| | | |
|---|---|---|
| Ymddiriedolwyr: | David Wyn Williams | (Cychwyn 15.1. 2018) |
| | Elin Mair Mannion | (Cychwyn 5.6. 2022) |
| | Owain Rhys | (Cychwyn 13.6.2022) |
| | Tomos Rodrigues | (Cychwyn 1.7. 2023) |

Apwyntir y Cyfarwyddwr Cenedlaethol gan y Bwrdd a nhw sydd yn gofalu am waith dydd i ddydd Rhieni Dros Addysg Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cenedlaethol a chyswllt elusen: | Elin Maher |
| Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru | Glesni Edwards |
| Banc: | Natwest |
| Archwilwyr: | RJ Finance, Casnewydd. |

Gosodir dargedau blynyddol gan y Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn unol â blaenoriaethau RhAG a'r gyllideb sydd ar gael. Cânt eu monitro a'u craffu gan y bwrdd yn eu cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd cyson gyda'r cyrff ariannu.

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Dymuna'r ymddiriedolwyr, sef aelodau Bwrdd Rhieni Dros Addysg Gymraeg, gyflwyno eu hadroddiad ar waith a'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2024.

**Llywodraethiant a rheolaeth**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu sef Cyfansoddiad Sefydliad Cofrestredig Elusennol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a fabwysiadwyd ar 14 Awst 2013. Yr ydym yn sefydliad corfforedig elusennol (SCE).

Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn fudiad nid-er-elw ac yn cael ei arwain gan bwyllgor cenedlaethol o wirfoddolwyr a adnabyddir fel Y Pwyllgor Cenedlaethol. Bwrdd Cyfarwyddwyr mudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg yw aelodau craidd y Pwyllgor Cenedlaethol. Yn ychwanegol i'r Bwrdd daw ymgynghorwyr eraill i gynghori'r Bwrdd ar amrywiaeth o faterion yn ôl y gofyn.

## Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg

Amcan y mudiad yw hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflawnwn hyn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol, cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg, cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau, cynghorwn rieni gwahanol ardaloedd Cymru gan gynnig iddynt wybodaeth, cefnogaeth ac eiriolaeth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag Addysg Gymraeg.

## Pwy ydym ni?

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg a'u cefnogi ar hyd y daith addysg yn ogystal.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn cefnogi, datblygu a chyfrannu at gynllunio addysg Gymraeg. Gweithiwn ar ran rieni a gofalwyr gyda rhwydwaith o gefnogwyr ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu rhieni, awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth i ddatblygu a gwireddu cynlluniau i gynyddu darpariaethau addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt werthfawr a hanfodol rhwng rhieni, mudiadau trydydd sector gofal plant, ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol fel ei gilydd.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg ddod yn fwy hygyrch i rieni fel cyfrwng addysg. Yr hyn sydd wedi newid yn arwyddocaol yw sefydlu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y 22 sir a chyfraniad RhAG i'r fforymau addysg Gymraeg sydd wedi eu sefydlu ar draws Cymru mewn ymateb i flaenoriaeth strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr.

Gweithredir erbyn hyn un o egwyddorion sylfaenol y mae RhAG wedi bod yn gofyn amdano ar lefel sirol sef yr angen am strategaeth addysg Gymraeg. Rydym wedi cyfrannu hefyd at lunio Deddf Addysg Gymraeg a ddaw i rym yng nghylch presennol y Senedd. Ymatebodd RhAG i'r papur gwyn ar Fil y Gymraeg ac Addysg yn 2023 ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ymhellach at gam nesaf hynt y ddeddfwriaeth a fydd yn digwydd yn nhymor yr Hydref 2024.

Ystyriwn fod pob rhiant neu ofalwr sydd am neu wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant yn gymwys i dderbyn cefnogaeth RhAG. Gweithiwn hefyd gyda chymunedau lle nad yw'r dewis hwnnw wedi ei wneud eto, gan ddylanwadu'n gadarnhaol drwy rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau yn ôl ein gallu.

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd tua 6 gwaith y flwyddyn ac yn cynrychioli rhieni ar sail genedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrff eraill. Mae'r swyddogion gyda chefnogaeth y Pwyllgor, yn llunio polisïau ac ymatebion i ymgynghoriadau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a chryfhau systemau cynllunio addysg Gymraeg yn ogystal.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog cynrychiolaeth o bob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau neu gynrychiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd â swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol
- Aelodau o Fforymau Addysg Gymraeg Awdurdodau lleol
- Aelodau o Fforymau Iaith Awdurdodau Lleol

## Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus

Cytunir ar raglen waith ar ddechrau'r flwyddyn gyda thargedau penodol gyda'n cyllidwyr a'n cyfarwyddwyr. Ein targedau eleni oedd fel a ganlyn:

1. Cefnogi/cydweithio efo'r Siroedd parthed CSCA Gweithio'n agosach gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol gan sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn datblygu ledled Cymru gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynllunio eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd
2. Parhau i ehangu rhwydwaith y mudiad yn effeithiol ym mhob rhan o Gymru. Datblygu presenoldeb a chefnogaeth ar gyfer siroedd y Gogledd gyda'r swyddog

newydd wedi llleoli yno. Sylw penodol ar siroedd lle nad oes Fforwm Addysg Gymraeg.

3. Parhau i fod â phresenoldeb hyrwyddo cyson ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y 2 wefan ac adeiladu'r wybodaeth sydd ar gael i rieni drwy weithio mewn partneriaeth gyda phob rhanddeiliad i wella ansawdd ac amlder y wybodaeth a rennir ganddynt.
4. Presenoldeb yn yr Eisteddfodau Cenedlaethol digwyddiadau a gwyliau pan yn briodol.
5. Cefnogi ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
6. Darparu cymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth am ddim i rieni mewn achosion penodol yn ymwneud ag anawsterau mynediad i ysgolion Cymraeg.

Yn unol â'n cyfrifoldeb cyfreithiol fel cyfarwyddwyr, yr ydym wedi darllen canllawiau ar fudd cyhoeddus ac yn ystyried y canllawiau wrth i waith y flwyddyn gael ei bennu a'i ddatblygu. Os daw cyfarwyddwyr newydd i'r pwyllgor yna cyflwynir copi o'r canllaw iddynt i'w ddarllen yn ystod eu cyfnod anwytho.

Gall unrhyw riant/ofalwr gael cymorth uniongyrchol gan RhAG er mwyn eu cynorthwyo i gael gwybodaeth neu gefnogaeth ynghylch sicrhau mynediad at addysg Gymraeg yn eu hardal hwy drwy hunan-gyfeiriad neu eu cyfeirio gan fudiad partner.

## Gair gan ein Cadeirydd - Wyn Williams

Pleser yw gallu cyflwyno i chi ein hadroddiad ar waith y flwyddyn unwaith eto. Mae gallu goruchwylio a chyfrannu at waith llywio elusen Rhieni dros Addysg Gymraeg, wedi bod yn fraint unwaith eto eleni. Mae derbyn nawdd craidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i lunio a gweithredu polisïau sydd o fudd i addysg Gymraeg, yn cael ei groesawu'n fawr, ac rydym yn gwerthfawrogi'r berthynas iach ac adeiladol sydd gennym gyda'n holl rhanddeiliaid.

Mae'n diolch i'n Cyfarwyddwr Cenedlaethol Elin Maher am arwain y gwaith hollbwysig hwn. Parhau mae gwaith RhAG i sicrhau bod gan holl blant Cymru fynediad at addysg iaith Gymraeg felly. Mae ein gwaith yng ngogledd Cymru wedi cael budd sylweddol o'n swyddog rhanbarthol yno, sef Glesni Edwards – ac y mae'r gwaith hwn wedi codi'r angen pellach am swyddogion mewn rhannau eraill o Gymru yng ngorllewin Cymru er enghraifft. Gwyliwch y gofod!

Gobeithiaf y gwelwch o'r adroddiad eleni effaith ein gwaith fel mudiad. Rydym yn cyrraedd y teuluoedd unigol er mwyn eu cefnogi mewn cyfnodau o ansicrwydd mewn apeliadau am leoedd mewn ysgolion ac ar gyfer heriau cludiant i'r ysgol, ond hefyd wedi dylanwadu ar waith polisi lleol a chenedlaethol drwy ein hymatebion cynhwysfawr i ymgynghoriadau a chyfraniadau tystiolaeth.

Ydy, mae'n dda gweld ysgolion Cymraeg newydd yn agor, ond mae'r datblygiadau hyn yn parhau'n rhy araf. Gyda chyllidebau'n gwegian a chostau adeiladu wedi codi'n sylweddol, mae cynlluniau cyfalaf nifer fawr o awdurdodau lleol wedi oedi, ac ambell i gynllun wedi'i gyflwyno heb ystyriaeth lawn i'r elfen hanfodol o ddilyniant o un cyfnod addysgol i'r llall nac ein gweithlu.

Mae ein pwyllgor cenedlaethol yn ceisio cefnogi ein swyddogion cymaint â phosib, a gobeithiwn y bydd ariannu craidd Llywodraeth Cymru yn parhau hyd 2050 a thu hwnt – sef y flwyddyn dyngedfennol o ran mesur a oes gennym filiwn o bobl yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yng Nghymru. Ond sylweddolwn hefyd bod yn rhaid i ni chwilio am ffynonellau ariannol eraill er mwyn i ni fedru dylanwadu ymhellach ar gynyddu niferoedd ysgolion Cymraeg ar draws Cymru. Mi fydd hyn yn rhan o waith y flwyddyn i ddod heb os.

Cefnogwn deuluoedd hefyd y tu hwnt i addysg. Mae ein gwefan www.welsh4parents.cymru yn parhau i gael ei diweddaru gan ein bod yn sylweddoli taw un rhan o'r jigsô yw addysg. Sut mae annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg? Sut allwn ni ddylanwadu'n gadarnhaol ar drosglwyddiad y Gymraeg o fewn y teulu? Mae yna ddewis eang o gemau, caneuon, adnoddau, gweithgarwch cymunedol ar gael a bydd Rhieni dros Addysg Gymraeg yn chwarae ein rhan unwaith eto i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn sydd ar gael.

Trwy arbrofi ac arloesi, mae'r Gymraeg wedi goresgyn pob her hyd heddiw – ar-lein ac yn ein bywydau beunyddiol. Cefnogwch y bobl ifanc sydd wedi gadael addysg Gymraeg yn ddiweddar trwy wisgo bathodyn oren Comisiynydd y Gymraeg er mwyn iddynt barhau i siarad Cymraeg wedi gadael yr ysgol. Byddwn yn cydweithio'n helaeth unwaith eto gyda'n partneriaid i sicrhau bod y cyfleoedd ôl 16 yn y Gymraeg yn flaenoriaeth i bawb.

Diolch i bawb sy'n gwirfoddoli yn ein pwyllgorau lleol a gobeithio bod ein hadroddiad wedi eich symbylu i ymwneud â'n gwaith fel mudiad eto eleni. Rhannwch eich syniadau, ac os ydych mewn ardal yng Nghymru lle mae angen ein cymorth, cysylltwch â ni!

## Gwaith y flwyddyn

**CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID**

---

Braf yw medru adrodd iddi fod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn i fudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg unwaith eto eleni. Gyda chynlluniau Strategol Cymraeg mewn addysg deng mlynedd yr Awdurdodau lleol erbyn hyn yn eu hail flwyddyn, a'r datblygiadau ar draws Cymru i gynyddu niferoedd mewn addysg Gymraeg yn mynd yn eu blaen yn raddol, a hyn ynghyd â bod ail swyddog cyflogedig gan RhAG yn gweithio yng Ngogledd Cymru, roedd presenoldeb RhAG yn amlwg ac yn ehangach eleni yn y gwaith o gynyddu'r niferoedd mewn addysg Gymraeg o Fôn i Fynwy.

Bu ffocws ein gwaith ar sicrhau bod y targedau sydd wedi eu nodi yng nghynlluniau deng mlynedd yr awdurdodau lleol, yn cael eu gwireddu cyn gynted ag y bo modd, fel bod y twf erbyn diwedd y cynllun, yn arwyddocaol ac yn mynd y tu hwnt i'r targedau a osodwyd. Elfen bwysig i ni fel mudiad hefyd yw gweld bod y dulliau y mae Awdurdodau Lleol ac yn wir llywodraeth ganol yn eu defnyddio i gynllunio a hyrwyddo addysg Gymraeg yn cryfhau ac yn gwreiddio o fewn systemau corfforaethol er budd twf addysg Gymraeg. Golyga hyn gynllunio llawer mwy cyfannol o ran y gwaith corfforaethol gan sicrhau bod adrannau yn cydweithio'n well ac mewn cytgord â'i gilydd.

Y mae saith deilliant y cynlluniau strategol heb os wedi cael effaith ar y newid hwn gyda nifer o enghreifftiau da o gychwyn cydweithio er budd y llun cyfan. Mae cynllunio'r

blynyddoedd cynnar heb os yn agosach at gynllunio lleoedd mewn addysg oed statudol. Mae'r cydweithio agos gyda Mudiad Meithrin er mwyn hyrwyddo llwybrau at sicrhau gwell dilyniant o ofal plant at addysg Gymraeg, wedi gwneud gwahaniaeth mawr ac y mae dilyniant o'r gweithgarwch hyrwyddo i fabanod ifanc iawn, gyda gwaith Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi a grwpiau babanod ifanc mewn nifer o Fentrau Iaith wedi dangos twf yn y cyfraddau dilyniant lleol hynny. Gwelwyd cyfres o sesiynau yn cael eu trefnu yn ardal Rhondda Cynon Taf er enghraifft i baratoi ar gyfer dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol, lle trefnwyd gweithgaredd 2 awr o hyd i blant bach oed cyn ysgol gan ddod ag asiantaethau addysg, gofal plant, gwybodaeth i deuluoedd ac ysgolion Cymraeg yr ardal i gyd at ei gilydd. Y mae'r model wedi ei sefydlu fel arfer dda yn ar ardal hon erbyn hyn a nifer o siroedd eraill yn edrych ar y model er mwyn ei efelychu mewn siroedd eraill.

Mae Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru RhAG wedi cychwyn ar sefydlu perthnasau cryfion ar draws siroedd y gogledd, o gydweithio gyda grwpiau Dechrau Da yn Sir Ddinbych ac yn sicrhau presenoldeb mewn gwyliau megis Cymerwch Ran / Take pART yn Venue Cymru, Llandudno yn Sir Conwy. Mae'r cydweithio gyda'r Mentrau Iaith i gryfhau negeseuon am addysg Gymraeg yn parhau gyda rhannu stondinau gwybodaeth mewn sesiynau gyda'r cymeriad Magi Ann neu fod yn rhan o ddigwyddiadau diwrnod Chwarae cenedlaethol. Anelwn at dargedu rhieni a gofalwyr sydd heb wneud y penderfyniad am gyfrwng addysg eu plant eto, gan yn rhy aml clywn am rwystrau o hyd sydd yn dangos nad yw gwybodaeth rhieni a gofalwyr am addysg Gymraeg yn parhau'n gyflawn ac nid yw'r cynnig lleol o hyd yn un teg a chytbwys.

Y mae arwyddion pendant o gryfhau'r cynllunio mewn ambell i sir, yn enwedig yn yr asesiadau effaith ar y Gymraeg wrth gynnal ymgynghoriad ar agor neu newid amgylchiad ysgol. Gwelwyd newid mewn nifer bychan o siroedd lle roedd yr asesiadau hyn yn cael eu paratoi ar yr adeg gynnar, sef yn ystod y cyfnod ffurfiannol o baratoi'r cynnig, a bod yr asesiad yn llywio'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw'n arferiad digon systemataidd o hyd, a hyd yn oed ar yr achlysuron lle cynhyrchir yr asesiad, nid yw ansawdd yr asesiadau hyn o reidrwydd yn rhai o safon. Y mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau hyfforddiant pellach ar yr agwedd hon o'r gwaith cynllunio. Elfen bwysig er mwyn mynd i'r afael â hyn fyddai newid y Côd Trefniadaeth ysgolion i alinio'r côd yn agosach gyda datblygiadau cynllunio addysg Gymraeg y CSCA a safonau'r Gymraeg. Mae sôn wedi bod y bydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cael ei ddiwygio dros y flwyddyn nesaf i adlewyrchu hyn a bydd hyn heb os nag onibai yn gam cadarn ymlaen ac yn dystiolaeth uniongyrchol o'n dylanwad ac effaith ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hygyrchedd at addysg Gymraeg yn parhau'n her i nifer o deuluoedd o hyd. Mae gweledoedd Addysg Gymraeg o fewn ein cymunedau yn fratiog a dibynnwn yn ormodol ar waith hyrwyddo yn hytrach na gwaith gosod delfryd gan Lywodraeth ganol ac Awdurdodau Lleol. Digwyddiad arwyddocaol eleni oedd mynychu digwyddiad i ddiolch a dathlu gwaith Yr Athro Emeritws Colin H. Williams a ysgrifennodd yn wir am arwyddocâd delfrydiaeth wrth gynllunio adferiad iaith. Y mae gosod delfryd yn gam allweddol wrth gwrs, ond y mae gosod delfryd heb yr adnoddau llawn i gyflawni'r delfryd yn beryglus ac yn gallu cymhlethu agweddau a chanfyddiadau ynghylch amcanion a bwriadau'r delfryd gwreiddiol.

Agorodd 2 ysgol Gymraeg newydd ac un ffrwd Gymraeg eleni ac ehangu niferoedd mewn nifer o ysgolion Cymraeg yn ogystal. Y gwir yw ei bod yn parhau'n rhy anodd i deuluoedd gyrraedd Addysg Gymraeg mewn nifer o siroedd yng Nghymru ac y mae hynny o ganlyniad i'r ffaith nad oes digon o ysgolion Cymraeg ar gael mewn cymunedau

ar draws Cymru. Y mae yna ddisgwyliad o hyd i blant sydd yn gofyn am addysg Gymraeg i deithio ymhellach er enghraifft.

Mae gan RhAG bresenoldeb ar bron bob fforwm Addysg neu Iaith Gymraeg ar draws Cymru - 19 allan o'r 22. Yr ydym yn aros yn eiddgar i gael llais rhieni ar fforwm addysg Gymraeg Sir Penfro, Abertawe a Sir Gâr, gan obeithio y bydd hynny'n digwydd yn y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'n holl rhanddeiliaid a phartneriaid ar draws Cymru, sydd yn parhau i gysylltu gyda ni i gydweithio ar nifer o faterion. Parhau i dyfu y mae ein rhwydwaith ar draws Cymru gyda materion yn dod i'n sylw yn amrywio o gymorth ar gyfer ceisiadau i ysgolion a chludiant yn ogystal â hyrwyddo addysg Gymraeg ymysg rhieni a gofalwyr a darparwyr addysg.

Carwn nodi unwaith eto eleni ein gwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gynnal y grant sydd wedi caniatáu inni barhau i ehangu a chynyddu ein gweithgarwch fel mudiad ac i gryfhau ein cyfraniad yn yr ymdrech genedlaethol i wireddu targedau Cymraeg 2050. Mae'r cydweithio cadarnhaol gyda swyddogion y Llywodraeth wedi parhau i'n galluogi fel mudiad i herio a chefnogi awdurdodau lleol ymhellach gyda'r gwaith o gynyddu canran sydd yn derbyn addysg Gymraeg ar draws Cymru. Y mae hefyd wedi galluogi mwy o rieni i glywed am ein gwaith ac i ddod atom am gymorth penodol pan y mae'r galw yn codi.

**Cefnogaeth ac eiriolaeth**

Ni ddylai'r un teulu orfod fynd i apêl am fethiant awdurdod lleol i gynllunio lleoedd ysgol yn briodol nac ychwaith i gamarwain proses apêl heb ystyried yn ofalus yr effaith ar y teuluoedd. Ar ôl galwad gan grŵp o 12 o rieni yn ardal Ynys Cybi, Ynys Môn ar gychwyn 2024, sylwyd nad oedd nifer o ddysgwyr oedd wedi gwneud cais i Ysgol Uwchradd Bodedern o ardal Ynys Cybi, wedi cael eu cynnwys o dan y maen prawf cywir wrth ddyrannu lleoedd ar gyfer Medi 2024. Roedd nifer mwy o ddysgwyr wedi gwneud cais nag yr oedd o le ac felly roedd nifer o deuluoedd wedi derbyn gwybodaeth y byddai'n rhaid iddynt fynd i apêl. Rhaid nodi bod y nifer cynyddol o geisiadau i Ysgol Uwchradd Bodedern yn stori o lwyddiant gan fod Sir Ynys Môn yn wir wedi dynodi fod bron i bob ysgol gynradd ar draws yr ynys yn ysgol categori 3 a bod y gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth rhieni ac yn wir sgiliau ieithyddol y dysgwyr fel bod rhieni yn dewis addysg uwchradd Gymraeg, yn destun o lwyddiant i waith caled penaethiaid ysgolion cynradd Môn. Bu'n rhaid i swyddogion RhAG gefnogi rhieni dros gyfnod yr apêl drwy lythyru ac eirioli gyda swyddogion a chynghorwyr. Yn y diwedd, cafwyd canlyniad cadarnhaol i'r apêl gan i'r panel benderfynu bod angen mwy o wybodaeth ar ôl Cam 1 yr apêl ond i'r Awdurdod Lleol sicrhau y byddai pawb a wnaeth gais i Fodedern yn cael lle ar gyfer Medi 2024 wedi'r cyfan. Hyderwn i ni nid yn unig gefnogi carfan newydd o ddysgwyr i gael mynediad at addysg Gymraeg yn Ynys Cybi, Sir Fôn, ond hefyd gosod sylfaen gref o ran proses ceisiadau trylwyr a threfniadaeth ysgolion rhagweithiol.



Ni allwn bwysleisio gormod bwysigrwydd sicrhau bod prosesau awdurdodau lleol yn rhai cadarn ond eu bod hefyd yn cydnabod pan nad yw'r broses wedi ei dyrannu'n deg ar rhai adegau. Mae RhAG wedi cael blynyddoedd o brofiad o graffu ar y prosesau hyn ac y mae cyrraedd pwynt o orfod mynd â theulu drwy apêl yn gallu bod yn bryderus. Y mae'n gallu amharu ar gyfnod edrych ymlaen y plentyn at fynd i'r ysgol gynradd neu'r uwchradd ac yn gallu amharu hefyd ar y cyfnod pontio pwysig sy'n digwydd yn y cyfnod hwn cyn cychwyn. Ein gobaith yw ein bod yn ysgwyddo'r baich hwn

Cefnogwyd deuluoedd hefyd mewn ardaloedd eraill o Gymru - yng Nghaerdydd ac ym Mhowys. Yn Sir Wrecsam bu trafodaethau niferus gyda heriau cludiant ôl 16. Y mae diffyg polisi cludiant ôl 16 yn Sir Wrecsam yn parhau yn rhwystr i'r dysgwyr a byddwn fel mudiad yn sicrhau ein bod yn pwyso ar swyddogion a chynghorwyr y sir er mwyn cadw'r mater o dan y chwyddwydr fel bod mynediad at gludiant teg i fyfyrwyr dosbarth 6 Ysgol Morgan Llwyd yn troi'n bolisi. Yn yr un modd byddwn yn cadw llygad barcud ar ddatblygiadau cludiant mewn siroedd eraill ar draws Cymru. Hanfodol yw sicrhau y gall bob dysgwr barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn hawdd o fewn pellter rhesymol i'w cartref.

# Cyfrannu at ysgogi newid

**Ymateb i ymgynghoriadau**
Ymatebwyd i nifer o ymgynghoriadau eleni unwaith eto. Yn eu mysg roedd:

- Sir Fynwy - ymgynghoriad i sefydlu ysgol Gymraeg Trefynwy
- Caerdydd - ymgynghoriad i aildrefnu ysgolion ardal Cathays, sydd yn cynnwys Ysgol Gymraeg Mynyddbychan
- Ceredigion - ymgynghoriad i newid cyfrwng addysgu sylfaen 5 o ysgolion cynradd y sir i fod yn Gymraeg
- Casnewydd - methiant o fesur yr effaith ar y Gymraeg ac ar addysg Gymraeg wrth ehangu niferoedd mewn ysgol cyfrwng Saesneg yn ardal Dyffryn
- Wrecsam - dim asesiad effaith ar y Gymraeg wrth ymgynghori ar agor Ysgol newydd cyfrwng Saesneg y Santes Fair, Brymbo
- Rhondda Cynon Taf - ymgynghoriad i gwtogi pellter cludiant am ddim i ysgolion a'i effaith anghymesur ar addysg Gymraeg
- Powys - ymgynghoriad i newid categori ieithyddol Ysgol Bro Caereinion i fod yn un cyfrwng Cymraeg
- Sir Ddinbych - mynegi pryder am ostyngiad i oriau agor Llyfrgelloedd Sir Ddinbych
- Caerdydd - ymgynghoriad agor canolfan ADY cyfrwng Cymraeg
- Sir Conwy - ymgynghoriad ar gludiant ysgol

**Cymraeg i Bawb**
Yn dilyn blynyddoedd o drafod gan aelodau Grŵp Deddf, sef swyddogion y Gymraeg, awdurdodau lleol de ddwyrain Cymru, llwyddwyd i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu cynllun peilot i gyflogi swydd Pencampwr hyrwyddo Addysg Gymraeg ar draws 10 sir. Cychwynnodd Llio Elgar yn y swydd honno yn 2023 gan greu cynllun a chomisiynu adnoddau i hyrwyddo addysg Gymraeg ar draws yr holl siroedd. Y mae gan y cynllun wefan gynhwysfawr gyda nifer dda o adnoddau megis fideos o brofiadau teuluoedd am addysg Gymraeg a syniadau am daflenni i hyrwyddo digwyddiadau a darpariaethau yn ogystal. www.cymraegibawb.cymru

Mae RhAG wedi bod yn cefnogi gwaith bwrdd y pencampwr ac wedi bod yn cyfrannu at y gweithgarwch ddatblygu. Gwelwn fel mudiad bod y gwaith hwn yn ychwanegu at ein

gwaith ni fel mudiad ac yn cynyddu'r gefnogaeth sydd i gael o ran hyrwyddo addysg Gymraeg a gwella cymhwysedd Awdurdodau Lleol a phartneriaid cymunedol eraill i sicrhau bod addysg Gymraeg yn fwy gweladwy o fewn cymunedau ar draws a 10 sir.

**Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Ym Medi 2022 cychwynwyd ar y gwaith o weithredu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda chynllunio'r 5 mlynedd gyntaf yn dasg i bob sir. Erbyn hyn y mae'r cynlluniau wedi cwblhau dwy flynedd o gynllunio gydag enillion amlwg mewn rhai siroedd, gydag ysgolion Cymraeg newydd wedi agor a'r cynnydd yn amlwg ond mewn nifer helaeth o siroedd araf yw'r cynnydd.

Yn y siroedd hynny lle mae Fforymau Addysg Gymraeg wedi eu sefydlu ac yn gweithredu'n gyson ac yn strategol, mae'r canlyniadau'n amlwg. Mae modd gweld holl gynlluniau Addysg Gymraeg y 22 sir ar eu gwefannau.

**Cydweithio wrth hyrwyddo**

Trwy ein gwaith rhyngweithio rhyngwladol gyda'n cyfeillion yn ELEN, cawsom gyfle euraidd ar gychwyn 2024 i groesawu dirprwyaeth o elusen Fis An Phobail o orllewin Belfast i Gymru i rannu arfer dda mewn trosglwyddo'r Gymraeg i deuluoedd mewn ardal lle nad yw'r dwysedd siaradwyr yn uchel. Roedd y berthynas gyda'r elusen wedi ei ffurfio wrth i ni gwrdd yng nghynadleddau ELEN dros y blynyddoedd cynt a braf oedd cael cyfle i drefnu tridiau llawn o brofiadau i'r grŵp i weld gwaith gwych Mudiad Meithrin, Y Mentrau Iaith lleol a'r cynllunio adeiladwaith mewn ambell sir lle roedd y dilyniant o ofal plant i addysg yn digwydd mewn adeilad newydd sbon yn Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon, Caerffili.

Yn dilyn yr ymweliad, lluniwyd arolygiad manwl o'r gwasanaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a theuluoedd ar gyfer y Wyddeleg yng ngorllewin Belffast ga nodi'r daith i Gymru yn astudiaeth achos yn y ddogfen. Braf oedd medru trefnu'r ymweliad a gallu rhannu arferion da gyda'r elusen hon sydd yn gwneud gwaith mor ardderchog yng ngogledd Iwerddon. Ein gobaith yw medru mynd i weld y gwaith ein hunain yn fuan iawn.
www.glornamona.com/fis-an-phobail-family-services-book-english/

**Eisteddfodau yr Urdd a'r Genedlaethol**

Roedd gyda ni bresenoldeb yn yr Eisteddfodau eleni fel arfer gyda'r Mentrau Iaith yn Eisteddfod yr Urdd a gyda mudiad Dyfodol i'r Iaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llanymddyfri oedd ein cyrchfan gydag Eisteddfod yr Urdd a Boduan ym Mhen Llŷn oedd lleoliad yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae pwyslais ein presenoldeb ychydig yn wahanol yn y ddwy Eisteddfod. Defnyddiwn y cyfle yn Eisteddfod yr Urdd i siarad gyda rhieni yn uniongyrchol ac i hyrwyddo addysg Gymraeg, addysg drochi cynnar a hwyr a'r dilyniant i addysg bellach ac uwch. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol mae'r cyfle yma i rannu gwybodaeth amdanom ni fel mudiad ac i rannu gwybodaeth a gweithgarwch i ddenu cefnogwyr i'r mudiad er mwyn gallu gweithredu ar draws Cymru yn y flwyddyn ganlynol.

Mae'r gwaith partneriaeth wedi parhau i dyfu eto drwy waith yr is-bwyllgorau hyn gyda'r berthynas gyda'n cydweithwyr ym Mudiad Meithrin a'r Mentrau Iaith ar hyd a lled Cymru yn cydgordio'n effeithiol.

**Welsh4parents**
Mae gwefan Welsh4Parents.cymru a grewyd dros gyfnod y clo er mwyn cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dolenni i adnoddau ar-lein yn parhau i gael ei defnyddio'n dda. Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru yn ôl ein gallu. Ers 2020 mae 4,000 o ddefnyddwyr wedi cyrchu'r wefan gyda bron i 1,000 dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Apelau ceisiadau lleoedd mewn ysgolion 2023-2024**
Cefnogwyd rhieni mewn 3 sir gyda cheisiadau am apeliadau eleni:

Powys - 2 deulu. Llwyddiant i bawb.

Ynys Môn - 12 teulu. Llwyddiant i bawb.

Caerdydd - 12. Llwyddiant i bawb.

**Edrych ymlaen at flwyddyn newydd…**

Diolch yn fawr unwaith eto eleni i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn aeth heibio. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus newydd lle y byddwn yn gweld ffrwyth gwaith y Cynlluniau Strategol a dylanwad ein gwaith ar hyd a lled Cymru yn ysgogi newid o'r newydd drwy agor ysgolion newydd a gweld cynnydd cadarn a sylweddol yn niferoedd disgyblion Cymru sydd yn derbyn addysg Gymraeg ym mhob cyfnod addysgol. Wrth gynyddu'r niferoedd sydd yn mynd i mewn addysg Gymraeg bydd mwy yn dod allan y pen arall ac yn dod yn siaradwyr hyderus yn y pendraw.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

23/5/23 12/6/23 14/11/23 15/1/24 23/1/24

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn ddeufisol fel arfer.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: 23 Ionawr 2024

Siaradwr Gwadd: Efa Gruffudd - Comisiynydd y Gymraeg

## Cyfarfodydd a chynrychiolaeth

**Cyfarfodydd a gohebu gydag ASau a chynghorwyr lleol**
Mae'r gwaith o gyfarfod a gohebu gyda gwleidyddion yn y Senedd ac yn ein hawdurdodau lleol wedi parhau eleni gyda nifer o gyfarfodydd amrywiol yn digwydd i drafod materion yn ymwneud â materion penodol megis cludiant a diffyg datblygiad addysg Gymraeg mewn ardaloedd penodol a materion polisi penodol. Cyflwynodd RhAG dystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd hefyd gan gyfrannu at sesiynau ymchwilio yn ogystal.

**Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:**
Cyfarfu'r swyddogion yn aml dros y flwyddyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyfarfodydd monitro'r grant blynyddol, trafodwyd materion penodol yn enwedig o ganlyniad i waith y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn datblygu a pharatoi ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg yn dilyn ymateb i'r papur gwyn.

**Cyfarfodydd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg:**
Yr ydym wedi cyfarfod gyda swyddogion swyddfa'r Comisiynydd yn gyson dros y flwyddyn yn ogystal, yn rhannu gwybodaeth a chodi pryderon wrth i gynlluniau addysg Gymraeg gael eu llunio a'u gweithredu.

**Rhwydwaith Addysg a'r Gymraeg CGGC:**
Mae RhAG yn parhau i eistedd ar rwydwaith Addysg a'r Gymraeg gyda'r CGGC. Mae'n gyfle da i ddod â materion at fwrdd rhwydwaith y trydydd sector ac yn ystod y flwyddyn hon yr oedd parhau i ymateb i heriau cyfnod ôl-cofid yn thema gyffredin. Roedd cyfarfodydd gweinidogol hefyd yn rhan o'r gwaith hwn oedd o fudd mawr i ni fel mudiad yn gallu dod â materion addysg Gymraeg o du'r trydydd sector.

**Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg**
Mae cynrychiolaeth gan RhAG ar y fforymau addysg sirol canlynol:

Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Caerffili, Caerdydd, Casnewydd, Ceredigion, Conwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen, Powys, Sir Fynwy, Sir Ddinbych, Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd ac Ynys Môn.

**Dathlu'r Gymraeg**
Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg. Y mae RhAG wedi bod yn curadu Diwrnod Shwmae Su'mae eleni sydd yn ddathliad o gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg. Hydref y 15fed yw'r diwrnod yn flynyddol.

**Cronfa Glyndŵr**
Mae'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd yn gyson er mwyn rhannu gwybodaeth am gynlluniau a lleoliadau posibl all wneud ceisiadau am gymorth gan y gronfa.

**ELEN**
Bu RhAG yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN) unwaith eto eleni. Ei nod yw hyrwyddo, diogelu a buddio ieithoedd Ewropeaidd llai defnyddiedig a gweithio tuag at gydraddoldeb ieithyddol i'r ieithoedd hyn, ac amlieithrwydd, o dan y fframwaith ehangach o hawliau dynol, a bod yn llais i siaradwyr yr ieithoedd hyn ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol . Sefydliad anllywodraethol yw ELEN.

Mynychodd swyddogion RhAG cynhadledd flynyddol ELEN eleni yn Casteddu ar ynys Sardigna gan glywed cyfraniadau amrywiol gan nifer o gyfranwyr o bob cwr o Ewrop yn rhannu arferion da ac yn rhannu heriau sydd yn parhau i godi mewn nifer o wledydd lle y mae eu hieithoedd yn parhau heb gydnabyddiaeth swyddogol. Rhwydweithir gyda'r mudiadau hefyd sydd yn aml yn agor drysau i gyfleoedd cyfnewid arbenigedd pellach. Roedd y gynhadledd eleni yn rhan o ŵyl ffilmiau lle cafodd y ffilm o Gymru, Gwledd, enwebiad am wobr hyd yn oed!

## Cysylltiadau Lleol

| Sir | Cyswllt |
|---|---|
| Abertawe | Heini Gruffudd |
| Blaenau Gwent | Meryl Darkins |
| | Helen Greenwood |
| Bro Morgannwg | Mark Bowen |
| Caerdydd | Owain Rhys |
| | Nona Evans |
| | Ceri McEvoy |
| Casnewydd | Elin Maher |
| Castell-nedd Port Talbot | Roger Williams |
| Caerffili | Ben Jones |
| | Phil Bevan |
| | Lowri Jones |
| Ceredigion | Owain Harpwood |
| Sir Ddinbych | Elfed Williams |
| | Ruth Williams |
| Sir Fflint | Nick Thomas |
| | Gill Stephens |
| Merthyr | Mark Ward |
| Mynwy | Lynne Davies |
| | Natalie Eaton |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Elin Mannion |
| Powys | Lorraine Davies |
| | Bethan Price |
| Rhondda Cynon Taf | Helen Prosser |
| | Osian Rowlands |
| Torfaen | Helen Greenwood |
| Wrecsam | Rhodri Davies |

Gellir cysylltu gyda'r swyddfa ganolog i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r cysylltiadau lleol.

## Cysylltu

Elin Maher
Cyfarwyddwr Cenedlaethol
Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Mudiad Meithrin,
11 Tŷ Nant Court,
Treforgan,
Caerdydd,
CF15 8LW

07970 304219
post@rhag.cymru
www.rhag.cymru

Facebook: www.facebook.com/RhAGCymru
Trydar: @RhAG1
Instagram: rhag_pfwme

## Adolygiad Ariannol

Derbyniodd RhAG grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru o £100,000 i'w ddefnyddio ar gyllido gwaith y mudiad. Cyllidir gwaith 2 swyddog o'r arian hwn sef swydd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru.

Mae gan RhAG bolisi cronfeydd wrth gefn sydd yn ymdrechu i gadw digon o arian ar gyfer 4 mis o wariant o gronfa anghyfyngedig. Gellir gwario yr arian hwn ar gynnal yr elusen am gyfnod petai rhaid dirwyn yr elusen i ben ac unrhyw wariant perthnasol.

## Gair gan y Trysorydd

Mae'n fraint i mi gael parhau fel Trysorydd RhAG dros y flwyddyn ddiwethaf – a hynny'n flwyddyn llawn gweithgareddau cyffrous wedi'u gyrru gan waith diflino ein staff gwych!

Mae'n bleser gennyf nodi bod sefyllfa ariannol RhAG yn parhau'n iach, gyda phrosesau a gweithdrefnau ariannol cadarn yn sail i'n holl weithredoedd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 derbyniom £100,000 o ariannu, a hynny i gyd yn deillio o Grant Lywodraeth Cymru.

Roedd gwariant y cyfnod ychydig yn fwy na'r derbyniadau, gyda gwariant o £117,987 am y flwyddyn ariannol 2023/24. Roedd y gwariant ychwanegol y tu hwnt i'r derbyniadau yn ein caniatáu i gyflawni llu o brosiectau hyrwyddo hollbwysig. Mae ein prif wariant yn parhau yn gostau cyflogau a chostau yn gysylltiedig â chyflogaeth. Cyfanswm cronfeydd RhAG ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £59,728.

Mae RhAG yn wynebu'r un heriau â sefydliadau tebyg yn yr hinsawdd chwyddiant uchel sydd wedi bod ohoni yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae Bwrdd Cenedlaethol RhAG yn parhau i wneud penderfyniadau ariannol er mwyn sicrhau'r gwerth fwyaf am arian wrth hybu addysg Gymraeg i Blant ledled Cymru.

Mae'n ardderchog i nodi bod y cyfrifydd Rob Jones FCCA o gwmni Gwasanaethau Cyfrifyddu R J Financial wedi cyhoeddi Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol yn cadarnhau ei fod yn hapus gyda chyfrifon RhAG am 2023/24.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn ariannol nesaf, mae gennym gynlluniau cyffrous ar y gweill er mwyn gweithio tuag at gynyddu ein hincwm yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y rhain yn ein cefnogi i barhau i wneud cyfleodd addysg Gymraeg yng Nghymru yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru.

Tomos Rodrigues

# Adroddiad ariannol 2023 – 24

**Rhieni dros Addysg Gymraeg**
**Derbyniadau a Gwariant**
**Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024**

| | | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Derbyniadau | Cyfraniadau | | 250 |
| | Grant Llywodraeth Cymru | 100,000 | 104,000 |
| | Ad daliad WCVA (cyfnod mamolaeth) | | - |
| | Ad daliad o Darwin Gray | | 923 |
| | Cyfanswm Derbyniadau | 100,000 | 105,173 |
| Gwariant | Costau arall (1) | 1,247 | 432 |
| | Costau cyflogau | 69,794 | 43,011 |
| | Costau llawrydd | 6,976 | - |
| | Costau pensiwn | 5,562 | 3,249 |
| | Costau teithio a llety (2) | 7,840 | 3,246 |
| | Ffioedd cyfrifyddu a bancio (3) | 511 | 257 |
| | Costau prosiectau | 17,203 | 41,596 |
| | Ffioedd ymgynghorwyr allanol | 8,262 | 4,646 |
| | Yswiriant | 593 | 549 |
| | Cyfanswm Gwariant | 117,987 | 96,984 |
| Derbyniadau llai gwariant | | (17,987) | 8,189 |
| **Arian mewn llaw:** | | | |
| 1af Ebrill | | 77,715 | 69,526 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | (17,987) | 8,189 |
| 31 Mawrth | | 59,728 | 77,715 |
| Arian Mewn Llaw | | 59,728 | 77,715 |
| Credydwyr | | - | (1,227) |
| Cyfanswm Asedau @ 31/03/2024 | | 59,728 | 76,489 |

**Nodiadau:**

(1) Costau arall yn cynnwys costau hyfforddiant staff, costau swyddfa, costau cynnal y gwefan a chostau'r we a theleffon.
(2) Is-deitl "Costau teithio" wedi newid o gyfrifon 2022-23, i "Costau teithio a llety" yn cyfrifon 2023-24.
(3) Is-deitl "Ffioedd cyflogres" wedi newid o gyfrifon 2022-23, i "Ffioedd cyfrifyddu a bancio" yn y cyfrifon 2023-24.
(4) Is-deitl "Costau cyfarfodydd" wedi dileu o'r cyfrifon gan nad oedd unrhyw gostau perthnasol yn 2022-23 na 2023-24.

Archwiliwyd gan
R J Financial Accounting Services Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig 220a Stow Hill
Casnewydd
NP20 4HA
Llofnod y cadeirydd:

Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** — **Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol**

**Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau:** Rhieni Dros Addysg Gymraeg

**Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu:** 31 Mawrth 2024

**Rhif yr Elusen (os oes):** 1153403

**I'w gweld ar dudalennau:** 1-5

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2024

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm hymchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a
gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Rydw I'n gallu cadanhau nad yw unrhyw faterion
perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad (heblaw'r hyn a ddatgelir isod *) sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf a chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

*Dilëwch y geiriau mewn cromfachau os nad ydynt yn gymwys.*

**Llofnodwyd:** [signature] **Dyddiad:** 17/12/2024

**Enw:** Robert Jones

**Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** FCCA

**Cyfeiriad:** 220 Stow Hill, Casnewydd, NP20 4HA

| **Adran B** | **Datgeliad** |
|---|---|
| | Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr). |
| **Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.** | Ddim yn berthnasol |

# Accounts

Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education




## CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID

# Adroddiad Blynyddol 2022 – 2023
# RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

Dan nawdd:

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clawr<br>Llun: Canolfan Gwladys : Ysgol Gymraeg Gwynllyw | 1 |
| 2. | Cynnwys | 2 |
| 3. | Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol | 3 |
| 4. | Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg | 4 |
| 5. | Pwy ydym ni? | 4 |
| 6. | Rhwydweithio | 5 |
| 7. | Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus | 5 |
| 8. | Gair gan y Cadeirydd | 6 |
| 9. | Gwaith y flwyddyn | 7 |
| 10. | Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol | 11 |
| 11. | Cyfarfodydd a chynrychiolaeth | 11 |
| 12. | Cysylltiadau Lleol | 12 |
| 13. | Cysylltu | 13 |
| 14. | Adroddiad Ariannol | 14 |

## Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)**

| | |
|---|---|
| **Rhif Elusen:** | 1153403 |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg<br>Mudiad Meithrin,<br>11 Tŷ Nant Court,<br>Treforgan,<br>Caerdydd,<br>CF15 8LW |

**Bwrdd Cyfarwyddwyr**
Y Bwrdd Cyfarwyddwyr yw corff llywodraethol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a'i aelodau yw ymddiriedolwyr yr elusen.

Etholir yr ymddiriedolwyr am dymor o 3 mlynedd am uchafswm o 3 chyfnod yn ôl y cyfansoddiad.

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolwyr: | David Wyn Williams<br>Elin Mair Mannion<br>Owain Rhys<br>Tomos Rodrigues (Cychwyn 1.7.23) |

Apwyntir y Cydlynydd Cenedlaethol gan y Bwrdd a nhw sydd yn gofalu am waith dydd i ddydd Rhieni Dros Addysg Gymraeg.

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Cenedlaethol a chyswllt elusen: | Elin Maher |
| Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru | Glesni Edwards |
| Banc: | Natwest |
| Archwilwyr: | RJ Finance, Casnewydd. |

Gosodir dargedau blynyddol gan y Cydlynydd Cenedlaethol yn unol â blaenoriaethau RhAG a'r gyllideb sydd ar gael. Cânt eu monitro a'u craffu gan y bwrdd yn eu cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd cyson gyda'r cyrff ariannu.

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Dymuna'r ymddiriedolwyr, sef aelodau Bwrdd Rhieni Dros Addysg Gymraeg, gyflwyno eu hadroddiad ar waith a'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2023.

**Llywodraethiant a rheolaeth**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu sef Cyfansoddiad Sefydliad Cofrestredig Elusennol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a fabwysiadwyd ar 14 Awst 2013. Yr ydym yn sefydliad corfforedig elusennol (SCE).

Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn fudiad nid-er-elw ac yn cael ei arwain gan bwyllgor cenedlaethol o wirfoddolwyr a adnabyddir fel Y Pwyllgor Cenedlaethol.

## Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg

Amcan y mudiad yw hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflawnwn hyn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol, cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg, cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau, cynghorwn rieni gwahanol ardaloedd Cymru gan gynnig iddynt wybodaeth a chefnogaeth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag Addysg Gymraeg.

## Pwy ydym ni?

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg a'u cefnogi ar hyd y daith addysg yn ogystal.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn cefnogi, datblygu a chynllunio addysg Gymraeg. Gweithiwn ar ran rieni a gofalwyr gyda rhwydwaith o gefnogwyr ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu rhieni, awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth i ddatblygu a gwireddu cynlluniau i gynyddu darpariaethau addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt werthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol fel ei gilydd.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg ddod yn fwy hygyrch i rieni fel cyfrwng addysg. Yr hyn sydd wedi newid yn arwyddocaol yw sefydlu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn y 22 sir a chyfraniad RhAG i'r fforymau addysg Gymraeg sydd wedi eu sefydlu ar draws Cymru mewn ymateb i flaenoriaeth strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr.

Gweithredir erbyn hyn un o egwyddorion sylfaenol y mae RhAG wedi bod yn gofyn amdano ar lefel sirol sef yr angen am strategaeth addysg Gymraeg. Rydym wedi cyfrannu hefyd at ymateb at lunio Deddf Addysg Gymraeg a ddaw i rym yng nghylch presennol y Senedd.

Ystyriwn fod pob rhiant neu ofalwr sydd am neu wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant yn gymwys i dderbyn cefnogaeth RhAG. Gweithiwn hefyd gyda chymunedau lle nad yw'r dewis hwnnw wedi ei wneud eto, gan ddylanwadu'n gadarnhaol drwy rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau yn ôl ein gallu.

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn ac yn cynrychioli rhieni ar sail genedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisïau ac ymatebion i ymgynghoriadau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg a chryfhau systemau cynllunio addysg Gymraeg yn ogystal.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau neu gynrychiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd â swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol
- Aelodau o Fforymau Addysg Gymraeg Awdurdodau lleol

## Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus

Cytunir ar raglen waith ar ddechrau'r flwyddyn gyda thargedau penodol gyda'n cyllidwyr a'n hymddiriedolwyr. Ein targedau eleni oedd fel a ganlyn:

1. Cefnogi/cydweithio efo'r Siroedd parthed CSCA Gweithio'n agosach gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol gan sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn datblygu ledled Cymru gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynllunio eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd
2. Parhau i ehangu rhwydwaith y mudiad yn effeithiol ym mhob rhan o Gymru
3. Parhau i ddatblygu gwefan i gynnwys deunydd hyrwyddo i gefnogi rhieni.
4. Cefnogi ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
5. Darparu cymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth am ddim i rieni mewn achosion penodol yn ymwneud ag anawsterau mynediad i ysgolion Cymraeg.

Yn unol â'n cyfrifoldeb cyfreithiol fel ymddiriedolwyr, yr ydym wedi darllen canllawiau ar fudd cyhoeddus ac yn ystyried y canllawiau wrth i waith y flwyddyn gael ei bennu a'i ddatblygu. Os daw ymddiriedolwyr newydd i'r pwyllgor yna cyflwynir copi o'r canllaw iddynt i'w ddarllen yn ystod eu cyfnod anwytho.

Gall unrhyw riant/ofalwr gael cymorth uniongyrchol gan RhAG er mwyn eu cynorthwyo i gael gwybodaeth neu gefnogaeth ynghylch sicrhau mynediad at addysg Gymraeg yn eu hardal hwy.

## Gair gan ein Cadeirydd - Wyn Williams

Fel y gwyddoch, mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn ymgyrchu ledled Cymru i sicrhau bod holl blant ein gwlad yn cael mynediad at addysg iaith Gymraeg. Mae teithio i bob cwr o'n gwlad tipyn yn haws erbyn hyn wedi i ni apwyntio Glesni Edwards yn swyddog i'r gogledd. Croeso Glesni! Mae Glesni yn aml diweddaru ein cyfrif instagram gyda'i gweithgaredd, felly chwiliwch am 'Rhag' ar y llwyfan hwnnw i ddod o hyd i'n cyfrif yno.



Mae pethau'n parhau i newid wedi'r cyfnod clo, ac roedd hi'n bleser cwrdd wyneb-yn-wyneb gyda ffrindiau hen a newydd yn yr eisteddfodau cenedlaethol sydd yn ôl yn ein dyddiaduron yn awr. Bu ein Cyfarfod Cyffredinol ar gyfer 2022 yng Nghanolfan Gartholwg a cheir fideo ar-lein ar ein sianel YouTube (eto, chwiliwch am "RhAG" i ddod o hyd i'n sianel yno).

O ran targedau addysg penodol awdurdodau lleol Cymru, gwaith RhAG yw ceisio sicrhau bod awdurdodau lleol dros Gymru gyfan yn dilyn cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru, ac i'n Cyfarwyddwr diflino Elin Maher mae'r diolch am ei gwaith yn arwain y ddyletswydd hollbwysig hon. Mi fydd hi hefyd am glywed am unrhyw ofidion sydd gennych am sector sydd yn parhau i fod dan bwysau. Mae'r penawdau diweddar am y pwysau sydd ar athrawon fel unigolion wedi ein hatgoffa ni oll eu bod nid yn unig yn adnodd pwysig ond hefyd yn gig a gwaed yn ystod pob diwrnod gwaith.

Mae'r frwydr gyfreithiol yng Nghastell Nedd Port Talbot a deilliodd o anwybyddu addysg Gymraeg wrth ddatblygu addysg Saesneg yno wedi arwain at RhAG a Chomisiynydd y Gymraeg yn brwydro – yn llwyddiannus – dros hawliau addysg Gymraeg yn yr ardal. Cam pwysig arall yn y daith tuag at ein nod o fynediad teg i bob plentyn yng Nghymru i'r iaith - er bod yna waith meddwl ar y gweill wrth ystyried beth yn union bydd dehongliad nesaf y llywodraeth genedlaethol o'r dymuniad hynny y dyfodol agos wedi'r newidiadau nesaf yn arweiniaeth a gweinidogion y Blaid Lafur yng Nghymru.

Erbyn hyn mae'n bum mlynedd a mwy yn ôl ers imi gael fy ngwahodd i fod yn Gadeirydd, felly bydd fy amser i fel ymddiriedolwr yn dod i ben yn weddol fuan - ac er bod hi wedi bod yn pum mlynedd heriol o ran y sector addysg, mae'r nifer o lwyddiannau wedi twymo fy nghalon, hyd yn oed yng nghanol gaeafau hir a gwlyb! Diolchaf yn daer eleni eto i bawb sy'n rhan o bwyllgorau lleol RhAG dros Gymru.

Gwyddwn fod gan y sector addysg gyfraniad aruthrol at ddyhead mudiadau fel RhAG ac at bolisi cenedlaethol erbyn hyn, i sicrhau mwy o siaradwyr Cymraeg. A gellid nodi bod y siom o weld niferoedd cyffredinol siaradwyr Cymraeg Cyfrifiad 2021 yn syrthio unwaith eto, wedi sigo'r ysbryd er gwaethaf ymdrechion y ddegawd ddiwethaf. Roedd anghysonderau parhaus yn cymhlethu agweddau o'r data megis niferoedd y cyfrifiad ddim yn cyfateb i niferoedd mewn addysg Gymraeg. Y mae gwaith pellach yn cael ei wneud i graffu ar hyn. Ond y tu ôl i'r penawdau roedd yna rhai tameidiau o obaith. Un o'r rhain oedd y twf yn y grŵp oed sydd fel arfer yn cychwyn teulu sef 25-45 oed o 14.9% i 15.9%. Dyma ein rhieni a'n gofalwyr.

Blwyddyn felly oedd hi o newyddion da a newyddion drwg.

Y newyddion drwg yw bod hi'n parhau i fod yn **rhy** anodd i deuluoedd gyrraedd Addysg Gymraeg mewn nifer o siroedd yng Nghymru. Er bod yna ysgolion Cymraeg newydd wedi agor yn ystod y flwyddyn a nifer o ysgolion wedi gweld cynnydd yn eu niferoedd, fel yn ysgol Gymraeg Gwynllyw yn Nhorfaen, sydd wedi symud i fod yn ysgol 3-18 oed, araf yw'r datblygu mewn ardaloedd daearyddol newydd ac y mae effaith costau uwch adeiladu yn golygu bod yr esgid yn gwasgu'n fwy nag erioed.

Ond, roedd data CYBLD Llywodraeth Cymru yn dangos llun cenedlaethol rhwystredig unwaith eto eleni. O'n profiad ar fforymau addysg Gymraeg nifer o siroedd, mae agweddau o fewn ein systemau cynllunio addysg yn parhau i osod addysg cyfrwng Saesneg fel y dewis diofyn ac y mae'r **dewis** hwn y parhau i rwystro twf.

Er mwyn i addysg Gymraeg fod yn fwy hygyrch y mae yna heriau eraill o'n blaenau, sef diffyg tir a chyllid a diffyg archwaeth i wneud penderfyniadau anodd i ymateb i anghenion cymunedau a strategaethau lleol a chenedlaethol.

Mae heriau megis gwahaniaethau mewn darpariaeth cludiant ysgol yn parhau i fod yn fwrn gyda phenderfyniadau ar bolisïau cludiant yn niweidiol i allu teuluoedd i gyrchu addysg Gymraeg o fewn ein cymunedau yn hawdd.

**OND** mae yna newyddion da hefyd!

Roedd RhAG yn bresennol yn agoriad Ysgol Santes Tudful, Safle'r Gurnos ym Merthyr wrth fod y sir yn sefydlu trydedd ysgol gynradd y sir a Mudiad Meithrin yn agor Cylch Meithrin y Gurnos yn ogystal. Mae hyn yn batrwm cyffredin ac effeithiol erbyn hyn lle y mae datblygiad cynradd yn golygu agor darpariaeth blynyddoedd cynnar yno hefyd i fwydo'r ysgol.

Daeth cyfnod dod yn ôl at ein gilydd mewn cae unwaith eto, i'n llonni a'n cysylltu o'r newydd, gydag eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych yn Sulgwyn 2022 a Thregaron ym mis Awst wrth i ni rannu pabell gyda Menter Sir Dinbych a Mentrau Iaith Cymru a mudiad Dyfodol yr Iaith. Cawsom gyfle i siarad gyda rhieni a chefnogwyr o Fôn i Fynwy gan dderbyn nerth i fwrw ati am flwyddyn arall a chadw clust agored am faterion llosg yr ardaloedd.

Cyflwynodd RhAG dystiolaeth ym Medi 2022 o flaen y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn Senedd Cymru oedd yn edrych ar y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Tra efallai gellid dweud ar un llaw bod y casglu tystiolaeth braidd yn gynnar, roedd yn gyfle ar gychwyn blwyddyn gyntaf y cynlluniau i gloriannu barn nifer o rhanddeiliaid a gwleidyddion ar gychwyn y broses o weithredu'r cynlluniau a luniwyd dros y misoedd cynt gan obeithio cynnig cyfeiriad a gobeithion ar gyfer y cyfnod i ddod.

Mae gan RhAG erbyn hyn bresenoldeb ar bron bob fforwm Addysg neu Iaith Gymraeg ar draws Cymru - 19 allan o'r 22. Nid ar chwarae bach y mae hynny'n digwydd gan y golyga hyn gyfarfodydd di-ri. Caffaeliad mawr i RhAG yn 2023 oedd cael Glesni Edwards yn ymuno â ni fel swyddog ymgysylltu a hyrwyddo Gogledd Cymru ac y mae Glesni wedi gwneud gwaith ardderchog yn chwilio am gyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda phartneriaid ar hyd y gogledd ers iddi ddechrau ym mis Ebrill.

Rydym hefyd yn parhau'n ddiolchgar iawn i'n holl rhanddeiliad a phartneriaid ar draws Cymru, sydd yn parhau i gysylltu gyda ni am amrywiaeth o faterion. Tyfu y mae ein rhwydwaith ar draws Cymru gyda materion yn dod i'n sylw yn amrywio o gymorth ar gyfer ceisiadau i ysgolion a chludiant yn ogystal â hyrwyddo addysg Gymraeg ymysg rhieni a gofalwyr  a darparwyr addysg.

Carwn nodi eto ein gwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gynnal y grant sydd wedi caniatáu inni barhau i ehangu a chynyddu ein gweithgarwch fel mudiad ac i gryfhau ein cyfraniad yn yr ymdrech genedlaethol i wireddu targedau Cymraeg 2050. Mae'r cydweithio cadarnhaol gyda swyddogion y Llywodraeth wedi parhau i'n galluogi fel mudiad i herio a chefnogi awdurdodau lleol ymhellach gyda'r gwaith o gynyddu canran sydd yn derbyn addysg Gymraeg ar draws Cymru. Y mae hefyd wedi galluogi mwy o rieni i glywed am ein gwaith ac i ddod atom am gymorth penodol pan y fo galw yn codi.

**Cefnogaeth  ac eiriolaeth**

Yr ydym yn pwyso a mesur effaith ehangach ein cefnogaeth i rieni a gofalwyr yn ofalus. Yr hyn a welwn yn aml yw bod sefyllfa heriol i un teulu yn gallu golygu newid posib mewn polisi a fydd, yn y pendraw, yn cynorthwyo mwy o rieni. Mae hyn yn elfen bwysig i ni fel mudiad sef yr effaith pellach ac ehangach a ddaw o gefnogi un teulu gydag un mater.



Daw rhieni atom yn gofyn am gefnogaeth gyda nifer o wahanol agweddau yn eu herio bob blwyddyn. Mae cyfnod gwneud cais am ysgol yn gallu bod yn un digon heriol i rieni ac felly gallwn gynorthwyo gydag agweddau sy'n codi wrth wneud cais am ysgol, yn enwedig os nad yw awdurdod lleol wedi bod yn cynllunio digon o leoedd ar gyfer addysg Gymraeg mewn ardal benodol. Yn 2022-2023 daeth 8 teulu atom o wahanol rannau o Gymru yn gofyn am gymorth gyda hyn.

Teulu Rees, Gilfach Goch

Newid ym mholisi cludiant oedd her y teulu Rees o Gilfach Goch, sir Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y sir wedi newid y polisi cludiant i wrthod cludiant am ddim i ddysgwyr dderbyn cludiant am y tu hwnt i ffin ddaearyddol y sir. Roedd hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar y teulu Rees gan nad oedd ei mab yn gymwys mwyach i gael ei gludo

am ddim i'r ysgol uwchradd lle yr oedd ei gymheiriaid yn mynd. Roedd ei ysgol Gymraeg agosaf ym mhentref Tonyrefail, Rhondda Cynon Taf ac yntau'n symud i Ysgol Gyfun Llanhari i flwyddyn 7. Y mae sir Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i gludo dysgwyr i Ysgol Gymunedol Tonyrefail o'r sir, sef yr ysgol uwchradd Saesneg, ond nid i Ysgol Gyfun Llanhari. Rydym wedi ein rhyfeddu at annhegwch y sefyllfa hon ac yn parhau i gefnogi'r teulu Rees. Mae RhAG o'r farn y dylai dysgwyr allu croesi ffiniau sirol heb gael eu cosbi os yw'r ysgol Gymraeg yn agosach na'r ysgol agosaf o fewn eu sir hwy a chael rhyddid hefyd i ddilyn i'r ysgol glwstwr uwchradd gyda'i gymheiriaid. Parhau y mae'r frwydr!

Mae ein gwaith i ymateb i ymgynghoriadau yn parhau ac ymatebwn yn gynyddol i ymgynghoriadau am dwf addysg cyfrwng Saesneg. Dyna oedd sail yr adolygiad barnwrol yn erbyn Castell nedd Port Talbot ac yn wir hefyd ein cwyn i'r Comisiynydd a ddaeth gerbron y Tribiwnlys y llynedd a oedd yn ddyfarniad arwyddocaol i ni ac i'r modd y mae Awdurdodau Lleol yn mynd ati i gynllunio twf mewn addysg cyfrwng Saesneg yn eu siroedd.

Yn yr un modd, ymatebwyd i ymgynghoriad ar gynnydd i nifer mynediad Ysgol Coety ym Mhen-y-bont ar Ogwr, lle yr oedd hyn yn amlwg am fod yn niweidiol i ddatblygiad Ysgol Gymraeg Bro Ogwr. Gwrthod ein sylwadau a wnaethpwyd yn y diwedd ond gan obeithio bod y sir wedi sylweddoli bod cynyddu niferoedd mewn addysg Saesneg am danseilio gwaith y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac nad oes modd cael un heb i'r llall ddioddef.

Roedd gan sir Powys gyfle i sefydlu ysgol Gymraeg yn ardal Abercraf yn Ysgol Cribarth. Roedd yr ysgol ar daith drosiannol yn barod ond penderfynodd y sir sefydlu ysgol dwy ffrwd yn hytrach nag ysgol benodedig - sydd yn siom fawr i ni gan fod Ysgol Dyffryn y Glowyr yn orlawn yn Ystradgynlais a chyfle gwirioneddol i gynnig addysg Gymraeg mewn ardal arall o'r sir.

Y mae sir Wrecsam yn parhau heb bolisi cludiant ôl-16 i ddysgwyr mewn addysg Gymraeg. Ar hyn o bryd rydym yn parhau i ymateb i geisiadau gan rieni bod eu plant yn gorfod mynd trwy brosesau apelio a chyfathrebu bob blwyddyn cyn bod swyddogion yn derbyn ceisiadau am gludiant consesiynol. Nid yw hyn yn dderbyniol. Mae'n oedi cychwyn tymor y dysgwr ac yn annheg ar y garfan hon o ddysgwyr gyda rhai wedi gorfod cludo dysgwyr eraill ddyddiau ar ôl llwyddo yn y prawf gyrru.

**Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**
Ym Medi 2022 cychwynnwyd ar y gwaith o weithredu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gyda chynllunio'r 5 mlynedd gyntaf yn dasg i bob sir. Amrywiol oedd llunio'r camau gweithredu hyn gyda rhai siroedd yn cynnwys aelodau'r fforwm yn rhan o'r gwaith ac eraill yn bwrw ati heb fewnbwn allanol. Yn y siroedd hynny lle sefydlwyd Fforymau Addysg Gymraeg ac a rannodd yn is-bwyllgorau ar gyfer 7 deilliant y cynlluniau, mae'r gwaith yn datblygu'n dda. Mae modd gweld holl gynlluniau Addysg Gymraeg y 22 sir ar eu gwefannau. Pan mae yna gydweithio manwl a chadarnhaol yn digwydd y mae'r datblygiad yn amlwg hefyd.

**Cydweithio wrth hyrwyddo**
Mae'r gwaith partneriaeth wedi cynyddu eto drwy waith yr is-bwyllgorau hyn gyda'r berthynas gyda'n cydweithwyr ym Mudiad Meithrin a'r Mentrau Iaith ar hyd a lled Cymru yn cydgordio'n effeithiol. Trefnwn ddigwyddiadau gyda'n gilydd pan fo angen hyrwyddo agor ysgol newydd megis Miri Mynwy yn Nhrefynwy neu Bwrlwm Blaenau Gwent i hyrwyddo ysgol Gymraeg newydd Tredegar.

**Welsh4parents**
Ers i ni greu gwefan Welsh4Parents.cymru dros gyfnod y clo, mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru yn ôl ein gallu a'i defnyddio. Ers y cychwyn y mae 3,000 o ddefnyddwyr wedi cyrchu'r wefan.

**Apeliadau ceisiadau lleoedd mewn ysgolion 2022-2023**
Cefnogwyd rhieni mewn 3 sir gyda cheisiadau am apeliadau eleni:

Powys - 2 deulu. Llwyddiant i'r ddau deulu.

Ynys Môn - 2 deulu. Llwyddiant i'r ddau deulu.

Bro Morgannwg - 1 teulu i wedi bod yn llwyddiannus.

Cefnogwyd 3 theulu arall gyda chyngor am wneud apeliadau hefyd yng Nghaerdydd.

Yn dilyn proses gwneud cais ac apêl, rydym bob amser yn dilyn y cyfnod gyda chyfarfodydd gyda'r Awdurdod Lleol i drafod y materion sy'n codi megis diffyg lle neu ddiffyg eglurder yn y broses gwneud cais.

**Bil Addysg Gymraeg**
Paratôdd RhAG ymateb manwl i'r papur gwyn yn 2023. Nodwyd ein disgwyliadau o'r Bil a'r hyn y dylai'r gyfraith newydd sicrhau i gryfhau addysg Gymraeg.
Dylai grym y bil alluogi bod addysg Gymraeg

- Yn hygyrch a gweladwy o fewn cymunedau Cymru
- Yn ddealladwy gan holl rieni a gofalwyr Cymru
- Yn ddealladwy i, a'i hyrwyddo gan holl weithwyr y sector addysg, llywodraeth leol, ac yn ein cymunedau, y rhanbarthau i'r cenedlaethol – yn cynnwys gwleidyddion.
- Yn cael ei gynllunio'n fwriadus a thryloyw gan Awdurdodau Lleol ar draws Cymru
- Yn ganolog i gynllunio addysg Awdurdodau Lleol Cymru
- Yn ganolog i gynllunio addysg Llywodraeth Cymru
- Yn cael ei gyllido mewn modd sy'n adlewyrchu delfryd creu Cymru ddwyieithog.
- Yn meddu ar gyfleoedd i gael mynediad at addysg Gymraeg ar wahanol gyfnodau mewn bywyd
- Yn cael ei haddysgu mewn ysgolion sy'n trochi plant yn llawn yn y Gymraeg, gan gynnwys trochi ieithyddol wrth gael eu haddysgu, a throchi llawn cymdeithasol wrth fod mewn ysgol sydd â'r Gymraeg yn rhan o fywyd cyflawn yr ysgol.
- Addysgu'r Gymraeg i hyfedredd ac o'r safonau uchaf
- Â digon o weithlu hyfedr dwyieithog sydd yn medru gofalu, addysgu a gweinyddu o fewn cymunedau ein hysgolion.
- Â chefnogaeth eang ar gyfer dysgwyr sydd yn dod i Gymru heb y Gymraeg na'r Saesneg i fedru cael eu trochi'n llawn yn y Gymraeg.
- Yn adlewyrchu ein cymunedau amrywiol
- Yn cefnogi anghenion pob dysgwr yn y Gymraeg

**Gair i gloi…**
Diolch yn fawr unwaith eto eleni i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn aeth heibio. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus newydd lle y byddwn yn gweld ffrwyth gwaith y Cynlluniau Strategol a dylanwad ein gwaith ar hyd a lled Cymru yn ysgogi newid o'r newydd drwy agor ysgolion newydd a gweld cynnydd cadarn a sylweddol yn niferoedd disgyblion Cymru sydd yn derbyn addysg Gymraeg.



## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

7/4/22 21/6/22 14/9/22 20/9/22 15/10/22 28/1/23 21/3/23

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn ddeufisol fel arfer.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: 28 Ionawr 2023

Siaradwr Gwadd: Gwion Lewis CB.

## Cyfarfodydd a chynrychiolaeth

**Cyfarfodydd a gohebu gydag ASau a chynghorwyr lleol**
Mae'r gwaith o gyfarfod a gohebu gyda gwleidyddion yn y Senedd ac yn ein hawdurdodau lleol wedi parhau eleni gyda nifer o gyfarfodydd amrywiol yn digwydd i drafod materion yn ymwneud â materion penodol megis cludiant a diffyg datblygiad addysg Gymraeg mewn ardaloedd penodol a materion polisi penodol. Cyflwynodd RhAG dystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd hefyd gan gyfrannu at sesiynau ymchwilio yn ogystal.

**Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:**
Cyfarfu'r swyddogion yn aml dros y flwyddyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyfarfodydd monitro'r grant blynyddol, trafodwyd materion penodol yn ogystal yn enwedig o ganlyniad i gychwyn gwaith y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, trefniadau categoreiddio newydd a pharatoi ar gyfer y Bil Addysg Gymraeg drwy ymateb i'r papur gwyn.

**Cyfarfodydd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg:**
Yr ydym wedi cyfarfod gyda swyddogion swyddfa'r Comisiynydd yn gyson dros y flwyddyn yn ogystal, yn rhannu gwybodaeth a chodi pryderon wrth i gynlluniau addysg Gymraeg gael eu llunio a'u gweithredu.

**Rhwydwaith Addysg a'r Gymraeg CGGC:**
Mae RhAG yn parhau i eistedd ar rwydwaith Addysg a'r Gymraeg gyda'r CGGC. Mae'n gyfle da i ddod â materion at fwrdd rhwydwaith y trydydd sector ac yn ystod y flwyddyn hon yr oedd parhau i ymateb i heriau cyfnod ôl-cofid yn thema gyffredin. Roedd cyfarfodydd gweinidogol hefyd yn rhan o'r gwaith hwn oedd o fudd mawr i ni fel mudiad yn gallu dod â materion addysg Gymraeg o du'r trydydd sector.

**Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg**
Mae cynrychiolaeth gan RhAG ar y fforymau addysg sirol canlynol:
Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Caerffili; Caerdydd; Casnewydd; Ceredigion; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Merthyr; Castell-nedd Port Talbot; Torfaen; Powys, Sir Fynwy, Sir Ddinbych; Wrecsam; Sir y Fflint. Mae cyfarfodydd cyson gydag Abertawe a Bro Morgannwg.

**Dathlu'r Gymraeg**
Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg. Y mae RhAG wedi bod yn curadu Diwrnod Shwmae Su'mae eleni sydd yn ddathliad o gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg. Hydref y 15fed yw'r diwrnod yn flynyddol.

**Cronfa Glyndŵr**
Mae'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd yn gyson er mwyn rhannu gwybodaeth am gynlluniau a lleoliadau posibl all wneud ceisiadau am gymorth gan y gronfa.

**ELEN**
Bu RhAG yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN) unwaith eto eleni. Ei nod yw hyrwyddo, diogelu a buddio ieithoedd Ewropeaidd llai defnyddiedig a gweithio tuag at gydraddoldeb ieithyddol i'r ieithoedd hyn, ac amlieithrwydd, o dan y fframwaith ehangach o hawliau dynol, a bod yn llais i siaradwyr yr ieithoedd hyn ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol . Sefydliad anllywodraethol yw ELEN. Mynychodd RhAG cynhadledd flynyddol ELEN eleni eto gan glywed cyfraniadau amrywiol gan nifer o gyfranwyr o bob cwr o Ewrop yn rhannu arferion da ac yn rhannu heriau sydd yn parhau i godi mewn nifer o wledydd lle y mae eu hieithoedd yn parhau heb gydnabyddiaeth swyddogol. Rhwydweithir gyda'r mudiadau hefyd sydd yn aml yn agor drysau i gyfleoedd cyfnewid arbenigedd pellach.

## Cysylltiadau Lleol

| Sir | Cyswllt |
|---|---|
| Abertawe | Heini Gruffudd |
| Blaenau Gwent | Meryl Darkins |
| | Helen Greenwood |
| Bro Morgannwg | Mark Bowen |
| Caerdydd | Owain Rhys |
| | Michael Jones |
| | Ceri McEvoy |
| Casnewydd | Elin Maher |
| Castell-nedd Port Talbot | Roger Williams |
| Caerffili | Ben Jones |
| | Phil Bevan |
| | Lowri Jones |
| Ceredigion | Owain Harpwood |
| Sir Ddinbych | Elfed Williams |
| | Ruth Williams |
| Sir Fflint | Nick Thomas |
| | Gill Stephens |
| Merthyr | Mark Ward |
| Mynwy | Lynne Davies |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Elin Mannion |
| Powys | Freddy Greaves |
| | Bethan Price |
| Rhondda Cynon Taf | Helen Prosser |
| | Osian Rowlands |
| Torfaen | Helen Greenwood |
| Wrecsam | Rhodri Davies |

Gellir cysylltu gyda'r swyddfa ganolog i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r cysylltiadau lleol.

## Cysylltu

---

Elin Maher
Cyfarwyddwr Cenedlaethol
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd. CF23 8RD

07970 304219
post@rhag.cymru
www.rhag.cymru

Facebook: www.facebook.com/RhAGCymru
Trydar: @RhAG1
Instagram: rhag_pfwme

## Adolygiad Ariannol

---

Derbyniodd RhAG grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru o £104,000 i'w ddefnyddio ar gyllido gwaith y mudiad. Cyllidir gwaith 2 swyddog o'r arian hwn sef swydd y Cyfarwyddwr Cenedlaethol a'r Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Gogledd Cymru.

Mae gan RhAG bolisi cronfeydd wrth gefn sydd yn ymdrechu i gadw digon o arian ar gyfer 4 mis o wariant o gronfa anghyfyngedig. Gellir gwario yr arian hwn ar gynnal yr elusen am gyfnod petai rhaid dirwyn yr elusen i ben ac unrhyw wariant perthnasol.

Archwiliwyd y cyfrifon eleni gan RJ Finance, Casnewydd.

# Adroddiad ariannol 2022 – 23

**Rhieni dros Addysg Gymraeg**
**Derbyniadau a Gwariant**
**Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023**

| | | 2023<br>£ | 2022<br>£ |
|---|---|---|---|
| Derbyniadau | Cyfraniadau | 250 | 300 |
| | Grant Llywodraeth Cymru | 104,000 | 95,000 |
| | Ad daliad WCVA (cyfnod mamolaeth) | - | - |
| | Ad daliad o Darwin Gray | 923 | |
| | Cyfanswm Derbyniadau | 105,173 | 95,300 |
| Gwariant | Costau Arall | 432 | 129 |
| | Costau Cyfarfodydd | - | 80 |
| | Costau Cyflogau | 43,011 | 38,818 |
| | Costau Llawrydd (1) | - | 28,800 |
| | Costau Pensiwn | 3,249 | 2,967 |
| | Costau Teithio | 3,246 | 866 |
| | Ffioedd cyflogres | 257 | 333 |
| | Costau prosiectau (2) | 41,596 | 6,368 |
| | Ffioedd ymgynghorwyr allanol (3) | 4,646 | 924 |
| | Yswiriant | 549 | 528 |
| | Cyfanswm Gwariant | 96,984 | 79,813 |
| Derbyniadau llai gwariant | | 8,189 | 15,487 |
| **Arian mewn llaw:** | | | |
| 1af Ebrill | | 69,526 | 54,039 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | 8,189 | 15,487 |
| 31 Mawrth | | 77,715 | 69,526 |
| Arian Mewn Llaw | | 77,715 | 69,526 |
| Credydwyr | | - | (1,227) |
| Cyfanswm Asedau @ 31/03/2023 | | 77,715 | 68,299 |

**Nodiadau:**

1 Diffinnir y categorïau gwariant fel nad oes costau llawrydd am 2022-23. Gweler costau prosiectau.
2 Is-deitl "gwefan a chostau digidol" wedi ei newid o gyfrifon 2021-22, i "costau prosiectau" yn y cyfrifon 2022-23.
3 Is-deitl "Ymgynghorwyr adnoddau dynol" wedi ei ehangu o gyfrifon 2021-22 i "ffioedd ymgynghorwyr allanol" yn y cyfrifon 2022-23.

Archwiliwyd gan
R J Financial Accounting Services Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig 220a Stow Hill
Casnewydd
NP20 4HA
Llofnod y cadeirydd:

Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

**RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG**

England & Wales - Charity number 1153403

# Accounts

RhAG 70 1952–2022

Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education



## CEFNOGI | YMATEB | YSGOGI NEWID






# Adroddiad Blynyddol 2021 – 2022
# RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG

Dan nawdd: Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

RhAG
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clawr | |
| | Llun: Plant Ysgol Gymraeg y Ffin,Cil-y-coed, Sir Fynwy<br>Teulu Lewis, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr.<br>Clawr Llyfryn Hyrwyddo Addysg Gymraeg Powys | 1 |
| 2. | Cynnwys | 2 |
| 3. | Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol | 3 |
| 4. | Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg | 3 |
| 5. | Pwy ydym ni? | 4 |
| 6. | Rhwydweithio | 4 |
| 7. | Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus | 5 |
| 8. | Gair gan y Cadeirydd | 5 |
| 9. | Gwaith y flwyddyn | 7 |
| 10. | Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol | 13 |
| 11. | Cyfarfodydd a chynrychiolaeth | 13 |
| 12. | Canghennau Lleol | 14 |
| 13. | Cysylltu | 15 |
| 14. | Adroddiad Ariannol | 16 |

## Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)**

**Rhif Elusen:** 1153403

**Swyddfa Gofrestredig:**
Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Pontprennau
CF23 8RD

Ymddiriedolwyr:
Michael Lynn Norman Jones
Heini Gruffudd
Lynne Feakes
David Wyn Williams

Cyfarwyddwr Cenedlaethol a chyswllt elusen: Elin Maher

Cydlynydd Prosiect Hyrwyddo ac Ymgysylltu: Elin Maher

Banc: Natwest

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Dymuna'r ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad ar waith a'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2022.

**Llywodraethiant a rheolaeth**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu sef Cyfansoddiad Sefydliad Cofrestredig Elusennol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a fabwysiadwyd ar 14 Awst 2013. Yr ydym yn sefydliad corfforedig elusennol (SCE).

Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn fudiad nid-er-elw ac yn cael ei arwain gan bwyllgor cenedlaethol o wirfoddolwyr a adnabyddir fel Y Pwyllgor Cenedlaethol.

## Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg

Amcan y mudiad yw hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflawnwn hyn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol, cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg, cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau, cynghorwn rieni gwahanol ardaloedd Cymru gan gynnig iddynt wybodaeth ar faterion yn ymwneud ag Addysg Gymraeg.

## Pwy ydym ni?

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg a'u cefnogi ar hyd y daith addysg yn ogystal.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt werthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am Strategaeth addysg Gymraeg
- Deddfu pellach – Deddf Addysg Gymraeg

Ystyriwn fod pob rhiant neu ofalwr sydd am neu wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant yn gymwys i dderbyn cefnogaeth RhAG. Gweithiwn hefyd gyda chymunedau lle nad yw'r dewis hwnnw wedi ei wneud eto, gan ddylanwadu'n gadarnhaol drwy rannu gwybodaeth ac ateb ymholiadau.

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn ac yn cynrychioli rhieni ar sail genedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisïau ac ymatebion i ymgynghoriadau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau neu gynrychiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd â swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol
- Aelodau o Fforymau Addysg Gymraeg Awdurdodau lleol

## Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus

Cytunir ar raglen waith ar ddechrau'r flwyddyn gyda thargedau penodol gyda'n cyllidwyr a'n hymddiriedolwyr. Ein targedau eleni oedd fel a ganlyn:

1. Cefnogi/cydweithio efo'r Siroedd parthed CSCA Gweithio'n agosach gyda phob un o'r 22 awdurdod lleol gan sicrhau bod addysg cyfrwng Cymraeg yn datblygu ledled Cymru gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gynllunio eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd
2. Parhau i ehangu rhwydwaith y mudiad yn effeithiol ym mhob rhan o Gymru
3. Parhau i ddatblygu gwefan i gynnwys deunydd hyrwyddo i gefnogi rhieni.
4. Cefnogi ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
5. Darparu cymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth am ddim i rieni mewn achosion penodol yn ymwneud ag anawsterau mynediad i ysgolion Cymraeg.

Yn unol â'n cyfrifoldeb cyfreithiol fel ymddiriedolwyr, yr ydym wedi darllen canllawiau ar fudd cyhoeddus ac yn ystyried y canllawiau wrth i waith y flwyddyn gael eu bennu a'i ddatblygu. Os daw ymddiriedolwyr newydd i'r pwyllgor yna cyflwynir copi o'r canllaw iddynt i'w ddarllen yn ystod eu cyfnod anwytho.

## Gair gan ein Cadeirydd

Yn dilyn ein Cyfarfod Cyffredinol ar-lein y llynedd mae'n bleser cwrdd wyneb-yn-wyneb eleni wrth i effeithiau'r pandemig lleihau. Ond, rhaid i ni fod yn ymwybodol a sensitif iawn i ba effaith mae Cofid wedi cael ar nid yn unig ein disgyblion ond hefyd ein hathrawon yng Nghymru. Gall y sgil effeithiau barhau am rai blynyddoedd. Mae nifer ohonom yn adnabod pobl dda a gollwyd yn ddiweddar, ac ar ran Rhieni dros Addysg Gymraeg, hoffwn gydnabod gwaith diwyd Aled Roberts ar ran yr iaith – yn arbennig o gofio ei fod wedi cyfarch ein Cyfarfod Blynyddol yn Llandrindod pum mlynedd yn ôl yn 2018.

Bryd hynny, fel heddiw, mae RhAG yn gweithio'n galed i sicrhau bod awdurdodau lleol dros Gymru yn dilyn cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru o ran eu targedau wrth i ni fel cenedl baratoi a gobeithio am filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Pob dymuniad da i Efa Gruffudd Jones yn ei gwaith wedi ei phenodiad i fod yn Gomisiynydd Iaith newydd i Gymru a'r Gymraeg er mwyn ceisio sicrhau'r twf hwn.
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn naturiol mae ambell i awdurdod lleol wedi cymryd mwy o'n sylw na'r gweddill, ac yn wir mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn destun trafod yn ein Pwyllgor Cenedlaethol wedi i ni gymryd y penderfyniad dewr – a chywir – i sicrhau tegwch i blant (a theuluoedd) addysg Gymraeg yr ardal.

Mae'n bleser felly croesawu'r un a aeth i ffau'r llewod ar ein rhan i'n Cyfarfod Blynyddol eleni, unwaith eto roeddwn ni yn gallu dibynnu ar ymroddiad a deallusrwydd arbennig Gwion Lewis yn y frwydr honno. Yn ogystal â'r gwaith sydd wedi bod yn dwyn sylw'r cyfryngau cenedlaethol, yn unol ag ein harfer, mae RhAG wedi bod yn ddiwyd tu
hwnt yn ymateb i niferoedd maith o ymgynghoriadau felly hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'n Cyfarwyddwr newydd Elin am ei gwaith yn cydlynu ac arwain y gwaith

hollbwysig hwn, ac i longyfarch hi am ei dyrchafiad a bydd yn rhoi'r cyfle iddi apwyntio swyddogion i'w chefnogi hi gyda'r gwaith eleni.

Fe ges i fy ethol i fod yn Gadeirydd yn yr un gynhadledd a siaradodd Aled Roberts ynddi pum mlynedd yn ôl, ac mae hi wedi bod yn pum mlynedd heriol o ran y sector addysg, ond hefyd yn gyffrous o ran cydweithio gyda rhai o arbenigwyr addysg a charedigion yr iaith fwyaf blaenllaw yng Nghymru, felly hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i bawb sy'n rhan o gefnogi Rhieni dros Addysg Gymraeg, boed hynny yn rhithiol, lle mae'n cefnogwyr yn rhoi hwb i ni ar ein cyfryngau cymdeithasol – yn arbennig Facebook a twitter yn feunyddiol ( mae yna instagram nawr hefyd cofiwch! ) – ac wrth gwrs i bawb sy'n rhan o bwyllgor lleol RhAG ac sy'n mynychu ein cyfarfodydd.

Yn sicr roedd bod yn rhan o deulu RhAG yn gysur mawr imi yn ystod y cyfnod clo, ac yn cadw fy ngolwg i ar beth sy'n bwysig i ni fel pobl. Gofynnaf eto i chi eleni felly i barhau i gadw llygad barcud ar safon darpariaeth addysg Gymraeg yng Nghymru, ac i'n hysbysu ni o unrhyw ofidion fel ein bod ni yn gallu cymryd y camau cywir i wella system addysg sydd yn gyfoethog iawn o ran traddodiad, ond sydd o dan bwysau cynyddol o ran adnoddau – gan gynnwys adnoddau dynol ac felly gair bach i ddiolch a chefnogi ein hathrawon eleni hefyd cyn cloi. Diolch yn fawr i chi gyd.

Wyn Williams



Nid oes modd dadlau i'r flwyddyn a aeth heibio fod yn un o'r mwyaf heriol ond cynhyrchiol eto. Efallai'r elfen fwyaf arwyddocaol i ni eleni oedd i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Ceri McEvoy benderfynu camu o'i swydd ddiwedd Ionawr. Rhaid nodi ein diolch diffuant i Ceri am ei holl waith trefnus a manwl dros RhAG. Y mae'r mudiad wedi symud ymlaen cryn dipyn ers i Ceri ddod i'r adwy ac fe roddodd 13 o flynyddoedd cynhyrchiol iawn i'r mudiad. Bydd wrth gwrs yn parhau i gefnogi gwaith RhAG yng Nghaerdydd fel rhiant ac rydym yn dymuno'n dda iddi hi gyda'r bennod nesaf.

Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'n holl gefnogwyr ar draws Cymru sydd yn parhau i gysylltu gyda ni am amrywiaeth o faterion. Her fwyaf y flwyddyn hon oedd ymateb i 22 o ymgynghoriadau'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft a ymddangoswyd o Awst 2021 hyd at Ionawr 2022. Roedd yn dasg a hanner a bu'n swyddogion yn brysur yn ymateb i bob un yn fanwl. Yr her fawr gyda'r cynlluniau hyn oedd na fyddai modd gweld y fersiynau llawn tan Haf 2022 pan fyddai'r Gweinidog yn eu cymeradwyo - neu ddim.

Er i gefnlen ddigynsail y pandemig byd-eang a'r newidiadau pellgyrhaeddol a ddaeth yn sgil hynny gychwyn pellhau, yr oedd yr effeithiau'n ond yn cychwyn cael eu teimlo a'r cyfnod clo olaf yn dod i ben yn Rhagfyr 2021.

Yn dilyn derbyn gwybodaeth bod cyllid ychwanegol wedi ei gynnig i gael ail swyddog i edrych ar y gwaith hyrwyddo, gwych oedd clywed i ni sicrhau grant o £100,000 ar gyfer 2022-2023 a fyddai'n sicrhau ein bod yn medru cael mwy o swyddogion i wneud gwaith pellach ar draws Cymru.

Carwn nodi eto ein gwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gynyddu'r grant sydd wedi caniatáu inni barhau i ehangu a chynyddu ein gweithgarwch fel mudiad ac i gryfhau ein cyfraniad yn yr ymdrech genedlaethol i wireddu targedau Cymraeg 2050.

Gweithiodd y Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu gyda nifer o Awdurdodau Lleol yn ystod y cyfnod hwn gan fwydo awgrymiadau ar sut i wella elfennau o hyrwyddo mewn cyfarfodydd y Fforymau Addysg sirol ac i weithio ar brosiectau penodol megis prosiect gyda Sir Powys i ddatblygu llyfryn hyrwyddo i rieni a hefyd tudalennau ar eu gwefan oedd yn hyrwyddo Addysg Gymraeg ac yn ei gysylltu gyda'r ddarpariaeth yn y sir hefyd.




Taith at Ddwy Iaith oedd teitl cynllun hyrwyddo Powys. Y mae gan nifer o Awdurdodau Lleol enwau gwahanol i'w llyfrynnau ond yr un yw'r nod. Y syniad oedd creu cysyniad o daith ieithyddol i blant a'u teuluoedd gan roi gwybodaeth, ateb unrhyw gwestiynau a chyfeirio at y ddarpariaeth sydd ar gael yn y sir tra hefyd yn cydnabod bod y sir ar daith yn ogystal.

Roedd ambell sylwad a ddaeth o arolwg RhAG i fesur effaith y Cyfnod Clo ar rieni a disgyblion mewn Addysg Gymraeg yn parhau i fod yn wir - nid oedd rhieni'n deall o hyd beth oedd addysg Gymraeg mewn rhai sefyllfaoedd a bod angen i'r wybodaeth fod ar gael drwy'r amser gan fod y rhieni oedd yn gwneud dewisiadau addysg yn newid bob blwyddyn. Nid ymgyrch un flwyddyn ddylai fod o gwbl ond ymgyrch barhaus! Roedd yr hyrwyddo yn gorfod mynd law yn llaw gyda datblygu a chynyddu'r ddarpariaeth yn ogystal. Beth yw pwynt hyrwyddo darpariaeth sydd ddim yn bodoli eto! Ond mae yna gyfle i addysgu ac i waredu unrhyw gamganfyddiadau sydd yn parhau o fewn ein cymunedau ar draws Cymru gyda'r gwaith allweddol hwn.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod y gwaith a wnaed gan y byd addysg, y mudiadau trydydd sector a hefyd ein rhieni a gofalwyr ar hyd a lled Cymru, wedi bod yn sylweddol a'i fod yn parhau angen digwydd ar hyd a lled Cymru. Mae effeithiau'r cyfnod wedi dod yn fwy amlwg erbyn hyn gyda llesiant ar ben y rhestr o flaenoriaethau y mae'r sector yn gorfod eu hwynebu ac ymyraethau amlwg yn cael eu rhoi mewn lle. Y mae hyn wrth gwrs weithiau'n cystadlu gyda'r gwaith o hyrwyddo neu'r sylw i hyrwyddo. Ond gobeithiwn fel mudiad bod ein mewnbwn ni i gynlluniau hyrwyddo ar draws Cymru wedi pwysleisio bod addysg Gymraeg yn rhan o'r ymateb i anghenion llesiant ein dysgwyr gan ei fod yn sicrhau bod dysgwyr yn cael y cyfle gorau i fod yn ddinasyddion dwyieithog yng Nghymru o oed cynnar.

## Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Agwedd bwysig adroddwyd arno'r llynedd oedd i ni deimlo cyfrifoldeb i sicrhau bod ein cymunedau'n gallu ymateb i'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft oedd am gael ei llunio yn ystod y flwyddyn.

Trefnwyd cyfres o sesiynau ym mis Hydref 2021 yn rhithiol ar gyfer unrhyw un i ddod i glywed ein syniadau ar yr hyn yr oeddwn fel mudiad yn ei ddisgwyl ei weld mewn cynlluniau o safon uchel. Seiliwyd ein sesiynau ar 7 deilliant o fewn y cynlluniau gan ystyried beth fyddai modd i Awdurdodau Lleol eu cynnwys ym mhob deilliant. Mynychwyd y sesiynau hyn gan 21 o bobl dros yr 4 sesiwn gyda rhai yn mynychu pob un. Roedd yn wych, fel bob tro, medru rhannu ein syniadau gyda rhieni, addysgwyr a phartneriaid addysg Gymraeg yn ogystal. Y mae'r gwaith partneriaeth hwn wedi cynyddu'n arwyddocaol dros gyfnod llunio'r cynlluniau hyn a'r cydweithio'n cryfhau o ddydd i ddydd.




Dymunwn ddiolch yn fawr i'n cydweithwyr ym Mudiad Meithrin yn benodol a'r Mentrau Iaith ar hyd a lled Cymru sydd wedi cydweithio ar nifer o agweddau yn cryfhau ac yn sicrhau bod datblygiad addysg a defnydd o'r Gymraeg yn ogystal â'r ddarpariaeth gynnar yn cael y cyfle gorau i ffynnu.

Mae'r gwaith o ddiweddaru'r wefan www.Welsh4parents.cymru, sef cyfeiriadur yn cynnwys ystod eang o adnoddau ar gyfer rhieni i'w defnyddio dros y Cyfnod Clo gyda'u plant yn y cartref, wedi parhau dros y cyfnod diwethaf ac wedi cyrraedd dros 1,700 o ddefnyddwyr ers ei gychwyn. Bydd y wefan hon yn parhau i'w chael ei diweddaru ond y mae hefyd yn fwriad cydweithio gyda phrosiectau eraill hefyd i greu adnodd newydd. Daw mwy o newyddion am hyn dros y misoedd nesaf gobeithio!

## Ymgynghoriadau cynlluniau ehangu addysg cyfrwng Saesneg  Awdurdodau Lleol




Agwedd bwysig o'n gwaith yw ymateb i ymgynghoriadau Awdurdodau Lleol. Trwy ein rhwydweithiau lleol daw ambell fater i'n sylw sydd angen cwestiynu ymhellach ac ambell dro y mae'n amlwg fod yr effeithiau negyddol ar y Gymraeg neu ar ysgolion Cymraeg yn ardal yr ymgynghori heb gael ystyriaeth deilwng. Enghraifft o hyn oedd pan ymgynghorodd Sir Fynwy ar ymestyn lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn nhref Cil-y-Coed ac wrth edrych ar yr ymgynghoriad nid oedd yna asesiad effaith ar y Gymraeg nac ar Addysg Gymraeg, fel y mae'r cod trefniadaeth ysgolion yn gofyn amdano. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ac yn dilyn cyfarfodydd adeiladol gan swyddogion y sir, cytunwyd ar gam lliniaru cadarnhaol tu hwnt ar gyfer yr ysgol a hynny oedd agor canolfan drochi hwyr yn yr ysgol yn syth gan geisio lleihau'r effeithiau niweidiol ar ymestyn yr ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae hyn yn ganlyniad ardderchog i ni fel mudiad ac y mae'n fodel o gydweithio er budd addysg Gymraeg o fewn ein cymunedau. Gwnaed astudiaeth achos ar gyfer yr achos hwn ar fideo. Gallwch ei weld yma. https://www.youtube.com/watch?v=25UQMr9q70M

Ysgrifennodd RhAG ym mis Gorffennaf 2021 at Gyngor Sir Castell-nedd a Phort Talbot i nodi eu bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Safonau a Thrafnidiaeth (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013) ac o ganlyniad i'r diffygion sylfaenol hynny nodi nad oedd yr ymgynghoriad i gau tair ysgol Saesneg yng Nghwm Tawe'n ddilys.

Nododd RhAG nad oedd y ddogfen ymgynghori'n gyflawn ac nad oedd felly'n cydymffurfio â gofynion ymgynghoriad cyfreithlon sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y broses ymgynghori yn:

- cael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal ar gam ffurfiannol;
- cynnwys digon o wybodaeth a rhesymau dros gynigion penodol er mwyn sicrhau ystyriaeth ac ymateb deallus;
- rhoi digon o amser i ystyried y cynigion ac ymateb iddynt;
- sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwybodol pan wneir y penderfyniad yn y pen draw.

Nid oedd RhAG wedi'n hargyhoeddi bod y cynlluniau wedi'u datblygu gan roi sylw dyledus i'r egwyddorion a restrir uchod wrth gyflwyno'r cynigion oedd yn sail i'r ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol dan sylw.

Nid oedd yr asesiad effaith ieithyddol yn rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol ac felly heb ei gyflwyno yn yr ymgynghoriad, pan gafodd yr ymgynghoriad ei gyflwyno (Hydref 2020) a dod i ben ar 19 Ionawr 2021, ni fu cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ystyried effaith y cynllun ar y Gymraeg ac nid oedd y sir wedi cynnwys hyn yn egwyddor graidd i'r ymgynghoriad, er i'r ymgynghoriad nodi bod

"... ardal Cwm Tawe yn ardal ieithyddol arwyddocaol am ei bod yn cynnwys y nifer a'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae ymysg yr uchaf yng Nghymru gyfan."

Cyflwynwyd cais am adolygiad barnwrol i herio penderfyniad y cyngor i fwrw ati gyda'r cynllun er gwaethaf ein llythyr. Llwyddodd y cais a chafodd yr achos wrandawiad yn Haf 2022 gan glywed i'r achos lwyddo yn yr Hydref.

Rhaid nodi, nid ar chwarae bach y mae mynd i adolygiad barnwrol. Mae'r sefyllfa'n parhau, yn anffodus, ond rhaid i Awdurdodau Lleol sylweddoli eu cyfrifoldeb i fesur effaith unrhyw gynllun ar y Gymraeg ac ar Addysg Gymraeg os ydym am gyrraedd y Miliwn. Mae'n diolch ni'n fawr i Gwion Lewis CB ac i Siôn Fôn o gwmni Darwin Gray am eu cyngor a'u cefnogaeth ar hyd y ffordd ac i'r bwrdd am gefnogi'r cais hefyd. Ein gobaith yn awr y bydd y dyfarniad yn gosod cynsail a fydd yn newid y modd y bydd Awdurdodau Lleol yn mesur yr effaith ar y Gymraeg o hyn ymlaen.

**Effeithiau cofid**

Mynychwyd seminar Ymchwil Mewn Addysg Prifysol Aberystwyth ar effeithiau cyfnod y pandemig ar 16.6.2021. Roedd yn ddiddorol clywed y canfyddiadau am yr effeithiau pellach oedd yn cychwyn dod i'r adwy a da yw bod yna ymchwil wedi ac yn parhau yn cael ei wneud gan Brifysgolion ar hyn er mwyn cynllunio camau lliniaru ar gyfer y dyfodol.

**'Addysg Gymraeg i Bawb: Ehangu Mynediad Mewnfudwyr Rhyngwladol at Addysg Cyfrwng Cymraeg Statudol',**

Braf oedd medru cymryd rhan mewn prosiect newydd dan arweiniad Dr Gwennan Higham ar ran Prifysgol Abertawe a chwmni IAITH: y ganolfan cynllunio iaith, yn rhannu profiad Joseph Gnagbo wrth iddo chwilio am le mewn ysgol i'w blant a'r angen am gymorth canolfan hwyrddyfodiaid iddynt. O'r Arfordir Ifori daw Joseph. Y mae wedi dysgu Cymraeg ac yr oedd yn awyddus i'w blant fynychu canolfan hwyrddyfodiaid Caerdydd. Mae'r plant wedi sefyldu'n dda mewn addysg Gymraeg erbyn hyn. Bydd y cynllun hwn yn parhau i gasglu profiadau mewnfudwyr gyda'r bwriad o greu adnodd yn y pen draw i'w ddefnyddio ar hyd a lled Cymru.

**Ysgolion newydd - cipolwg**

Er y siom na agorodd rhan gynradd o Ysgol Gyfun Gwynllyw yn Nhorfaen, da oedd gweld bod yr ysgol am agor ym Medi 2022 fel egin ysgol gynradd gyda'r blynyddoedd yn dilyn.

Bydd ysgol gynradd newydd yn agor hefyd yn Nhredegar, Blaenau Gwent yn 2023 yn dilyn ymgynghoriad llwyddiannus yng ngwanwyn 2022.

Gwych oedd gweld ysgol newydd Llan-y-pwll yn mynd i agor yn Wrecsam ym Medi 2022. Datblygiad ardderchog a hir-ddisgwyliedig i'r ardal yn wir.

Gwireddwyd y cynnig i droi Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth yn ysgol cyfrwng Cymraeg sydd yn golygu mai hon yw'r ysgol Gymraeg bob oed gyntaf yn y sir. Parhawn i bryderu er hyn, na fydd hynny'n digwydd dros nos ac y bydd yn cymryd 14 mlynedd i'w wireddu'r cynllun yn llawn a bod angen i'r Sir sicrhau cryfhau darpariaeth uwchradd yn gynt o lawer er budd y cenedlaethau o blant sydd yn yr ysgol yn barod.

Daeth mwy o newyddion da o Bowys hefyd gydag Ysgol Dyffryn Trannon yn newid categori iaith o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg.

Braf hefyd oedd clywed am gynlluniau Sir Gâr i symud ysgolion ar hyd y continwwm hefyd ymhell o flaen y cynlluniau newydd. Bydd RhAG yn barod i gefnogi'r siroedd gyda hyn wrth gwrs ond y mae angen cyfundrefn ganolog llawer tynnach, gyda strwythurau

cefnogi cadarn ac adnoddau arbenigol i fynd i'r afael â materion addysgu dysgwyr ond hefyd i ymrafael â materion llywodraethiant ysgolion a chefnogi'r staff yn broffesiynol yn ogystal.

Da clywed bod cymeradwyaeth wedi bod i adeilad newydd i Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon erbyn hyn yn Sir Caerffili. Gobeithiwn weld y disgyblion yn symud o'r adeilad presennol i'r adeilad newydd yn Abercarn ym Medi 2023.

Ansicr o hyd yw'r datblygiadau mewn siroedd eraill sydd wedi nodi addewid am ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd penodol megis Merthyr, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, Castell-nedd a Phort Talbot ac Abertawe.

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi y bydd ysgol gynradd newydd yn ardal Plasdŵr yn mynd yn ei flaen ac fe gyhoeddwyd y bydd y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd yn cael ei gwblhau erbyn Awst 2023, yr ysgol yn derbyn ei disgyblion cyntaf ym Medi 2023, a'r ceisiadau am fynediad yn agor yn Hydref 2022.

**Apeliadau ceisiadau lleoedd mewn ysgolion 2021**

Cefnogwyd rhieni mewn 4 sir gyda cheisiadau am apeliadau eleni:
Sir Penfro - 4 teulu - i Ysgol Caer Elen. Roeddwn yn llwyddiannus gyda'r 4
Pen-y-bont ar Ogwr - 2 deulu. 1 yn llwyddiannus ac 1 yn aflwyddiannus
Caerdydd - heb fynd i apêl yn y diwedd gan i le ddod i'r plentyn oedd yn yr ysgol.
Bro Morgannwg - Dim lle yn Ysgol Iolo Morgannwg. Aflwyddiannus

**Stori Billy**



Efallai i chi gofio Billy. Gwrthodwyd le i 22 o blant i ddosbarth derbyn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr yn 2021. Yr oedd yna hefyd brinder llefydd codi'n dair Cymraeg arwyddocaol hefyd yn y Sir. Dyma ganlyniad diffyg cynllunio addysg Gymraeg amlwg mewn sir. Gofynnwyd i ni gefnogi apêl Billy. Yn anffodus, nid oedd yn llwyddiannus. Y mae plant ardal Pencoed wedi cael lle yn Ysgol Gymraeg Bro Ogwr ers y cychwyn, ac er i nifer godi'r mater o gynnydd yn y galw am leoedd o'r ardal hon, gyda swyddogion y sir yn gyson, ni weithredwyd ar y mater. Dyma'r ysgol agosaf i Bencoed ac y mae'r ysgol nesaf tipyn pellach na'r cynnig cyfrwng Saesneg. Er bod y sir yn parhau heb osod dalgylchoedd ar ysgolion Cymraeg, er bod dalgylchoedd ar ysgolion Saesneg, mae'r sir yn credu fod cludiant am ddim i'r ysgol Gymraeg nesaf yn ateb y broblem o orboblogi yn yr ysgol Gymraeg agosaf. Rhaid diolch i deulu Billy am ddyfalbarhau gyda'r achos. Gallwn ddatgelu i Billy gael lle yn y diwedd ond dim ond gan i blant eraill adael yr ysgol. Rhaid bod yn onest gyda theuluoedd yn ein gwaith, gan nodi'r heriau a'r posibiliadau ac weithiau eu cysuro pan nad yw'r canlyniadau'n mynd o'n plaid. Yn yr achos hwn, yr oedd rhwystredigaeth y sefyllfa'n anodd iawn. Mae diffyg cynllunio addysg Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn parhau'n her ond bydd y nerth a roddodd teulu Billy i ni i fwrw ati i ddyfalbarhau yn ein grymuso ar gyfer teuluoedd eraill tebyg.

## Bil Addysg Gymraeg

Parhau'n ddi-syfl y mae barn RhAG bod angen cymryd camau llawer mwy pellgyrhaeddol i lunio Bil Addysg Gymraeg, er mwyn gosod fframwaith cyfreithiol newydd a fyddai'n rhoi'r amodau gorau i addysg Gymraeg ffynnu a datblygu. Nid ydym yn ofni ailadrodd yr hyn yr ydym wedi ei osod yn glir mewn adroddiadau yn y gorffennol bod mewn sawl maes nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli o gwbl. Mewn rhai meysydd mae canllawiau ond nid deddfau, ac mewn ambell faes, nid oes deddfwriaeth yn bodoli. Er bod nifer o'r Deddfau a Chanllawiau yn gefnogol i addysg Gymraeg, nid oes eglurder ar sut i weinyddu neu orfodi'r rhain. Mae dyletswyddau awdurdodau addysg yn gallu bod yn amwys, a hyd yn oed os gwelir eu bod yn gweithredu'n ddiffygiol neu'n negyddol, nid oes llwybrau amlwg i'w dal i gyfrif.

Mae RhAG yn argymell llunio Bil Addysg Gymraeg a fyddai'n cwmpasu ystod o anghenion yn y maes trwy dynnu ynghyd yr holl edafedd deddfwriaethol presennol a chynnig eglurder cyfreithiol diamwys yn y dyfodol. Y mae'n amlwg ein bod wedi dod ar draws ambell god sydd yn wir yn milwrio'n erbyn Addysg Gymraeg. Mae angen ystyried Cod Trefniadaeth Ysgolion, Y cod derbyn i ysgolion a Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i enwi dim ond tri. Gydag Awdurdodau Lleol yn dehongli sut i fesur effaith ar y Gymraeg yn hytrach na sylweddoli eu cyfrifoldeb cyfannol a ddim yn arfer eu gallu i hyrwyddo addysg Gymraeg trwy fesur sydd yn bodoli'n barod, colli dysgwyr newydd fyddwn ni os na fyddwn ni'n ofalus.

## Heriau Cyfalaf

Yr ydym yn ddiolchgar iawn am y cyfraniad cyfalaf sydd wedi dod o gyfeiriad Llywodraeth Cymru gyda'r buddsoddiad o £30 miliwn ychwanegol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y mae heriau costau adeiladu cynyddol wedi dod i'r amlwg, gyda nifer o brosiectau'n gorfod cael eu cwtogi neu eu gohirio oherwydd costau uwch y cynlluniau o ganlyniad i Brexit a Chofid a rhyfel Rwsia.

Ond rhaid hefyd nodi nad oes hanner digon o gyllid wedi bod ar gael ar gyfer yr holl geisiadau am gyllid cyfalaf o'r pot hwn. Ydyn, mae'r Awdurdodau lleol, yn sydyn iawn, wedi gweld y foronen ac wedi ymateb gyda chynlluniau niferus. Ond, nid ddylai'r pot hwn fod ar draul defnyddio cyfalaf yr Awdurdodau Lleol eu hunain nac ychwaith yn lle bod yn rhan o raglen gynhwysfawr cyfalaf yr Awdurdodau Lleol i gynyddu niferoedd mewn Addysg Gymraeg ar draws Cymru.

## I gloi…

Yn 2022 wrth gwrs roedd RhAG yn cychwyn ar ddathlu'r 70. Yr ydym yn parhau i ddathlu wrth gwrs a daw cyfle i ni nodi'r achlysur wrth gwrs yn ystod y flwyddyn ond nes y bydd addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb a'i mynno, bydd gwaith RhAG yn parhau.

Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ar hyd y flwyddyn aeth heibio. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus newydd lle y byddwn yn gweld ffrwyth gwaith y Cynlluniau Strategol a dylanwad ein heriau'n dwyn ffrwyth mewn ysgolion newydd a chynnydd cadarn a sylweddol yn niferoedd disgyblion Cymru sydd yn derbyn addysg Gymraeg.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

27/4/21 24/6/21 30/9/21 16/11/21 11/01/22 14/2/22

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn ddeufisol fel arfer.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol Rhithiol ar: 11 Ionawr 2022

**Siaradwr Gwadd: Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## Cyfarfodydd a chynrychiolaeth

**Cyfarfodydd a gohebu gydag ASau a chynghorwyr lleol**
Mae'r gwaith o gyfarfod a gohebu gyda gwleidydd yn y Senedd ac yn wir yn ein hawrudodau lleol wedi parhau eleni gyda nifer o gyfarfodydd amrywiol yn digwydd i drafod materion yn ymwneud â materion penodol a chyffredinol.

**Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:**

Cyfaru'r swyddogion yn aml dros y flwyddyn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â chyfarfodydd monitro'r grant blynyddol, trafodwyd faterion penodol yn ogystal yn enwedig o ganlyniad i greu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r ymgynghori arnynt yn ystod y flwyddyn hon.

**Cyfarfodydd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg:**
Ergyd drom i ni fel mudiad, i'r Gymraeg ac i Gymru oedd colli Aled Roberts yn Chwefror 2022. Rhaid i ni gydnabod y gwaith arbennig a wnaeth Aled i ddod â chyfundrefn y Cynlluniau Strategol mewn Addysg yn dilyn gorchymyn y Gweinnidog ar y pryd, Alun Davies AS, i gynnal adolygiad brys or cynlluniau hyn. Roedd gwaith trylwyr Aled a'i dîm wedi golygu system ehangach sydd erbyn hyn wedi golygu bod 7 deilliant yn gosod ac yn monitro'r gwaith o gynllunio datblygiad addysg Gymraeg sy'n llawer cadarnach. Diolch am ei waith. Bu'r cydweithio'n gyson eleni unwaith eto.

**Rhwydwaith y Addysg a'r Gymraeg CGGC:**
Mae RhAG yn eistedd ar rwydwaith Addysg a'r Gymraeg gyda'r CGGC. Mae'n gyfle da i ddod â materion at fwrdd rhwydwaith y trydydd sector ac yn ystod y flwyddyn hon yr oedd ymateb i heriau cyfnod cofid yn thema gyffredin. Roedd cyfarfodydd gweinidogol hefyd yn rhan o'r gwaith hwn oedd o fudd mawr i ni fel mudiad yn gallu dod â materion addysg Gymraeg o du'r trydydd sector.

**Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg**
Mae cynrychiolaeth gan RhAG ar y fforymau canlynol:
Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Caerffili; Caerdydd; Casnewydd; Pen-y-bont ar Ogwr;

Rhondda Cynon Taf; Merthyr; CNPT; Powys, Sir Fynwy, Sir Ddinbych. Mae cyfarfodydd cyson gydag Abertawe a Wrecsam.

**Dathlu'r Gymraeg**
Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

**Cronfa Glyndŵr**
Mae'r Swyddog Cenedlaethol yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.

**ELEN**
Mae RhAG yn aelod o Rwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN). Ei nod yw hyrwyddo, diogelu a buddio ieithoedd Ewropeaidd lai defnyddiedig a gweithio tuag at gydraddoldeb ieithyddol i'r ieithoedd hyn, ac amlieithrwydd, o dan y fframwaith ehangach o hawliau dynol, a bod yn llais i siaradwyr yr ieithoedd hyn ar lefel leol, ranbarthol, genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol . Sefydliad anllywodraethol yw ELEN. Bu cyfarfod blynyddol ELEN eleni yn Galicia.

https://elen.ngo/2021/11/06/language-activists-from-across-europe-set-to-meet-in-galicia-for-the-european-language-equality-network-2021-general-assembly/

| | | | |
|---|---|---|---|
| Kontseilua | Kowethas An Yeth Kernewek | La Bressola | LatBLUL |
| Latgalīšu volūdys centris | Mama Bobi | Mercator Media | Mudiad Dathlu'r Gymraeg |
| Obra Cultural Balear | Òmnium Cultural | Parlemu Corsu | Plataforma per la Llengua |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg | Rol des Estudios Aragonese | Seaska | Slovenska Skupnost |
| Societat Catalana de Sociolingüística | Soillse | SNEB at University of Mainz | Szlovákiai Magyarok Kerekasztala |

## Canghennau Lleol – Cysylltiadau

| **Sir** | **Cyswllt** |
|---|---|
| Abertawe | Heini Gruffudd |
| Blaenau Gwent | Meryl Darkins |
| | Helen Greenwood |
| Bro Morgannwg | Mark Bowen |
| Caerdydd | Owain Rhys |
| | Michael Jones |
| | Ceri McEvoy |
| Casnewydd | Elin Maher |

| | |
|---|---|
| Castell-nedd Port Talbot | Roger Williams |
| Caerffili | Ben Jones |
| Ceredigion | Owain Harpwood |
| Sir Ddinbych | Elfed Williams |
| Sir Fflint | Nick Thomas |
| | Gill Stephens |
| Merthyr | Mark Ward |
| Mynwy | Lynne Davies |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Elin Mannion |
| Powys | |
| Aberhonddu / Pontsenni | Lynne Griffin |
| Canol Powys | Freddy Greaves |
| Buallt | Steve Mason |
| | Bethan Price |
| Rhondda Cynon Taf | Helen Prosser |
| Torfaen | Helen Greenwood |
| | Thomas Hughes |
| Wrecsam | Rhodri Davies |

Gellir cysylltu gyda'r swyddfa ganolog i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r cysylltiadau lleol.

## Cysylltu

Elin Maher
Cyfarwyddwr Cenedlaethol
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd. CF23 8RD

07970 304219
elin@rhag.cymru
www.rhag.cymru

Facebook: www.facebook.com/RhAGCymru
Trydar: @RhAG1
Instagram: rhag_pfwme

# Adroddiad ariannol 2021 – 22

**Rhieni dros Addysg Gymraeg**
**Derbyniadau a Gwariant**
**Blwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022**

| | | 2022 | 2021 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| Derbyniadau | Cyfraniad - RHAG Peny bont | 300 | - |
| | Grant Llywodraeth Cymru | 95,000 | 70,000 |
| | ad daliad WCVA (cyfnod mamolaeth) | 0 | 12,526 |
| | Cyfanswm Derbyniadau | 95,300 | 82,526 |
| Gwariant | Costau Arall | 129 | 89 |
| | Costau Cyfarfodydd | 80 | - |
| | Costau Cyflogau | 38,818 | 26,029 |
| | Costau Llawrydd | 28,800 | 21,786 |
| | Costau Pensiwn | 2,967 | 1,905 |
| | Costau teithio | 866 | - |
| | Ffioedd cyflogres | 333 | 270 |
| | Gwefan a Chostau Digidol | 6,368 | - |
| | Ymgynghorwyr adnoddau dynol | 924 | - |
| | Yswiriant | 528 | 488 |
| | Cyfanswm Gwariant | 79,813 | 50,567 |
| Derbyniadau llai gwariant | | 15,487 | 31,960 |
| **Arian mewn llaw:** | | | |
| 1af Ebrill | | 54,039 | 22,080 |
| Symudiad yn y flwyddyn | | 15,487 | 31,960 |
| 31 Mawrth | | 69,526 | 54,039 |
| Arian Mewn Llaw | | 69,526 | |
| Credydwyr | | - 1,227 | |
| Cyfanswm Asedau @ 31/03/2022 | | 68,299 | |

Llofnod y cadeirydd:



Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

# Accounts

Rhieni dros Addysg Gymraeg
Parents for Welsh Medium Education




# Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021

Dan nawdd:
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Clawr<br>Llun: Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, Casnewydd | 1 |
| 2. | Cynnwys | 2 |
| 3. | Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol | 3 |
| 4. | Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg | 3 |
| 5. | Pwy ydym ni? | 4 |
| 6. | Rhwydweithio | 4 |
| 7. | Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus | 5 |
| 8. | Gwaith y flwyddyn | 5 |
| 9. | Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol | 12 |
| 10. | Cyfarfodydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru ac Aelodau Senedd Cymru | 13 |
| 11. | Canghennau Lleol | 14 |
| 12. | Cysylltu | 14 |
| 13. | Adroddiad Ariannol | 15 |

## Manylion Cyfreithiol a Gweinyddol

**Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE)**

| | |
|---|---|
| **Rhif Elusen:** | 1153403 |
| **Swyddfa Gofrestredig:** | Rhieni Dros Addysg Gymraeg<br>Tŷ Cymru<br>Greenwood Close<br>Parc Busnes Porth Caerdydd<br>Pontprennau<br>CF23 8RD |
| Ymddiriedolwyr: | Michael Lynn Norman Jones<br>Heini Gruffudd<br>Lynne Feakes<br>Lynne Griffin<br>David Wyn Williams |
| Cyfarwyddwr Cenedlaethol a chyswllt elusen: | Ceri McEvoy |
| Cydlynydd Prosiect Hyrwyddo ac Ymgysylltu | Elin Maher |
| Banc: | Natwest |

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr

Dymuna'r ymddiriedolwyr gyflwyno eu hadroddiad ar waith a'r adroddiad ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.3.2021.

**Llywodraethiant a rheolaeth**
Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu sef Cyfansoddiad Sefydliad Cofrestredig Elusennol Rhieni Dros Addysg Gymraeg a fabwysiadwyd ar 14 Awst 2013.

Mae Rhieni Dros Addysg Gymraeg yn fudiad nid-er-elw ac yn cael ei reoli gan bwyllgor cenedlaethol o wirfoddolwyr a adnabyddir fel Y Pwyllgor Cenedlaethol.

## Amcanion Elusennol Rhieni dros Addysg Gymraeg

Amcan y mudiad yw hyrwyddo Addysg Gymraeg yng Nghymru fel ei bod yn hygyrch i bawb a'i mynno.

Cyflawnwn hyn trwy gydweithio ag amrywiol gyrff cenedlaethol, cynnal gwefan gyfredol yn hyrwyddo addysg Gymraeg, cyhoeddi adroddiadau ac ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriadau, cynghorwn rieni gwahanol ardaloedd Cymru gan gynnig iddynt wybodaeth ar faterion yn ymwneud ag Addysg Gymraeg.

## Pwy ydym ni?

Mudiad cenedlaethol o rieni a sefydlwyd yn 1952 yw **Rhieni dros Addysg Gymraeg**. Prif amcanion y mudiad yw cefnogi a datblygu ysgolion Cymraeg ledled Cymru trwy roi cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno rhoi addysg Gymraeg i'w plant a'u caniatáu i gaffael dwyieithrwydd cyflawn.

Mae RhAG yn credu, fel y gwna Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model sy'n cyflwyno orau sgiliau cyflawn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Trwy ei waith, y mae RhAG yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy gefnogi awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i sefydlu mwy o ysgolion Cymraeg. Mae RhAG hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg trwy roi gwybodaeth i rieni am fanteision addysg Gymraeg a'u cefnogi ar hyd y daith addysg yn ogystal.

Mae RhAG wedi datblygu arbenigedd mewn addysg Gymraeg, gyda rhwydwaith o aelodau ar draws Cymru sy'n gallu cynghori a helpu awdurdodau lleol ac adrannau'r Llywodraeth ar ddatblygu a gwireddu cynlluniau i ddarparu addysg Gymraeg. Mae gan y mudiad rôl bwysig i gynrychioli rhieni sydd â diddordeb mewn addysg Gymraeg. Mae RhAG felly'n ddolen gyswllt werthfawr a hanfodol rhwng rhieni ac ysgolion Cymraeg a llywodraeth leol a llywodraeth ganol.

Mae rôl RhAG wedi newid yn sylweddol ar draws y blynyddoedd, wrth i nifer yr ysgolion Cymraeg gynyddu, ac wrth i addysg Gymraeg gael ei derbyn yn gyffredinol.

Derbyniwyd bellach egwyddorion sylfaenol RhAG ar lefel sirol a chenedlaethol, gan gynnwys dau beth allweddol:

- Yr angen am Strategaeth addysg Gymraeg
- Deddfu pellach – Deddf Addysg Gymraeg

Ystyriwn fod pob rhiant neu ofalwr sydd am neu wedi dewis Addysg Gymraeg i'w plant yn gymwys i dderbyn cefnogaeth RhAG.

## Rhwydweithio

Gweithreda RhAG mewn sawl ffordd i hybu a hyrwyddo addysg Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cwrdd yn gyson ac yn cynrychioli rhieni ar sail genedlaethol gerbron y llywodraeth a chyrff eraill. Mae'r Pwyllgor hefyd yn llunio polisïau sydd yn adlewyrchu natur ac anghenion gwahanol ranbarthau Cymru trwy hyrwyddo manteision addysg Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cenedlaethol yn annog pob sir i sefydlu pwyllgor lleol, ac mae pwyllgorau neu gynrychiolaeth yn bodoli yn y rhan fwyaf o siroedd Cymru. Mae'r rhain yn ymwneud â phob math o weithgareddau, gan gynnwys:

- Rhwydweithio'n lleol i hysbysu a rhoi cymorth i rieni newydd
- Cwrdd â swyddogion yr awdurdodau lleol i roi mewnbwn ar bolisïau Addysg Gymraeg a sicrhau darpariaeth ddigonol
- Ymateb i ymgynghoriadau ar amrywiol agweddau sy'n effeithio ar ddatblygiad addysg Gymraeg
- Ceisio arbenigedd y Pwyllgor Cenedlaethol ac arbenigwyr eraill ar faterion penodol
- Aelodau o Fforymau Addysg Gymraeg Awdurdodau lleol

## Effaith ein gwaith a budd cyhoeddus

Cytunir ar raglen waith ar ddechrau'r flwyddyn gyda thargedau penodol gyda'n cyllidwyr a'n hymddiriedolwyr. Ein targedau eleni oedd fel a ganlyn:

1. Cefnogi a chydweithio gyda'r siroedd drwy gynnig cefnogaeth ddwys ar eu gwaith hyrwyddo a chynllunio wrth baratoi gogyfer â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y 10 mlynedd nesaf.
2. Hyrwyddo a marchnata drwy gydweithio gyda mudiadau eraill ar fanteision dwyieithrwydd i rieni.
3. Datblygu gwefan i gynnwys deunydd hyrwyddo i gefnogi rhieni.
4. Cefnogi ymgyrchoedd marchnata a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
5. Cyfathrebu gyda rhieni ar y newyddion diweddaraf am Addysg Gymraeg drwy ein cylchlythyr Rhagolwg.
6. Darparu cymorth, cefnogaeth ac eiriolaeth am ddim i rieni mewn achosion penodol yn ymwneud ag anawsterau mynediad i ysgolion Cymraeg.

Yn unol â'n cyfrifoldeb cyfreithiol fel ymddiriedolwyr, yr ydym wedi darllen canllawiau ar fudd cyhoeddus ac yn ystyried y canllawiau wrth i waith y flwyddyn gael eu bennu a'i ddatblygu. Os daw ymddiriedolwyr newydd i'r pwyllgor yna cyflwynir copi o'r canllaw iddynt i'w ddarllen yn ystod eu cyfnod anwytho.

## Gwaith y flwyddyn

Braf yw cael y cyfle i edrych yn ôl ar flwyddyn brysur a chynhyrchiol arall i'r mudiad eto eleni gyda'n haelodau yn parhau i weithio'n ddiwyd wrth gadw golwg fanwl ar gynlluniau'r siroedd ym mhob cwr o'r wlad.

Wrth gwrs, bu hyn oll yn erbyn cefnlen ddigynsail pandemig byd-eang a'r newidiadau pellgyrhaeddol a ddaeth yn sgil hynny. Prin y byddai unrhyw un wedi rhagweld yr effaith y byddai COVID-19 yn ei chael ar ein bywydau bob dydd. Bu'n gyfnod cwbl eithriadol.

Wrth i'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol dreulio ysbaid o'r gwaith ar gyfnod mamolaeth bu RhAG yng ngofal medrus a chadarn Elin Maher – diolch iddi am ei harweiniad yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ar ddiwedd 2020, cafwyd cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddyblu grant blynyddol RhAG, sydd wedi caniatáu i'r mudiad gyflogi ail swyddog i weithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn cynnig cefnogaeth ddwys ar eu gwaith hyrwyddo a chynllunio wrth baratoi gogyfer â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y 10 mlynedd nesaf. Penodwyd Elin Maher i'r swydd a chychwynnodd ar y gwaith ym mis Rhagfyr 2020.

Carwn ddatgan ein gwerthfawrogiad i Lywodraeth Cymru am gynyddu'r grant sydd wedi caniatáu inni ehangu a chynyddu ein gweithgarwch fel mudiad ac i gryfhau ein cyfraniad yn yr ymdrech genedlaethol i wireddu targedau Cymraeg 2050.

Gyda'r Cyfnod Clo yn cychwyn ar ddiwedd Mawrth daeth yn amlwg yn gyflym iawn bod angen ymateb i'r heriau oedd yn wynebu ysgolion. Yn sydyn, nid ystafell ddosbarth oedd y man dysgu ond cartref y dysgwr, gyda theuluoedd yn gorfod ymdopi i'r heriau newydd a ddaeth yn sgil hynny.

Roedd RhAG yn gadarn o'r farn y dylai rhieni gael y cyfle i wyntyllu'r heriau oedd yn eu hwynebu a bod angen trosglwyddo'r heriau hynny yn ôl i'r mudiadau a oedd yn gweithio'n ddyfal i geisio ymateb i'r sefyllfa eithriadol hon trwy gynllunio a pharatoi prosiectau penodol ac addasu eu gwasanaethau a'u darpariaethau.

Dyma oedd y symbyliad i RhAG i fynd ati i gynnal arolwg er mwyn mesur effaith y Cyfnod Clo ar rieni a disgyblion Addysg Gymraeg a chyhoeddwyd yr adroddiad ym Medi 2020.

Bu'n gyfnod cwbl ddigynsail i'n cymunedau ar draws Cymru ac mae'n bwysig iawn ein bod yn cydnabod bod y gwaith a wnaed gan y byd addysg, y mudiadau trydydd sector a hefyd ein rhieni ar hyd a lled Cymru, wedi bod yn sylweddol.

Amlygodd yr ymchwil sawl agwedd y dylid mynd i'r afael â hwy o ran addysg Gymraeg a'r cymorth sydd ar gael i rieni, gan osod sail i'n gwaith fel mudiad er mwyn:

● Canolbwyntio ar gynorthwyo awdurdodau lleol i hyrwyddo Addysg Gymraeg wrth iddynt baratoi eu cynlluniau strategol 10 mlynedd;
● Cyfrannu i fforymau addysg sirol dros y misoedd nesaf gyda mewnbwn yn dilyn ein holiadur gan nodi ein canfyddiadau ar gyfer ysgolion a phartneriaid;
● Rhannu ein gwybodaeth gyda phartneriaid wrth i'r cynllunio addysg gyfunol ddigwydd dros y misoedd nesaf;
● Edrych ar ffyrdd uniongyrchol i gefnogi rhieni ymhellach dros y cyfnod nesaf yn enwedig ar lwyfannau digidol.

Rhannodd Elin Maher bapur ar yr holiadur mesur effaith cofid yng nghynhadledd Academi Hywel Teifi ar 10.3.2021.

Agwedd arall o'r gwaith yn ystod y cyfnod hwn oedd lansio gwefan www.Welsh4parents.cymru ar Chwefror 1af 2021, sef cyfeiriadur yn cynnwys ystod eang o adnoddau ar gyfer rhieni i'w defnyddio dros y Cyfnod Clo gyda'u plant yn y cartref. Y bwriad yw datblygu'r adnodd fel llwyfan wybodaeth barhaol y tu hwnt i gyfnod Covid. Mae'n amlwg fod y wefan wedi llenwi bwlch, wrth dderbyn 1,050 o drawiadau yn ystod y 6 wythnos gyntaf.

Cafwyd cyfle i ddathlu cynnydd a thwf mewn ardaloedd newydd gan weld darpariaeth addysg Gymraeg ar gael i gymunedau nas chafwyd o'r blaen. Un enghraifft o hynny yw'r llun ar glawr yr adroddiad hwn, sef disgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, yn ardal Caerllion, am y tro, cyn iddynt symud i'w safle newydd ym Mhilgwenlli ym Medi 2023.

Agorwyd yr ysgol ym Medi 2021, gyda 7 disgybl ar y gofrestr, ac mae'n cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ymhellach yn ne orllewin y ddinas - ardal sydd wedi dangos galw cyson dros y blynyddoedd.

Braf yw nodi bod yr ysgol yn ffynnu ac yn prysur wreiddio yn ei chymuned newydd. Mae sefydlu'r ysgol yn dynodi cyfnod cyffrous arall i addysg Gymraeg yn y Sir wrth i ardal newydd gael mynediad rhwydd i addysg Gymraeg am y tro cyntaf.

Da yw nodi hefyd fod mintai gyntaf o ddisgyblion Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, a sefydlwyd yn 2016, wedi sefyll eu harholiadau TGAU'r haf diwethaf. Mae'r datblygiadau hyn yn cadarnhau fod ymgyrchoedd hyrwyddo diweddar yn sicr wedi dwyn ffrwyth yn y sir.

Daeth newyddion da o Flaenau Gwent wrth i'r Sir gynnal ymgynghoriad i sefydlu ysgol newydd ar gyfer Tredegar a Chwm Sirhywi i agor ym Medi 2023. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar Fawrth y 1af. Mae'r ysbryd o gydweithio wedi cynyddu'n sylweddol

yno dros y blynyddoedd diwethaf ac awydd gwirioneddol i gryfhau'r ddarpariaeth, sy'n chwa o awyr iach ac yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Rydym eisoes wedi llongyfarch Cyngor Sir Penfro ar ddatblygiadau'r blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys agor Ysgol Hafan y Môr, yn Ninbych-y-pysgod ac Ysgol Caer Elen, yn Hwlffordd, sy'n gerrig milltir arwyddocaol yn natblygiad addysg Gymraeg yn y Sir. Yn yr un modd, daeth cadarnhad y bydd ysgol gynradd cyfrwng Gymraeg newydd yn agor ym Mhenfro ym mis Ionawr 2023. Mae'r datblygiadau hir-ddisgwyliedig hyn yn gam i'r cyfeiriad cywir i addysg Gymraeg yn Sir Penfro, ac yn benodol o safbwynt ardal Hwlffordd, lle bu twf sylweddol. Amlygwyd hynny yn ystod y flwyddyn hon wrth i ni gefnogi teulu yn apelio am le yn y dosbarth Derbyn i'w plentyn. Mae'n dda nodi i'r apêl honno fod yn llwyddiannus ond mae'n glir fod y twf aruthrol yn y galw am addysg Gymraeg yn Hwlffordd a'r cylch, o ganlyniad uniongyrchol i agor Ysgol Caer Elen, yn dangos y bydd yn rhaid i'r Sir weithredu ar fyrder i gynyddu'r lleoedd sydd ar gael.

Cafwyd cadarnhad ar 1 Chwefror 2021 fod Cyngor Wrecsam yn bwriadu bwrw ymlaen a'u cynlluniau hir disgwyliedig i sefydlu ysgol Gymraeg newydd yn ardal Borras. Roedd y Cyngor wedi gwneud cynlluniau i godi'r ysgol newydd ym mis Medi 2017 gan obeithio ei hagor ym mis Medi 2019, cyn symud i'w lleoliad parhaol yn Borras yn 2021. Gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam yn llawn neu bron iawn yn llawn, roedd angen ysgol Borras i ddarparu ar gyfer y galw cynyddol ar yr ochr honno o'r dref. O ganlyniad i oedi gyda'r cynllun, cafodd Ysgol Bro Alun ei ehangu fel datrysiad dros dro. Felly mae'n galonogol gweld y cynllun hwn bellach yn cael ei wireddu.

Daeth newyddion hefyd am fuddsoddiad mewn adeiladau newydd i sawl ysgol Gymraeg gan gynnwys Ysgol Cwm Gwyddon yng Nghaerffili ac Ysgol Tirdeunaw ac Ysgol Tan-y-lan yn Abertawe.

Cafwyd sawl datblygiad arwyddocaol ym Mhowys yn ystod y flwyddyn dan sylw.
Daeth hyn mewn ymateb uniongyrchol i adroddiad Estyn yn 2019, oedd yn nodi'n glir yr angen am newid sylweddol yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn darparu addysg Gymraeg. Cyhoeddwyd cyfres o gynigion yn deillio o'u strategaeth ar gyfer *Trawsnewid Addysg ym Mhowys 2020 – 2030.*

Croesawyd gennym gynigion i droi Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth yn ysgol cyfrwng Cymraeg a fyddai'n golygu mai hon fyddai'r ysgol Gymraeg bob oed gyntaf yn y sir. Nodwn er hynny na fydd hynny'n digwydd dros nos ac y bydd yn cymryd 14 mlynedd i'w wireddu'r cynllun yn llawn.

Cyflwynwyd ymateb i ymgynghoriad ar y cynnig i uno ysgolion uwchradd a chynradd Llanfair Caereinion, nad oedd yn cynnig ymrwymiad pendant i adolygu categori ieithyddol yr ysgol. Roedd CSGA 2014-17 yn nodi bwriad i sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig yn Nyffryn Hafren. Ond rhoddwyd y cynllun hwnnw i'r neilltu, gan newid cyfeiriad polisi a datgan bwriad i greu ysgolion gydol oes dwy ffrwd mewn tri safle yn Nwyrain Maldwyn. Roedd hyn yn destun siom a rhyfeddod i ni fel mudiad. Cafodd y cynnig ei 'alw i mewn' mewn cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2021 gyda RhAG yn cefnogi'r ymdrechion hynny.

Mae cynlluniau yn yr arfaeth hefyd ar gyfer sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg pob oed newydd yn Llanfair-ym-muallt: datblygiad sydd i'w groesawu'n fawr. Disgwylir ymgynghoriad cychwynnol ar y cynigion yn gynnar yn 2022.

Wrth ystyried y datblygiadau diweddar ym Machynlleth, a'r hyn sydd yn yr arfaeth ar gyfer ardal Llanfair-ym-muallt, mae'n dwysáu eto fyth yr anghydraddoldeb y byddai

gwireddu'r cynlluniau yma'n ei greu i blant Dwyrain Maldwyn sydd eisoes yn derbyn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Ein rhwystredigaeth bennaf ym Mhowys ar hyn o bryd yw'r diffyg ymrwymiad i sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig i wasanaethu Dwyrain Maldwyn, fel y cafwyd yn eu Cynllun Addysg Gymraeg ar gyfer 2017-20 ond na'i wireddwyd, fel bod dilyniant ieithyddol llawn a di-dor ar gael i dros 800 o ddisgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol yr ardal honno, sy'n cyfateb i 43% o holl ddisgyblion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir.

Mae'n destun pryder mawr i ni fod nifer mor sylweddol o ddisgyblion yn dal i fethu cyrchu dilyniant ieithyddol llawn. Yn wir, mae'n anodd meddwl am unrhyw ardal arall yng Nghymru ble mae sefyllfa o'r fath yn bodoli. Rhaid i Gyngor Powys osgoi unrhyw oedi pellach ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ddarparu'r dilyniant ieithyddol hwnnw a ddylai fod ar gael i'r disgyblion hyn.

Yn gymysg â'r uchelfannau profwyd sawl her a rhwystredigaeth ble bu'n rhaid ymyrryd mewn achosion a oedd yn niweidiol i dwf addysg Gymraeg.

Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*, Llywodraeth Cymru, ysgrifennwyd llythyr ar y cyd gan nifer o fudiadau iaith yn mynegi pryder difrifol am y bwriad i wneud Saesneg yn orfodol ym mhob ysgol a chylch meithrin yn y wlad.

Byddai gorfodi cylchoedd meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg i addysgu Saesneg yn y Cyfnod Sylfaen, cyn bod plant yn 7 oed, wedi bod yn gam enfawr yn ôl, ac yn tanseilio degawdau o waith yn y maes hwn.

Wedi cryn bwyso croesawyd penderfyniad y Llywodraeth na fyddent yn bwrw ymlaen gyda'r cynnig o dan y gyfundrefn newydd.

Bu RhAG yn galw ar Gyngor Caerdydd i ymateb ar fyrder i sefyllfa prinder lleoedd yn ysgolion gogledd-canol Caerdydd yn dilyn derbyn nifer o gwynion gan rieni yn pryderu na fyddai modd i'w plant gael mynediad i Addysg Gymraeg. Daeth yn amlwg fod tua 15 o blant wedi eu gwrthod i Ysgol Mynydd Bychan, gyda phob un yn byw o fewn dalgylch yr Ysgol. Ceisiwyd annog Cyngor Caerdydd i wneud yr hyn y mae wedi'i wneud lawer gwaith o'r blaen ac agor "egin ddosbarth" dan oruchwyliaeth Ysgol Mynydd Bychan mewn adeilad cyfagos.

Bu RhAG yn cefnogi a chynrychioli'r 15 teulu mewn apeliadau, ond yn anffodus aflwyddiannus fu'r ymdrech honno ac er bod rhai o'r teuluoedd wedi derbyn lle mewn ysgolion Cymraeg eraill yn y ddinas, mae'n bryder gennym fod nifer helaeth wedi eu colli i'r sector cyfrwng Cymraeg.

Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddwyd cynnig i gynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 315 o leoedd o fis Medi 2022, trwy sefydlu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar safle Ysgol Allensbank, sef ysgol cyfrwng Saesneg cyfagos.

Amlygodd y cynnig sawl mater allweddol, gan gynnwys y manylion ymarferol ynghylch sut y byddai safle Allensbank yn cael ei rannu, gan godi cwestiynau pellach o ran dealltwriaeth wirioneddol y swyddogion o addysg drochi.

Yn sgil ymgynghori gyda rhieni'r ysgol, nid oedd yn bosibl inni gefnogi'r cynnig yn ei ffurf bresennol. Nid ar chwarae bach y mae RhAG yn gwrthod cynnig sydd yn amcanu i

gynyddu lleoedd cyfrwng Cymraeg ond daethpwyd i'r casgliad mai annoeth fyddai cefnogi cynnig a oedd, yn ein tyb ni, yn brin o fanylion a sicrwydd yn y tymor hir.

Mae'n drueni na achubwyd ar y cyfle i gyflwyno datrysiad cadarn a oedd yn dangos gweledigaeth gref ar gyfer ehangu addysg Gymraeg yn ardal gogledd-canol Caerdydd, ond roedd y cynllun a gyhoeddwyd yn disgyn yn brin o'r nod hwnnw. Ac er bod y Sir wedi derbyn cyllid o dan Grant Cyfalaf Addysg Gymraeg, Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn yn 2018, yn benodol i ehangu darpariaeth addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o'r ddinas, mae'r ansicrwydd yn parhau o safbwynt amserlen i roi cynlluniau ar waith i gynnig datrysiad yn yr ardal hon.

Yn dilyn cryn wrthwynebiad, penderfynodd Cyngor Caerdydd oedi gyda'r elfen cyfrwng Cymraeg o'r cynllun, sy'n peri ansicrwydd mawr yn y tymor byr.

Daeth yn amlwg ers peth amser fod gormod o benderfyniadau pellgyrhaeddol yn cael eu gwneud yn y maes addysg yng Nghymru ar sail asesiadau ieithyddol cwbl ddiffygiol.

Mynegodd RhAG anfodlonrwydd RhAG mewn perthynas ag ymgynghoriad i ymestyn addysg Saesneg mewn dwy ysgol yn ardal Cil-y-coed, Sir Fynwy gydag un ysgol o fewn tafliad carreg i Ysgol y Ffin. Cyflwynwyd cŵyn i sylw Comisiynydd y Gymraeg gan nad oedd yr asesiad effaith ar y Gymraeg yn ddigonol gan fod y Sir wedi anwybyddu'r effaith negyddol posibl ar Ysgol Y Ffin, a heb nodi camau lliniaru hawdd i hyrwyddo Addysg Gymraeg yn y dref.

Dengys yr enghraifft hon yn glir fod methiannau systemig yn parhau, fel yr amlygwyd gan y bargyfreithiwr Gwion Lewis gydag achos Ysgol Pentrecelyn, yn Sir Ddinbych. Mae'n amlwg mai prin iawn yw'r gwersi a ddysgwyd a bod angen newid yn y gyfraith – a chreu canllawiau mwy cadarn. Dyma pam fod RhAG yn galw am lunio canllaw ar sail statudol ar gyfer asesiadau effaith ieithyddol.

Rydym yn falch o nodi bod canghennau RhAG yn parhau'n weithgar gyda grŵp wedi'i ffurfioli ym Mro Morgannwg a changen RhAG Canolbarth Powys wedi ei hatgyfodi yn ystod 2020. Mae awydd a brwdfrydedd rhieni ar lawr gwlad mor fyw ac erioed wrth bwyso ar y siroedd i ymateb yn rhagweithiol er mwyn ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae fforymau Addysg Gymraeg bellach wedi'i hen sefydlu yn y mwyafrif o siroedd lle y ceir trafodaeth strategol ar ddatblygu addysg Gymraeg a chyfle i graffu ar y cynlluniau a ddaeth i rym yn 2017. Mae gwirfoddolwyr a staff RhAG yn ymdrechu i fynychu'r rhan fwyaf o'r fforymau hyn ac yn cyfrannu'n adeiladol i'w datblygiad.

Pleser oedd croesawu'r Cyng. Cefin Campbell, Aeron Rees a Catrin Griffiths o Gyngor Sir Gaerfyrddin i'n hannerch yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni. Cafwyd braslun ganddynt o'r gwaith blaengar sydd ar droed yno o ran symud rhai o'u hysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd y continwwm ieithyddol, gyda sylw penodol ar eu hysgolion trawsnewidiol.

Roedd hynny'n amserol wrth inni ymateb i nifer o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymgynghoriad ar ganllaw anstatudol yn ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Bu RhAG yn galw ers degawd a mwy am adolygu'r polisi categoreiddio ac felly'n croesawu bwriad y Llywodraeth i weithredu ar hyn.

Mawr yw'r angen i sefydlu trefn sy'n cynnig eglurder i ddisgyblion, rhieni, ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg. Heb awdurdod pendant a chlir ar y diffiniadau hyn byddwn yn parhau i fodoli mewn gwagle o ansicrwydd.

Mae angen i awdurdodau addysg leol a llywodraethwyr ysgolion nodi'n glir i ba ddiffiniad ieithyddol y mae eu hysgolion yn perthyn, fel bod modd i rieni wneud dewisiadau ystyrlon. Rhaid rhoi mwy o bwyslais ar ddeilliannau ieithyddol tebygol y gwahanol fodelau: mae'n hanfodol cael mwy o onestrwydd ynghylch hyn.

O safbwynt RhAG, y brif egwyddor a ddylai yrru'r gwaith yw'r angen i'r holl rhanddeiliaid - a rhieni yn arbennig - i gael gwybodaeth glir am yr hyn yw ysgolion Cymraeg a'r sgiliau a enillir trwy eu mynychu. Ni ddylid symud at sefydlu trefn newydd a fyddai'n gorsymleiddio patrymau ieithyddol yr ysgolion, gan arwain at ganlyniadau anffafriol i addysg Gymraeg. Wrth anelu i sicrhau eglurder, rhaid osgoi creu sefyllfa a all arwain at ddryswch, camddehongli neu gamddefnyddio'r diffiniadau hyn.

Felly mae diogelu categori'r ysgolion Cymraeg penodedig yn gwbl allweddol: rhaid osgoi creu sefyllfa a fyddai'n gwanhau a thanseilio addysg Gymraeg, a fyddai'n gerbyd i rai ysgolion, sydd eisoes yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, i lithro yn ôl.

Y man cychwyn amlwg yw rhoi diffiniad clir o'r hyn ydyw ysgol Gymraeg ac yna darparu llwybrau clir ar sut i fynd ati i ehangu'r sector Cymraeg.

Ar drothwy cyfnod tyngedfennol o ran twf a datblygiad addysg Gymraeg, gwelwyd y siroedd yn dechrau paratoi ar gyfer y gwaith o lunio eu Cynlluniau 10 mlynedd, ar gyfer y cyfnod 2022 – 2032. Yn wir, i lawer o awdurdodau lleol, y categorïau ieithyddol newydd fydd y sbardun ar gyfer cyrraedd eu targedau yn eu Cynlluniau unigol. Felly mae sicrhau fframwaith cadarn ac arweiniad clir yn allweddol.

Mae RhAG wedi bod yn pwyso am yr angen i awdurdodau lleol ddatblygu dulliau newydd o sefydlu ysgolion Cymraeg. I wneud hyn, mae angen polisi cenedlaethol fydd yn rhoi arweiniad cadarn a chlir ar:

• ei gwneud yn hwylus i ysgolion unigol drosi'n ysgolion Cymraeg;
• mynnu, lle mae nifer o ysgolion Saesneg mewn ardal, bod un neu ragor yn cael eu trosi'n ysgolion Cymraeg;
• sefydlu dosbarthiadau cychwynnol.

Ar sail profiad y blynyddoedd diwethaf, daeth yn amlwg nad yw'r drefn gynllunio a'r ddeddfwriaeth bresennol yn addas at y diben ac yn llwyddo i osod yr amodau gorau er mwyn cyflawni canlyniadau a thargedau polisi Cymraeg 2050.

Mae RhAG wedi croesawu bod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynd i roi nodau twf dros 10 mlynedd i awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn croesawu ymdrech y Llywodraeth i roi targedau penodol i bob sir. Mae'n hanfodol, fodd bynnag, bod cyllid digonol ar gael i awdurdodau i gyrraedd eu nodau.

Ac mae'n gadarnhaol gweld y flaenoriaeth a roddir i blant ar gychwyn eu haddysg. Rydym o'r farn mai drwy ganolbwyntio ar strategaethau i gynyddu'r niferoedd mewn dosbarthiadau Meithrin a Derbyn mae modd llwyddo i'r eithaf i sicrhau nifer uchel o blant yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd gosod targedau penodol ar gyfer y sector Meithrin a'r dosbarth Derbyn - a fydd yn galluogi'r siroedd i ddangos cynnydd a llwyddiant wrth hybu dilyniant o'r sector Meithrin i'r sector cynradd - gan mai dyma le bydd modd gyrru'r twf er mwyn mesur llwyddiant.

Rydym yn edrych ymlaen at gyfrannu, trwy'r Fforymau Addysg Gymraeg, at y gwaith o lunio'r Cynlluniau newydd hyn, er mwyn sicrhau ton o Gynlluniau cadarn, cryf ac uchelgeisiol, a fydd yn ein symud yn nes at wireddu targedau cenedlaethol Cymraeg 2050.

Mae RhAG wedi bod o'r farn ers cryn amser fod angen cymryd camau llawer mwy pellgyrhaeddol i wyrdroi'r sefyllfa ac wedi galw ers rhai blynyddoedd am lunio **Bil Addysg Gymraeg**, (Maniffesto Etholiadau'r Cynulliad 2016 & 2021), er mwyn gosod fframwaith cyfreithiol newydd a fyddai'n rhoi'r amodau gorau i addysg Gymraeg ffynnu a datblygu.

Ar hyn o bryd mae'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn dameidiog, annigonol neu'n cael ei ymgorffori mewn deddfau eraill. Mewn sawl maes nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli o gwbl. Mewn rhai meysydd mae canllawiau ond nid deddfau, ac mewn ambell faes, nid oes deddfwriaeth yn bodoli. Er bod nifer o'r Deddfau a Chanllawiau a nodwyd yn gefnogol i addysg Gymraeg, nid oes eglurder ar sut i weinyddu neu orfodi'r rhain. Mae dyletswyddau awdurdodau addysg yn gallu bod yn amwys, a hyd yn oed os gwelir eu bod yn gweithredu'n ddiffygiol neu'n negyddol, nid oes llwybrau amlwg i'w dal i gyfrif.

Felly rydym yn croesawu'r ymrwymiad yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru i wireddu hynny trwy ddeddfu i gryfhau a chynyddu darpariaeth mewn addysg Gymraeg yn ystod cyfnod y Senedd bresennol.

Bydd gwaith RhAG yn parhau i ganolbwyntio ar yr angen i Lywodraeth Cymru ehangu'n sylweddol eu rhaglen cyllid cyfalaf i fuddsoddi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn arbennig o fewn cyd-destun y fframwaith gynllunio newydd arfaethedig ar gyfer y ddegawd nesaf a gwireddu'r targed o gynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg i 30% erbyn 2031.

Mae canfod arian cyfatebol yn aml yn rhwystr sydd wedi llesteirio sawl sir rhag gweithredu cyn hyn. Os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n rhaid rhoi rhaglen o dwf cyflym ar waith ac mae sicrhau cyllid digonol i wireddu hynny yn gwbl allweddol. Galwn ar y Llywodraeth felly i gynyddu'r cyllid refeniw a chyfalaf sydd ar gael er mwyn galluogi'r siroedd i weithredu.

Wrth edrych ymlaen, bydd RhAG yn dathlu'r 70 yn 2022. Dyma garreg filltir nodedig i fudiad sydd wedi chwarae rhan flaenllaw yn hanes twf Addysg Gymraeg. Ond ni allwn orffwys ar ein rhwyfau, nes y bydd addysg Gymraeg yn hygyrch i bawb a'i mynno, bydd gwaith RhAG yn parhau.

Felly i gloi, dyma ddiolch yn ddiffuant i'n holl aelodau a'n cefnogwyr am eu dycnwch a'u dyfalbarhad eto eleni wrth inni weithio tuag at wireddu'r genhadaeth honno.

## Cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cenedlaethol ar:

13/5/20 2/7/20 5/10/20 30/11/20 25/02/21

Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cenedlaethol yn fisol neu'n ddeufisol,

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol ar: 28 Ionawr 2021

**'Addysg Gymraeg a'r gymuned: heriau'r ugain mlynedd nesaf'**

**Siaradwyr Gwadd:**

**Cynghorydd Cefin Campbell,** Aelod Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig, Cyngor Sir Gâr

**Aeron Rees,** Pennaeth Cwricwlwm a Lles, Adran Addysg a Gwasanaethau Plant,

**Catrin Griffiths,** Rheolwr Datblygu'r iaith Gymraeg, Cyngor Sir Gâr

## Cyfarfodydd a chynrychiolaeth

---

**Cyfarfodydd a gohebu gydag ASau:**

23/07/20 Dr Dai Lloyd
Teulu yn ardal Evanstown yn methu cael mynediad at le codi'n 3 cyfrwng Cymraeg dros y ffin yn yr ysgol agosaf.

3/7/2020 Huw Irranca-Davies
Diffyg datblygiad addysg Gymraeg ym Mhenybont-ar Ogwr

18/02/21 Jayne Bryant
12/02/21 Jayne Bryant a John Griffiths
Heriau i gynlluniau i ymestyn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd

Danfonwyd ein Maniffesto at holl ymgeiswyr etholiadau'r senedd

**Cyfarfodydd gyda Swyddogion Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7/05/20 | 5/06/20 | 18/06/20 | 29/06/20 | 30/7/20 | 23/09/20 |
| 7/10/20 | 16/11/20 | 26/11/21 | 2/12/20 | 11/01/21 | 16/03/21 |

**Cyfarfodydd gyda swyddogion Comisiynydd y Gymraeg:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8/07/20 | 25/09/20 | 08/02/21 | 17/03/21 |

**Cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd Plant:**
8/07/20. Adrodd ar holiadur pryderon rhieni yn ystod cyfnod y clo

**Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Addysg Gymraeg**
Mae cynrychiolaeth gan RhAG yn eistedd ar y canlynol:
Blaenau Gwent; Bro Morgannwg; Caerffili; Caerdydd; Casnewydd; Pen-y-bont ar Ogwr; Rhondda Cynon Taf; Merthyr; CNPT; Powys, Sir Fynwy a Wrecsam.

**Cynrychiolaeth RhAG ar Fforymau Iaith**

Torfaen; Mynwy; Blaenau Gwent; Merthyr, Pen-y-bont ar Ogwr, RhCT

**Dathlu'r Gymraeg**
Mae RhAG yn aelod gweithredol o'r grŵp ymbarél sy'n cydweithio er mwyn hyrwyddo a dathlu'r iaith Gymraeg.

**Cronfa Glyndŵr**
Mae'r Swyddog Cenedlaethol yn cynrychioli RhAG ar bwyllgor y Gronfa sy'n gweithio i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Cymru. Cynhelir cyfarfodydd ar foreau Sadwrn bob chwarter.

## Canghennau Lleol – Cysylltiadau

| Sir | Cyswllt |
| --- | --- |
| Abertawe | Heini Gruffudd |
| Blaenau Gwent | Meryl Darkins |
| Bro Morgannwg | Tim Pearce |
| | Mark Bowen |
| Caerdydd | Owain Rhys |
| | Michael Jones |
| Casnewydd | Elin Maher |
| Castell-nedd Port Talbot | Roger Williams |
| Caerffili | Ben Jones |
| Sir Ddinbych | Elfed Williams |
| Mynwy | Lynne Feakes |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Elin Mannion |
| Powys | |
| Aberhonddu / Pontsenni | Lynne Griffin |
| Canol Powys | Freddy Greaves |
| Buallt | Steve Mason |
| Rhondda Cynon Taf | Helen Prosser |
| Torfaen | Glyn Davies |
| Wrecsam | Rhodri Davies |

Gellir cysylltu gyda'r swyddfa ganolog am fanylion cyswllt uniongyrchol ein cysylltiadau lleol.

## Cysylltu

Ceri McEvoy
Cyfarwyddwr Datblygu
Rhieni dros Addysg Gymraeg
Tŷ Cymru
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd. CF23 8RD

07912175403
ceri@rhag.cymru
www.rhag.cymru

Facebook: http://www.facebook.com/rhieni.gymraeg
Trydar: @RhAG1

Llofnod y cadeirydd:



Wyn Williams
Cadeirydd Cenedlaethol RhAG

# Adroddiad ariannol 2020 – 21

| RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA HYD AT 31 MAWRTH 2021 | 2020/21 | 2019/20 |
|---|---|---|
| **Mewn Llaw ar 1 Ebrill 2020** | **22,079.91** | **4,206.83** |
| **Derbyniadau 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021** | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 70,000.00 | 43,750.00 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 80,346.00 | 0.00 |
| Eraill | 0.00 | 22.75 |
| Ad-daliad WCVA (cyfnod mamolaeth) | 12,526.44 | 0.00 |
| RhAG Abertawe | 0.00 | 101.22 |
| **Is Cyfanswm Derbyniadau** | **162,872.44** | **43,873.97** |
| **Cyfanswm Derbyniadau BA 2020/21** | **184,952.35** | **48,080.80** |
| **Gwariant 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021** | | |
| Costau Cyflogi Swyddog | | |
| Costau Tal | 26,028.96 | 20,201.59 |
| Costau Redeg Y Swydd | 270.00 | 250.80 |
| Costau Pensiwn (Cyfraniad RhAG) | 1,904.88 | 1,904.88 |
| Costau Teithio | 0.00 | 724.40 |
| Costau Treuliau | 0.00 | 499.65 |
| Costau Ffon Symudol | 88.85 | 140.00 |
| Yswiriant | 487.79 | 562.70 |
| Cynhyrchu RhAG Olwg | 0.00 | 803.00 |
| Gwefan a Chostau Digidol | 0.00 | 138.87 |
| Cynadleddau a Chyfarfodydd | 0.00 | 175.00 |
| Costau llawrydd | 21,786.43 | 600.00 |
| Ad-daliad Grant Llywodraeth Cymru | 80,346.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm Gwariant BA 2020/21** | **130,912.91** | **26,000.89** |
| **Mewn Llaw ar 31 Mawrth 2021** | **54,039.44** | **22,079.91** |

Wedi ei arwyddo gan un neu ddau ymddiriedolwr ar rhan yr ymddiriedolwyr i gyd.

| Llofnod | Enw | | Dyddiad Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| DWW | D. Wyn Williams | | 13 Hydref 2021 |
| Heini Gruffudd | Heini Gruffudd | | 13 Hydref 2021 |

| **RhAG – ADRODDIAD ARIANNOL BA HYD AT 31 MAWRTH 2021** | **2020/21** | **2019/20** |
|---|---|---|
| **Mewn Llaw ar 1 Ebrill 2020** | **22,079.91** | **4,206.83** |
| **Derbyniadau 1 Ebrill 2020 – 31 Mawrth 2021** | | |
| Grant Llywodraeth Cymru | 70,000.00 | 43,750.00 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 80,346.00 | 0.00 |
| Eraill | 0.00 | 22.75 |
| Ad-daliad WCVA (cyfnod mamolaeth) | 12,526.44 | 0.00 |
| RhAG Abertawe | 0.00 | 101.22 |
| **Is Cyfanswm Derbyniadau** | **162,872.44** | **43,873.97** |
| **Cyfanswm Derbyniadau BA 2020/21** | **184,952.35** | **48,080.80** |
| **Gwariant 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021** | | |
| Costau Cyflogi Swyddog | | |
| Costau Tal | 26,028.96 | 20,201.59 |
| Costau Redeg Y Swydd | 270.00 | 250.80 |
| Costau Pensiwn (Cyfraniad RhAG) | 1,904.88 | 1,904.88 |
| Costau Teithio | 0.00 | 724.40 |
| Costau Treuliau | 0.00 | 499.65 |
| Costau Ffon Symudol | 88.85 | 140.00 |
| Yswiriant | 487.79 | 562.70 |
| Cynhyrchu RhAG Olwg | 0.00 | 803.00 |
| Gwefan a Chostau Digidol | 0.00 | 138.87 |
| Cynadleddau a Chyfarfodydd | 0.00 | 175.00 |
| Costau llawrydd | 21,786.43 | 600.00 |
| Ad-daliad Grant Llywodraeth Cymru | 80,346.00 | 0.00 |
| **Cyfanswm Gwariant BA 2020/21** | **130,912.91** | **26,000.89** |
| **Mewn Llaw ar 31 Mawrth 2021** | **54,039.44** | **22,079.91** |

Wedi ei arwyddo gan un neu ddau ymddiriedolwr ar rhan yr ymddiriedolwyr i gyd.

| Llofnod | Enw | | Dyddiad Cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| | D. Wyn Williams | | 13 Hydref 2021 |
| | Heini Gruffudd | | 13 Hydref 2021 |

COMISIWN ELUSENNAU AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Adroddiad yr archwiliwr annibynnol ar y cyfrifon

**Adran A** **Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i ymddiriedolwyr/aelodau** | Enw'r Elusen<br>RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG |
| **Ar y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu** | 31 MAWRTH 2021 |
| **Rhif yr Elusen (os oes)** | 1153403 |
| **I'w gweld ar dudalennau** | Gweler yr adroddiad ariannol wedi atodi |

Adroddaf i'r ymddiriedolwyr ar fy archwiliad o gyfrifon yr elusen uchod ("yr Ymddiriedolaeth") am y flwyddyn yn diweddu 31/03/2020.

**Cyfrifoldebau'r a'r sail adrodd**

Fel yr ymddiriedolwyr elusen, rydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 ("y Ddeddf").

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o gyfrifon yr Ymddiriedolaeth a gwblhawyd o dan adran 145 o Ddeddf 2011 ac wrth ymgymryd â'm harchwiliad, dilynais yr holl Gyfarwyddiadau cymwys a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) o'r Ddeddf.

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol**

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Cadarnhaf nad yw unrhyw faterion perthnasol wedi dod i'm sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi achos i mi gredu, mewn unrhyw agwedd perthnasol:

- ni chafodd cofnodion cyfrifyddu eu cadw yn unol ag adran 130 o'r Ddeddf Elusennau; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion cymwys yn ymwneud â ffurf chynnwys cyfrifon a amlinellir yn Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 heblaw unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn rhoi darlun 'gwir a theg' nad yw'n fater i'w ystyried fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes unrhyw bryderon gennyf ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd:** | [signature] |
| **Dyddiad:** | 12/10/2021 |
| **Enw:** | MRS LAURA JOANNE CRADDOCK |
| **Cymhwyster (cymwysterau) neu gorff proffesiynol perthnasol (os oes):** | FCCA |

**Cyfeiriad:**

| |
|---|
| ASHMOLE & CO, CASTLE HOUSE |
| HIGH STREET, AMMANFORD |
| CARMARTHENSHIRE, SA18 2NB |

## Adran B Datgeliad

Cwblhewch dim ond os oes angen i'r archwiliwr dynnu sylw at faterion o bryder perthnasol (gweler CC32, Archwiliad annibynnol o gyfrifon elusennau: cyfarwyddiadau a chanllawiau i archwilwyr).

**Rhowch fanylion byr yma am unrhyw eitemau yr hoffai'r archwiliwr eu datgelu.**

Yn ystod y flwyddyn ariannol derbyniwyd swm o £80,346 oddi wrth Lywodraeth Cymru fel camgymeriad. Ad-dalwyd y swm ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gan mai camgymeriad Llywodraeth Cymru oedd hon, mae’r ad daliad wedi cael ei gynnwys fel gwariant yn yr adroddiad ariannol sydd wedi atodi.